

Cynllun Gweithredu LHDTC+ i
Gymru:
Dadansoddiad o'r Ymgynghoriad

Chwefror 2022



Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Awduron yr adroddiad:

Chwefror 2022

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestrdig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 2–4 Park Street, Bristol, BS1 5HS
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 2.16 Oxford House, 49 Oxford Road, London, N4 3EY

-

Manylion cyswllt:

Ffôn: 01545 571711
E-bost: wavehill@wavehill.com
Twitter: @wavehilltweets
Gwefan: www.wavehill.com

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	2
1 Cyflwyniad.....	5
2 Cydraddoldeb.....	9
3 Nodau Cyffredinol.....	18
4 Camau Gweithredu Arfaethedig.....	23
5 Heriau Allweddol ac Adnoddau.....	49
6 Croestoriadedd.....	60
7 Y Gymraeg.....	65
8 Y term LHDTG+.....	66
Atodiad 1: Cwestiynau'r Ymgynghoriad.....	71
Atodiad 2: Rhestr o'r Sefydliadau a Ymatebodd.....	73

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad annibynnol o'r ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu LHDT+ i Gymru a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2021. Mae'n cyflwyno'r farn a'r safbwyntiau a gynigiwyd gan yr ymatebwyr mewn perthynas â'r cynigion.

Ymatebion

Cymerodd 1,328 o unigolion a sefydliadau yr amser i gynnig eu barn ar y Cynllun Gweithredu. Derbyniodd yr ymgynghoriad gyfanswm o 1,177 o ymatebion oddi wrth unigolion sydd â diddordeb yn y Cynllun Gweithredu, gan gynnwys aelodau'r cyhoedd. Derbyniwyd 151 o ymatebion technegol hefyd, oddi wrth sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Canfyddiadau Allweddol

Cynigiodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o farn a safbwyntiau, gan gynnwys barn am y Cynllun Gweithredu ei hun, ynghyd ag arsylwadau sy'n adlewyrchu dadleuon a thrafodaethau ehangach ynglŷn â rhyw, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, a hunaniaeth. Myfyriodd yr ymatebwyr ar amcanion trosfwaol a chyfeiriad cyffredinol y Cynllun Gweithredu, hyd at yr union gamau a'r geiriad yn y ddogfen.

Roedd yr ymatebwyr yn gyffredinol yn croesawu bwriad ac uchelgais y Cynllun Gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio tuag at fwy o gydraddoldeb i bobl LHDTC+. Roeddent yn cymeradwyo uchelgais y Cynllun Gweithredu, ac yn gadarnhaol ynglŷn â'i weledigaeth strategol a'r ymagwedd at wella ymwybyddiaeth o gymunedau LHDTC+ a'u proffil ledled Cymru ac wrth lunio polisi.

Cynigiodd llawer o ymatebwyr sylwadau a barn ar sut y gellid cryfhau'r Cynllun Gweithredu. Roedd y rhain yn aml yn cynnwys awgrymiadau ynglŷn â phwyntiau gweithredu penodol neu themâu a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu. Roedd yr ymatebwyr yn aml yn dymuno gweld ymrwymadau cadarnach neu ragor o wybodaeth i helpu i roi'r Cynllun Gweithredu ar waith. O'r safbwyntiau hyn, roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai pwyntiau gweithredu mwy penodol a phendant yn hybu newid mwy ystyrlon gan unigolion a sefydliadau, gan gynnwys o ran sut maent yn ymwneud â phobl LHDTC+ ac yn eu cynorthwyo.

Cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at themâu a materion ehangach yn ymwneud â'r Cynllun Gweithredu sy'n adlewyrchu dadleuon cyhoeddus diweddar, gan gynnwys ar ryw, hunaniaeth rhywedd, hawliau, a rhyddid mynegiant. Roedd rhai ymatebwyr, er enghraifft, o'r farn bod y Cynllun Gweithredu am gyflwyno'r arfer o bobl yn nodi eu hunaniaeth rhywedd eu hunain, ac wedi gwrthod yr holl ddull gweithredu ar sail hynny. Elfen allweddol er mwyn deall y farn hon yw bod gan lawer ragdybiaethau neu safbwyntiau ymlaen llaw wrth fynd ati i ddehongli arwyddocâd y cynigion yn y Cynllun Gweithredu. Roedd y lens yr oedd yr ymatebwyr yn dehongli'r cynigion drwyddo weithiau'n arwain at gamddechongli neu gamddeall prif gynnwys y Cynllun Gweithredu.

Cydraddoldeb

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol ynglŷn â bodolaeth y Cynllun Gweithredu a'r ymrwymïadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud tuag at gydraddoldeb i bawb yng Nghymru. Dymunodd rhai weld mwy o gydnabyddiaeth o bobl a mwy a ddadgyfuno pobl o dan y term 'LHDTG+' yn y Cynllun. O'r safbwyntiau hyn, roedd y Cynllun Gweithredu'n cyflwyno cyfle pwysig i nodi hunaniaethau unigol ar draws cymunedau LHDTG+, gan gynnwys cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd, yn ogystal â chydabod yr anghenion sy'n gorgyffwrdd rhyngddynt. Roedd rhai'n teimlo y byddai rhagor o eglurder, gwybodaeth a diffiniadau yn y Cynllun Gweithredu yn ddefnyddiol i sicrhau bod camau gweithredu dilynol yn cydnabod ac yn cefnogi'r profiadau amrywiol sydd ymysg pobl LHDTG+.

Nodau Cyffredinol a Chamau Gweithredu Arfaethedig

Unwaith eto, roedd llawer o'r ymatebwyr yn croesawu nodau a bwriad cyffredinol y Cynllun Gweithredu, gan gynnwys sefydliadau ar draws y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Teimlodd rhai ymatebwyr y gallai'r Cynllun Gweithredu gael ei gryfhau drwy ddarparu cysylltiadau mwy eglur rhwng nodau, themâu a chamau gweithredu. Roedd eraill wedyn yn teimlo y byddai cynnwys ymrwymïadau cadarnach, gan gynnwys pwy fyddai'n gyfrifol am gamau gweithredu penodol ac amserlenni, yn werthfawr i sicrhau bod newid ystyrlon yn deillio o'r Cynllun Gweithredu.

Mae'r blaenoriaethau penodol i'r ymatebwyr yn dibynnu ar eu safbwyntiau a'u profiadau eu hunain. Canolbwyntiodd rhai ymatebwyr ar yr angen i ddiogelu hawliau sylfaenol ac atal gwahaniaethu drwy addysg a hyfforddiant. Cyfeiriodd llawer o ymatebwyr at newidiadau yn y gymdeithas sydd wedi golygu bod mwy o frys i'r angen i fynd i'r afael â throseddau casineb ac iechyd meddwl gwael, ynghyd â dull 'cwrs bywyd cyfan' sy'n cydnabod effeithiau anghymesur pandemig COVID-19 ar y rhai hynaf a'r rhai ieuengaf yn y gymdeithas.

Heriau Allweddol ac Adnoddau

Teimlodd llawer o ymatebwyr mai rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith fyddai un o'r heriau allweddol er mwyn sicrhau ei lwyddiant. Roedd hyn yn cynnwys pwysigrwydd bod unigolion a sefydliadau'n ymwneud â'r Cynllun gweithredu mewn ffordd ystyrlon, yn ogystal â heriau ymarferol ehangach a allai fod yn rhwystr i newid ystyrlon. Wrth ymateb i'r heriau hyn a heriau eraill, unwaith eto, cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at bwysigrwydd cael rhagor o fanylion ar sut byddai modd cyflawni pwyntiau gweithredu penodol yn ymarferol, a'r canlyniadau a'r dangosyddion y byddai modd eu defnyddio i fonitro cynnydd. At hynny, roedd dynodi pwy sy'n gyfrifol am gyflawni pwyntiau penodol a chynnwys amserlenni ar gyfer eu cyflawni hefyd yn cael ei ystyried yn bwysig.

Roedd cyllid yn cael ei ystyried yn allweddol i gyflawni uchelgais y Cynllun Gweithredu, ynghyd ag adnoddau a chymorth ehangach. Er mwyn i'r cyllid fod yn effeithiol, teimlodd llawer y dylai gael ei glustnodi gan gynnwys cynorthwyo i roi pwyntiau gweithredu penodol ar waith. Y farn hefyd oedd bod casglu, dadansoddi a defnyddio data yn hanfodol i'r sail dystiolaeth er mwyn

bod o gymorth i ymyriadau polisi amserol o ansawdd, a bod darparu canllawiau cyson i gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion, yn hanfodol i'w roi ar waith yn ymarferol.

Croestoriadedd

Nododd yr ymatebwyr mai peth cadarnhaol oedd y ffocws ar groestoriadedd yn y Cynllun Gweithredu, er bod llawer yn teimlo nad oedd wedi'i integreiddio'n ddigonol yn y pwyntiau eu hunain. Byddai cydlynu â Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol eraill yn cael ei groesawu, ynghyd â rôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Gellid mynd i'r afael yn fwy penodol â phryderon penodol ynghylch hil a heddlua, rhyw a rhywedd, ac iechyd, oedran ac anabled.

Yn ogystal ag ystyriaethau ynghylch nodweddion gwarchoddedig, gallai croestoriadedd y cynllun gael ei wella drwy gydnabod ffactorau economaidd-gymdeithasol, yn ogystal â chyfuno anfantais gan gynnwys profiadau o fwlio yn yr ysgol, gwahaniaethu o ran cyflogaeth neu dai, ac anghydraddoldeb iechyd, sy'n debygol o ymwreiddio anfantais economaidd-gymdeithasol. Codwyd pryderon hefyd ynghylch anghydraddoldeb digidol a'r bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir yn ardaloedd gwledig Cymru.

Y Gymraeg

Cafwyd awgrymiadau y gellid integreiddio'r Gymraeg yn well drwy'r Cynllun Gweithredu. Cynigiwyd y gellid rhannu'r adran ar Gartrefi a Chymunedau nid yn unig i ddadgyfuno rhai o'r pwyntiau gweithredu o dan y thema hon ond hefyd i ganoli'r Gymraeg fel rhan o themâu 'diwylliant' neu debyg. Ni ddylid cyfuno'r materion sy'n ymwneud â bylchau rhanbarthol yn y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus (LHDTG+-gynhwysol) a bylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg; dylai fod gan y pryderon hyn eu pwyntiau gweithredu eu hunain.

Y Term LHDTG+

Mae llawer o grwpiau'n croesawu'r defnydd o'r term 'LHDTG+' ac yn teimlo ei fod yn ddigon cynhwysol, gyda'r '+' yn caniatáu ar gyfer terminoleg sy'n newid a datblygu. Yn yr ystyr hwn, teimlai rhai nad oedd yn briodol dewis acronym 'diffiniol' ac y dylid adolygu'r acronym ac ymgynghori arno yn gyson, fel yn achos polisi, wrth i gymdeithas ddatblygu.

Roedd llawer yn pryderu ynghylch eithrio hunaniaethau rhyngrywiol ac anrhywiol o'r acronym ac o'r Cynllun Gweithredu yn fwy cyffredinol. Roedd gwahaniaeth barn ynghylch cynnwys y term 'cwiar'; roedd rhai ymatebwyr yn hynod anghyfforddus ynglŷn â'r defnydd o'r term, tra bod eraill yn uniaethu'n gadarnhaol â'i ddefnydd fel term ymbarél.

1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad annibynnol o'r ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ drafft. Mae'n cyflwyno'r farn a'r safbwyntiau a gynigiwyd gan yr ymatebwyr.

1.1 Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn datblygu Cynllun Gweithredu LHDTTC+ trawslywodraethol i Gymru. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â chynrychiolwyr o bob rhan o'r gymuned LHDTTC+ a bydd yn helpu i gydlynu camau gweithredu rhwng Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid, y cyhoedd, ac asiantaethau eraill. Nod y Cynllun Gweithredu yw cyflawni'r uchelgais o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau strwythurol hirdymor y mae cymunedau LHDTTC+ yn eu hwynebu ledled Cymru. Mae'n nodi'r camau pendant y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella bywydau pobl LHDTTC+, herio gwahaniaethu, a chreu cymdeithas lle mae pobl LHDTTC+ yn ddiogel i fyw a charu'n ddilys, yn agored ac yn rhydd fel nhw eu hunain.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi cyfres gyffredinol o gamau gweithredu y gellir eu defnyddio i wella'r gydnabyddiaeth i bobl LHDTTC+, ac mae hefyd yn cynnwys ystod eang o gamau gweithredu polisi-benodol sy'n ymwneud ag addysg, gwella diogelwch, tai, iechyd a gofal cymdeithasol, a hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Ategir y Cynllun Gweithredu gan y dull seiliedig ar hawliau a nodir gan Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Hawliau Dynol ac Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd.

I gael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Gweithredu, ewch i wefan Llywodraeth Cymru drwy glicio yma [fan yma](#).

I gefnogi datblygiad y Cynllun Gweithredu, gofynnodd Llywodraeth Cymru am farn unigolion a sefydliadau ledled Cymru. Er mwyn deall barn a safbwyntiau'r ymatebwyr, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Gweithredu ym mis Gorffennaf 2021. Hefyd, comisiynwyd Wavehill, sefydliad ymchwil annibynnol, gan Lywodraeth Cymru i baratoi dadansoddiad troswaol o'r materion a'r themâu a godwyd ar draws yr ymatebion.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r dadansoddiad. Bydd y themâu a'r materion a godwyd yn cael eu hystyried wrth fireinio'r Cynllun Gweithredu. Bwriad y dadansoddiad yw ysgogi trafodaeth a syniadau ar sut y gallai'r Cynllun Gweithredu ymateb i leisiau, blaenoriaethau a phrofiadau byw cymunedau LHDTTC+ a rhanddeiliaid ehangach ledled Cymru.

1.2 Ymatebion

Mae'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cynrychioli ystod eang o unigolion a rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y Cynllun Gweithredu. Daeth cyfanswm o 1,328 o ymatebion i law yn ystod yr

ymgynghoriad. Gyda'i gilydd, derbyniodd yr ymgynghoriad 1,177 o ymatebion gan unigolion sydd â diddordeb yn y Cynllun Gweithredu, gan gynnwys aelodau'r cyhoedd. Cafwyd 151 o ymatebion technegol hefyd gan sefydliadau, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn ogystal â'r trydydd sector:

Tabl 1: Math o Sefydliadau

Sefydliadau'r trydydd sector	43
Grwpiau LHDTC+	18
Llywodraeth leol	18
Grwpiau crefyddol	14
Byrddau Iechyd Prifysgol neu grwpiau'n gysylltiedig â'r GIG	12
Cymdeithasau proffesiynol	12
Grwpiau menywod	8
Ymatebwyr gwleidyddol	8
Arall	6
Sefydliadau llywodraethol	7
Undebau	5

Er bod y wybodaeth hon yn rhoi syniad i ni o bwy a ymatebodd i'r ymgynghoriad, mae'n bosibl bod rhanddeiliaid ar goll o'r rhestr hon oherwydd gwybodaeth goll neu anghyflawn a gyflwynwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd ar-lein a thrwy e-bost. I weld rhestr lawn o'r sefydliadau a gyfrannodd at yr ymgynghoriad, gweler Atodiad 2.

1.3 Ymatebion Ymgyrchu

Roedd tystiolaeth o ymatebion ymgyrchu yn ymateb i faterion penodol yn y Cynllun Gweithredu. Mae gwaith dadansoddi'n awgrymu bod o leiaf 10 y cant o'r holl ymatebion yn rhannu tebygrwydd â chyflwyniadau eraill. Gan ddefnyddio dadansoddiad sensitifrwydd, yn yr ymatebion hyn, roedd mwy nag 80 y cant o'u cynnwys yn union yr un fath â chynnwys cyflwyniadau eraill.

Gan archwilio yr ymatebion a oedd wedi'u cydlynu ymhellach, roedd yno ddwy ymgyrch sylweddol. Roedd un yn canolbwyntio ar therapi trosi ac yn argymhell diffiniad mwy penodol yn y Cynllun Gweithredu. Roedd yr ymatebion hyn yn teimlo y byddai diffiniad cliriach yn

werthfawr i sicrhau bod y gyfraith yn cael ei chymhwyso mewn ffordd gytbwys. Roedd ymgyrch arall yn canolbwyntio ar bryderon rhywedd-feirniadol a'r gred y dylid mynd i'r afael â materion yn ymwneud â rhyw, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd ar wahân.

1.4 Dull Dadansoddi

Cynhyrchodd yr ymatebion amrywiaeth o wybodaeth ansoddol. Roedd yr holiadur ar-lein yn cynnwys 10 cwestiwn, a oedd yn gofyn i'r ymatebwyr am eu barn, gan gynnwys ar effaith bosibl cynigion penodol. Er bod llawer o'r ymatebion yn ymwneud yn benodol â'r cwestiynau, cyflwynodd ymatebwyr eraill eu hymatebion drwy e-bost, gan grynhoi eu barn gyffredinol ar y cynigion. Mae'r cwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad i'w gweld yn [Atodiad 1](#).

Er mwyn dadansoddi'r safbwyntiau a fynegwyd gan yr ymatebwyr, cynhaliodd Wavehill ddadansoddiad thematig manwl, gan archwilio pob ymateb yn systematig ac amlygu'r themâu a'r materion a godwyd. Yna cafodd ymatebion i bob un o'r cwestiynau eu codio yn unol â'r themâu hyn. Mapiwyd y rhain wedyn ar saith thema'r Cynllun Gweithredu: Hawliau Dynol a Chydnabyddiaeth; Sicrhau Diogelwch Pobl LHDTTC+; Cartrefi a Chymunedau; Gwella Canlyniadau Iechyd; Addysg; Gweithle; ac Ymateb COVID-19. Drwy'r broses gofio, crynhowyd themâu ar draws cwestiynau i sicrhau dealltwriaeth gyfannol o faterion yn ymwneud â themâu lluosog, yn ogystal â themâu ehangach o amgylch y Cynllun Gweithredu fel dogfen bolisi.

1.5 Cyfyngiadau

Mae nifer o gyfyngiadau i'r dadansoddiad hwn sy'n bwysig i'w nodi. Nid yw'r ymatebwyr a gyfrannodd eu barn a'u safbwyntiau o reidrwydd yn gynrychioliadol o'r cyhoedd ehangach yng Nghymru; mae'n debygol bod llawer o'r ymatebwyr yn seiliedig y tu allan i Gymru. Mae yna debygolrwydd cryf o duedd hunanddewis, lle mae'r rhai sydd â diddordeb penodol yn y Cynllun Gweithredu yn fwy tebygol o gymryd rhan yn yr ymgynghoriad na'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae hyn yn cynyddu'r posibilrwydd bod gan y rhai a ymatebodd farn a safbwyntiau gwahanol i'r rhai a geir ymhlith y boblogaeth gyffredinol, gan gynnwys pobl a chymunedau ledled Cymru yn ehangach.

Roedd lefel a dyfnder ymatebion yr ymatebwyr i wahanol bwyntiau gweithredu yn y cynigion yn amrywio. Gall hyn fod yn rhannol oherwydd natur eang y cynigion, a'r ffaith bod ymatebwyr yn rhoi graddau amrywiol o bwysigrwydd ar wahanol agweddau ar y Cynllun Gweithredu. Ni wnaeth llawer o ymatebwyr ateb pob cwestiwn, ac nid oedd bob amser yn bosibl pennu eu safbwynt llawn yn gywir o'r wybodaeth a ddarparwyd. Nid yw absenoldeb data mewn ymateb yn awgrymu nad oes gan ymatebwr farn ar agweddau penodol ar y cynigion. Yn ogystal, nid oedd yr ymatebion a oedd yn trafod y safbwynt cyffredinol ar y Cynllun Gweithredu (yn hytrach nag ymateb i'r cwestiynau) bob amser yn nodi'r pwyntiau gweithredu a oedd yn sail i'w barn.

Mae'r ffactorau hyn yn cyflwyno heriau wrth ddadansoddi a chyfleu cydbwysedd barn. Oherwydd bod niferoedd mawr o ymatebwyr heb ateb pob cwestiwn, rhaid felly ystyried dehongliad o'r cydbwysedd barn yng nghyd-destun y cwestiynau a ofynnir. Felly, byddai cyflwyno crynodebau meintiol o'r themâu a'r materion a godwyd gan ymatebwyr yn debygol

o gamliwio'r cydbwysedd barn, ymhlith y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn ogystal ag ymhlith safbwyntiau a chanfyddiadau rhanddeiliaid ehangach ledled Cymru.

Rydym felly wedi ceisio cyfleu'r cydbwysedd barn yn ansoddol. Dim ond pan fydd patrymau clir yn dod i'r amlwg yr ydym wedi nodi mynychder, fel lle mae themâu neu deimladau'n cael eu harddel yn eang ymhlith ymatebwyr, neu os mai ychydig yn unig sy'n eu harddel. Yn hyn o beth, dim ond arwydd o farn ar sail y rhai a ymatebodd yw'r termau ansoddol. Felly, ni ddylid rhagdybio bod datganiadau ynghylch mynychder yn cysylltu'n rhifiadol â chyfanswm y bobl a'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad, nac â'r boblogaeth ehangach.

O ystyried y cyfyngiadau hyn, y nod fu cyfathrebu dealltwriaeth o'r ystod o themâu a materion allweddol a godwyd gan ymatebwyr yn effeithiol ac yn gywir, yn ogystal â'r rhesymau dros arddel safbwyntiau penodol. Mae gwybodaeth o'r fath yn cynnwys meysydd posibl o gytuno ac anghytuno rhwng y gwahanol grwpiau o ymatebwyr.

Gyda'i gilydd, felly, dylid ystyried bod y dadansoddiad hwn yn rhoi syniad o rai o'r safbwyntiau a'r farn sydd gan bobl a chymunedau mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu, yn hytrach na'i fod yn gofnod diffiniol o bobl a chymunedau ledled Cymru.

2 Cydraddoldeb

Ar draws y Cynllun Gweithredu, un o egwyddorion allweddol y cynigion oedd pwysigrwydd cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb i bobl LHDTTC+ ledled Cymru. Yn gyntaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ar y Cynllun Gweithredu ac a fyddai'n gwella cydraddoldeb ymhlith cymunedau LHDTTC+.¹

2.1 Uchelgais

Roedd cefnogaeth i'r ymagwedd uchelgeisiol a fabwysiadwyd yn y Cynllun Gweithredu. O'r safbwyntiau hyn, roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol ynghylch amcanion cyffredinol a chwmpas y Cynllun Gweithredu. Roedd llawer o'r ymatebion gan sefydliadau, er enghraifft, yn canmol gweledigaeth y Cynllun Gweithredu, yn enwedig y ffocws ar hawliau ac amddiffyn yn ogystal ag ar gyfranogiad gweithredol a chynhwysiant mewn bywyd cyhoeddus.

Roedd ymatebion gan unigolion yn awgrymu bod y Cynllun Gweithredu yn bwysig yn symbolaidd o ran dangos dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o anghydraddoldebau strwythurol ymhlith cymunedau LHDTTC+ a'i hymrwymiad i fynd i'r afael â hwy. Barn gyffredin oedd bod y Cynllun Gweithredu yn gam pwysig o ran nodi'r anghydraddoldebau a'r gwahaniaethu y mae cymunedau LHDTTC+ yn eu hwynebu, a oedd, yn eu barn hwy, yn gam hanfodol i fynd i'r afael â hwy:

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddweud fy mod yn hynod ddiolchgar bod Llywodraeth Cymru, mewn ffordd agored a chynnes, yn cynnig helpu ein cymuned, mewn cyferbyniad llwyr â San Steffan. Daw fel rhyddhad mawr i ni i gyd ar adeg pan fo cymaint ohonom yn gweld cynnydd hynod bryderus mewn gelyniaeth, sylw gwenwynig yn y cyfryngau, a thirwedd wleidyddol ddifäol.

Ymateb unigol

Diolch yn fawr iawn i Lywodraeth Cymru am barhau gyda'r gwaith hynod o bwysig yma, yn enwedig mewn cyfnod lle mae'r naratif a symudiad gwrth-LHDTTC+ ar gynnydd yma yng Nghymru.

Ymateb Unigol

Ategodd llawer o sefydliadau iechyd yn arbennig y weledigaeth strategol a amlinellwyd gan y Cynllun Gweithredu, gan ddweud bod hyn yn adlewyrchu'r ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a ddefnyddir mewn lleoliadau gofal iechyd. Cydnabuwyd bod natur gynhwysfawr y Cynllun Gweithredu yn ganolog i'w lwyddiant, ac roedd yr uchelgais i gyflawni ar draws Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu natur groestoriadol a strwythurol y materion y mae cymunedau LHDTTC+ yn eu hwynebu:

¹ A ydych chi'n meddwl y bydd y Cynllun Gweithredu yn gwella cydraddoldeb i bobl LHDTTC+ a beth ddylai'r blaenoriaethau fod yn eich barn chi?

Rydym yn cefnogi'n gryf y weledigaeth strategol a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu, sef bod "gan bawb yr hawl i fod yn ddiogel, i fod yn nhw eu hunain ac i fyw bywydau heb wahaniaethu". Credwn y gall system iechyd a gofal cymdeithasol wybodus, dosturiol a chynhwysol helpu pobl i gyflawni'r uchelgais hwn, o safbwynt y rhai sy'n gweithio yn y sector ac [o safbwynt] aelodau'r cyhoedd sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Rydym yn croesawu uchelgais y Cynllun [Gweithredu] ac ymdrechion i sicrhau ei fod yn cwmpasu pob rhan o fywyd yng Nghymru.

Barnardo's Cymru

2.2 Ymwybyddiaeth o Gymunedau LHDTTC+ a'u Proffil

Codi Proffil Cymunedau LHDTTC+ wrth Lunio Polisi

Ymatebodd llawer yn gadarnhaol i fodolaeth y Cynllun Gweithredu a'i rôl yn codi ymwybyddiaeth a phroffil cymunedau LHDTTC+, gan gynnwys wrth ffurfio polisi cyhoeddus. O'r safbwyntiau hyn, roedd yn hanfodol bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i brofiadau unigryw cymunedau LHDTTC+ a'r gwahaniaethu sy'n eu hwynebu. Teimlodd yr ymatebwyr hyn fod y Cynllun Gweithredu yn fodd i godi proffil cymunedau LHDTTC+ ac y byddai hyn yn bwysig i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau yr oeddent yn eu hwynebu:

Mae'r weledigaeth, y diben a'r gwerthoedd yn amlwg iawn. Mae'n Gynllun Gweithredu uchelgeisiol sy'n edrych yn wych ar bapur, a byddem wrth ein bodd yn gweld y dyfodol hwn yng Nghymru oherwydd dim ond drwy ei gyflawni y gallwn wella bywydau pobl sy'n byw gydag effeithiau difaol anghydraddoldeb ar lefel unigol a strwythurol.

Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain

Cydnabyddiaeth Fwy Penodol i Grwpiau yn y Cynllun Gweithredu

Ar y llaw arall, teimlai ymatebwyr eraill y gallai'r Cynllun Gweithredu gyfeirio'n fwy penodol at grwpiau penodol mewn cymunedau LHDTTC+ ac ar draws y cymunedau hyn. O'r safbwyntiau hyn, teimlwyd y gellid gwneud mwy i leoli'r Cynllun Gweithredu yn y cyd-destun polisi a deddfwriaethol ehangach, yn ogystal â mynd ati i roi mwy o amlygrwydd i grwpiau penodol mewn cymunedau LHDTTC+ mewn ystyr croestoriadol. Wrth wneud hynny, byddai'r Cynllun Gweithredu yn cael ei groesawu gan y rhai sy'n ceisio mwy o gydnabyddiaeth i grwpiau penodol wrth ddatblygu ymatebion polisi. Roedd y Cynllun Gweithredu, o'r safbwyntiau hyn, yn gyfle i gydnabod hunaniaethau unigol ar draws cymunedau LHDTTC+, ochr yn ochr â chydabod yr anghenion sy'n gorgyffwrdd rhyngddynt.

Er enghraifft, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i welededd ddeurywiol yn y Cynllun Gweithredu. O'r safbwyntiau hyn, roedd canfyddiad bod y Cynllun Gweithredu yn ymhelaethu ar y gwahaniaethu a'r 'deu-ddileu' a oedd yn bodoli eisoes.² Er bod unigolion a grwpiau a fynegodd y pryderon hyn yn gadarnhaol ynghylch ffocws a blaenoriaethau cyffredinol y Cynllun Gweithredu, roeddent yn teimlo y byddai'n fuddiol cael pwynt gweithredu penodol yn ymwneud â gwelededd deurywioldeb:

Rydym yn siomedig iawn ac yn bryderus nad yw pobl a chymunedau deu+, y deuffobia sy'n ein hwynebu, a'n problemau a'n profiadau penodol yn cael eu cydnabod nac wedi'u cynnwys o gwbl yn y Cynllun [Gweithredu]. Fel pobl ddeu+, rydym yn aml yn cael ein hanwybyddu, ein gwneud yn anweledig, ein dileu a'n cau allan hyd yn oed o fewn cymunedau LHDTTCRhA+.

Bi Cymru

Roedd ymatebwyr eraill yn pryderu nad oedd materion sy'n wynebu cymunedau rhyngrywiol ac anrhywiol yn cael eu hamlygu nac yn cael sylw yn y Cynllun Gweithredu:

Roeddem o'r farn ei fod yn dweud llawer nad oedd "Rh" wedi'i gynnwys yn yr acronym, gan fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith nad oedd cyfeiriad at bobl rhyngrywiol yn unrhyw le yn y Cynllun [Gweithredu]. Nid oes dealltwriaeth eang o'r term ei hun na'r amrywiadau mewn bioleg ddynol sydd gyda'i gilydd yn dod o dan ymbarél "rhyngrywiol", felly byddai'n dda gweld mwy o ffocws ar ragor o ymchwil ac addysg ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Nid oes unrhyw gydnabyddiaeth o'r profiadau a'r anfanteision y mae pobl rhyngrywiol ac anrhywiol yn eu hwynebu, ac nid ydynt wedi'u cynnwys. Teimlwn fod y cymunedau hyn heb eu cynnwys yn y Cynllun [Gweithredu] hwn, ynghyd â'r ffaith nad yw'r profiadau a'r anfanteision penodol y mae pobl ddeu+ yn eu hwynebu yn cael sylw penodol yn y Cynllun [Gweithredu].

Diverse Cymru

Yn yr un modd, teimlai eraill y gallai rhwystrau, stigma a gwahaniaethu penodol yn achos rhai sydd ag anableddau dysgu, gael eu crybwyll yn fwy penodol ac y gellid mynd i'r afael â hwy yn fwy penodol yn y Cynllun Gweithredu:

Mae'r sector anabledd dysgu yn wynebu heriau wrth gefnogi perthnasoedd heteronormadol, heb sôn am berthnasoedd LHDTTC+. Daw'r heriau hyn yn sgil diffyg cefnogaeth i staff a rhieni/gofalwyr, y farn gyffredinol na fydd pobl ag anabledd dysgu byth yn symud y tu hwnt i berthynas lasoed a diffyg pŵer ac asiantaeth i wneud

² Deu-ddileu neu ddileu deurywiol (*bisexual erasure*) yw'r duedd i anwybyddu neu wrthod deurywioldeb neu gwestiynu ei fodolaeth neu'i ddilysrwydd fel rhywioldeb.

penderfyniadau'n ymwneud â pherthnasoedd ac agosatrwyydd. Bydd person ag anabledd dysgu yn wynebu'r rhwystrau hyn, yn ogystal â'r stigma, y canfyddiadau negyddol, a'r gwahaniaethu y maent yn eu hwynebu o fod yn LHDTTC+.

Rhwydwaith Supported Loving Cymru

Teimlai rhai ymatebwyr sy'n arddel hunaniaeth hoyw neu lesbiaidd nad oedd ganddynt ddigon o welededd ar draws y Cynllun Gweithredu. Gan fod rhai grwpiau wedi mynegi nad oeddent yn teimlo'n weladwy drwy gydol y Cynllun Gweithredu, gallai amlygu gwahanol fuddiannau ac anghenion yn glir yn y Cynllun Gweithredu fynd i'r afael â'r pryderon hyn a gwella cydnabyddiaeth ar draws yr holl bobl LHDTTC+:

Mae cwmpas y Cynllun Gweithredu hefyd i'w weld yn amrywio'n fawr: mae rhai o'r camau gweithredu arfaethedig yn eang iawn ac yn brin o ganlyniadau mesuradwy clir, tra bod eraill yn ymddangos yn benodol iawn ac efallai'n effeithio ar fywydau lleiafrif bach o bobl LHDT yn unig. Bydd angen cytuno ar flaenoriaethau, gyda mewnbwn gan randdeiliaid a thystiolaeth berthnasol, i nodi'r anghydraddoldebau mwyaf arwyddocaol er mwyn blaenoriaethu camau gweithredu a chanolbwyntio adnoddau.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Codi Proffil Cymunedau LHDTTC+ Iedled Cymru

Amlygodd rhai ymatebion y cyfle i ddefnyddio'r Cynllun Gweithredu i hysbysu'r cyhoedd ehangach yng Nghymru am faterion strwythurol sy'n wynebu cymunedau LHDTTC+. O'r safbwyntiau hyn, cydnabwyd na ddylai'r Cynllun Gweithredu fod yn fanifesto ar gyfer dwyn perswâd ar y cyhoedd ehangach ynghylch nodau'r Cynllun Gweithredu. Fodd bynnag, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith y gallai'r Cynllun Gweithredu amlygu lle mae anghydraddoldebau strwythurol wedi'u diogelu gan ddeddfwriaeth bresennol a lle mae'r Cynllun Gweithredu yn ceisio ategu hyn:

Mae pynciau sy'n effeithio ar unigolion LHDTTC+ yn eang eu cwmpas, yn gymhleth ac yn sensitif eu natur, a theimlai'r aelodau, drwy beidio â darparu gwybodaeth glir amdanynt yn yr ymgynghoriad, bod cyfle wedi'i golli i helpu'r cyhoedd i fod yn fwy gwybodus cyn cwblhau'r ymgynghoriad ei hun.

Cyngor Tref Penarth

Rhaid, hefyd, wyllo rhag creu hierarchaeth o nodweddion gwarchoddedig. Bwriad Deddf Cydraddoldeb 2010 oedd cael gwared ar hierarchaeth ac mae peryg fod dod â gwahanol gynlluniau allan ar wahanol adegau a gyda gwahanol drefniadau mewn peryg o ddod a hynny'n ôl. Rhaid gwarchod fod pwyntiau fel rhif 20 (diwrnodau ymwybyddiaeth) ddim yn dod ar draul hybu nodweddion eraill.

Cyngor Gwynedd

2.3 Eglurder, Strwythur a Diffiniadau

Ar draws yr ymatebion, roedd yno themâu ac awgrymiadau cyffredinol o ran gwella cywirdeb a manylion penodol yn y Cynllun Gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys awgrymiadau ynghylch lle byddai mwy o eglurder ynghylch cwmpas a champau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu yn werthfawr. Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, nodi pa rannau o'r llywodraeth fyddai'n gyfrifol am bob cam gweithredu. O'r safbwyntiau hyn, amlygodd ymatebwyr fod rhai camau gweithredu yn cynnwys y bwriad i 'ystyried', 'archwilio', 'ceisio' neu 'weithio gyda'. Gofynnodd nifer sylweddol o ymatebwyr am fwy o eglurder ynghylch sut y byddai hyn yn gwella profiadau pobl LHDTG+ yn ymarferol, gan ei fod eisoes yng nghylch gorchwyl Llywodraeth Cymru i 'weithio gyda' Llywodraeth y DU ar rai o'r materion hyn.

Yn strwythurol, roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod y Cynllun Gweithredu'n anodd ei ddarllen yn ei gyfanrwydd. Roedd llawer hefyd o'r farn bod dryswch rhwng 'Nodau Cyffredinol' a 'Champau Gweithredu Penodol', a oedd hefyd wedi'u dadgyfuno wedyn fesul thema. Roedd rhai yn gweld paragraffau esboniadol o dan bob un o'r themâu hyn, er eu bod yn cael eu hystyried yn ddefnyddiol wrth egluro rhywfaint o'r rhesymeg y tu ôl i'r themâu, yn anghyson, weithiau'n ailadrodd y camau gweithredu eu hunain ac weithiau'n cynnwys manylion pwysig nad oedd wedyn wedi'u cynnwys yn y pwyntiau gweithredu oddi tanynt.

Awgrymwyd y byddai diffiniadau cynhwysfawr yn ddefnyddiol i alluogi cefnogaeth ehangach i'r cynllun, gan gydnabod mai un elfen o'r anghydraddoldebau strwythurol sy'n wynebu pobl LHDTG+ yw diffyg dealltwriaeth o'u bywydau a'u profiadau. Gyda hyn daw ymwybyddiaeth o'r materion penodol, ond rhyng-gysylltiedig, y gall pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol neu gwiar eu hwynebu mewn bywyd bob dydd, ac eglurder ar yr angen am Gynllun Gweithredu pwrpasol i'w cefnogi i fyw'n ddilys a ffynnu mewn cymdeithas. Mynegwyd bod fersiwn y bobl ifanc o'r Cynllun Gweithredu wedi'i gyflwyno'n dda yn hyn o beth, ac y gallai'r Cynllun Gweithredu terfynol gynnwys y nodwedd hon. Mae angen cysondeb termau er mwyn sicrhau eglurder, gan fod llawer wedi amlygu bod yna ddiffiniadau gwahanol a all newid barn yn dibynnu ar y diffiniad a gyflwynir ar y pryd.

Roedd rhai ymatebwyr yn petruso ynglŷn â themau fel 'heteronormadol' a 'cisnormadol' yn y Cynllun Gweithredu. O'r safbwyntiau hyn, gellid cryfhau'r Cynllun Gweithredu trwy gynnwys diffiniadau o'r termau hyn. Byddai hyn yn werthfawr er mwyn sicrhau eglurder a dealltwriaeth gyffredin o ran y materion a archwiliwyd yn y Cynllun Gweithredu, yn ogystal ag unrhyw gamau gweithredu dilynol:

Nid oes diffiniadau i'r iaith y mae'n ei defnyddio, sy'n gwneud i mi feddwl tybed sut y gellir casglu unrhyw ddata, fel sy'n cael ei argymhell, os yw pawb yn llunio eu hystyron eu hunain wrth fynd ymlaen.

Ymateb unigol

2.4 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar ddull a chanfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Gweithredu. Roedd hyn yn

cynnwys ymatebion a oedd yn croesawu cynnwys asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb wrth ystyried a datblygu cynlluniau gweithredu. O'r safbwyntiau hyn, roedd ystyriaeth lawn o'r ystod o effeithiau a chanlyniadau yn bwysig er mwyn sicrhau bod camau gweithredu dilynol yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r materion sy'n wynebu unigolion a chymunedau:

Cyhoeddwyd hefyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, sy'n gynhwysfawr ac o ansawdd uchel ochr yn ochr â'r dogfennau ymgynghori. Mae hon yn agwedd ar ymgymryd â dyletswyddau Llywodraeth Cymru o dan fesur 2011 ac mae'n rhoi tryloywder i'r ffordd y mae hawliau plant a phobl ifanc a'r rheini â nodweddion gwarchoddedig (gan gynnwys plant) wedi'u hystyried wrth ddylunio'r Cynllun [Gweithredu] hwn. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd creu'r dogfennau hyn ar yr un pryd wedi galluogi'r Cynllun [Gweithredu] hwn i gael ei lywio'n fwy cynhwysfawr gan hawliau dynol plant. Fel yr amlygais yn flaenorol, rhaid i Lywodraeth [Cymru] geisio gweithredu arfer o'r math hwn gyda phob ymgynghoriad cyhoeddus.

Comisiynydd Plant Cymru

Rydym yn croesawu cyhoeddiad y Cynllun Gweithredu hwn yn fawr ac yn cydnabod bod hwn yn gam sylweddol a chadarnhaol ymlaen tuag at Gymru'n dod yn wlad fwy cynhwysol, diogel a chyfartal. Mae cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, sy'n asesiad manwl, ochr yn ochr â'r Cynllun [Gweithredu] i'w groesawu'n arbennig.

Plant yng Nghymru

Amlygodd rhai ymatebwyr eu bod yn teimlo nad oedd yr asesiadau effaith yn mynd yn ddigon pell. Amlygodd sawl ymateb ymgyrchu, er enghraifft, eu bod yn teimlo nad oedd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhoi digon o ystyriaeth i oblygiadau'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd (2004) i'r hawliau ar sail rhyw sydd gan fenywod cisryweddol. Roedd pryderon y byddai hyrwyddo hawliau i bobl draws yn arwain at leihad mewn hawliau i eraill, gan gynnwys menywod. Mynegwyd hyn yn aml gan gyfeirio at ddadleuon cyhoeddus ehangach ynghylch pwysigrwydd sicrhau ac amddiffyn manau diogel i fenywod. Roedd pryderon hefyd ynghylch y canfyddiad o gyfuno rhyw a rhywedd yn y Cynllun Gweithredu. At hynny, nid yw nodi eich hunaniaeth eich hun o ran cydnabod ac ailbennu rhywedd wedi'i gynnwys yn benodol yn y Cynllun Gweithredu, ac roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai teimlad cyffredinol y Cynllun Gweithredu danseilio hawliau grwpiau penodol:

Gall fod gwrthwynebiad ymhlith rhai grwpiau i rai agweddau o fewn y Cynllun [Gweithredu] oherwydd pryderon diffuant am effaith y canfyddiad o ddewis hawliau rhai (er enghraifft, menywod traws) dros eraill (menywod cis).

Estyn

Ymysg cyrff cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector roedd anghytuno cryf â'r ddealltwriaeth nad oedd hyrwyddo hawliau menywod traws a hawliau menywod cis yn gydnaws. Teimlai llawer o sefydliadau fod y Cynllun Gweithredu yn sicrhau cydbwysedd cywir wrth geisio mynd i'r afael â'r stigma a'r gwahaniaethu hirsefydlog y mae pobl drawsryweddol yn eu hwynebu:

Rydym am bwysleisio, unwaith eto, nad yw cydraddoldeb menywod a chydraddoldeb pobl draws yn gwrth-ddweud nac yn cystadlu â'i gilydd. Rydym yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru yn deall hyn ac wedi cydnabod hyn yn y Cynllun Gweithredu.

Chwarae Teg

Teimlai nifer o ymatebwyr, gan gynnwys elusennau anabledd, fod rhai o'r pryderon ynghylch diogelu pobl sy'n byw ag awtistiaeth sy'n cyflwyno dysfforia rhywedd yn ddi-sail ac y gallent fod yn niweidiol. Roeddent yn teimlo nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y rhai sy'n byw ag anhwylderau niwroddatblygiadol yn fwy agored i berswâd i drawsnewid. Roedd pryderon bod y syniadau hyn yn cael eu defnyddio i hybu safbwyntiau rhywedd-feirniadol, gan gynnwys y rheini sydd â safbwyntiau homoffobig a thrawsffobig:

Mae hyn yn arbennig o bwysig, gan fod grwpiau trawsffobig a homoffobig wedi dadlau bod pobl awtistig yn benodol yn agored i ddylanwad ac yn cael eu hargyhoeddi eu bod yn drawsryweddol pan nad ydynt. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth o gwbl bod yr honiadau hyn yn ddilys. Ond rydym yn pryderu y gallai credoau fel y rhain effeithio ar y ffordd y mae pobl ag anableddau dysgu a phobl niwroamrywiol yn cael cymorth.

Anabledd Dysgu Cymru

Teimlai rhai ymatebwyr hefyd y byddai diffiniad cliriach o therapi trosi yn y Cynllun Gweithredu yn werthfawr. O'r safbwyntiau hyn, gellid dehongli therapi trosi yn y Cynllun Gweithredu i gynnwys ystod amrywiol o weithgareddau, gan gynnwys triniaethau sy'n ceisio newid cyfeiriadedd rhywiol person, yn ogystal â hybu credoau megis pwysigrwydd priodas. Teimlai rhai ymatebwyr fod risg y gallai unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol nad oedd yn benodol amharu ar ryddid mynegiant crefyddol, gan gynnwys hyrwyddo priodas. Byddai darparu diffiniad gweithredol o therapi trosi a manylion ac eglurder ynghylch camau deddfwriaethol arfaethedig yn hyn o beth yn ddefnyddiol i fynd i'r afael â'r pryderon hyn:

Heb ddiffiniad clir o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ystyried yn 'therapi trosi' at ddibenion deddfwriaeth, bydd yn hynod o anodd llunio cyfraith glir, effeithiol a chytbwys. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i weithio'n agos ag arbenigwyr ym maes seicoleg a seicotherapi, yn ogystal ag arbenigwyr cyfreithiol mewn meysydd perthnasol, i ddatblygu diffiniad o'r fath.

Y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol

Er ei bod yn iawn na ddylid byth orfodi (boed yn feddyliol, yn gorfforol neu'n emosiynol) i newid rhywun o ffordd benodol o fyw, ni all fod yn iawn i unigolion gael eu cosbi'n gyfreithiol am ddysgu egwyddorion a daliadau eu ffydd hwy i'w teuluoedd ac aelodau, y maent wedi dod i gredu ynddynt naill ai trwy draddodiad neu dröedigaeth.

Cyngor Rhyng-ffydd Cymru

2.5 Deddfwriaeth Cydraddoldeb

Mynegodd rhai ymatebwyr farn ar bwysigrwydd sicrhau bod y Cynllun Gweithredu'n cydweddu â deddfwriaeth gyfredol ar gydraddoldeb. Teimlai rhai, er enghraifft, y dylid cynnwys cyfeiriad penodol at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn y Cynllun Gweithredu. O'r safbwyntiau hyn, dylai'r Cynllun Gweithredu nodi'n glir sut y caiff ei gefnogi gan ddeddfwriaeth. Byddai hyn yn helpu i sicrhau cydlynid yn ogystal â chamau gweithredu dilynol effeithiol:

Mae angen sicrhau bod y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ yn cydweddu â deddfwriaeth a fframweithiau polisi presennol, gan gynnwys Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru ac amcanion cydraddoldeb. Wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+, dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio [deddfwriaeth] i ysgogi gwelliannau, gan nodi sut y bydd cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu dwyn i gyfrif am gyflawni yn eu herbyn, a chydweddu sut y bydd gofynion yn cael eu bodloni, lle y bo'n briodol.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010), yn benodol hawliau ar sail rhyw a rhyddid crefyddol a godwyd yn yr un modd ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Roedd llawer o'r ymatebion hefyd yn galw am ymrwymiad i hawliau pobl drawsryweddol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (ac yn fwy cyffredinol) ac yn annog na ddylai hawliau wrthdaro. Gofynnodd ymatebion sefydliadol i Lywodraeth Cymru ddarparu ymateb clir a chanllawiau ar sut i fynd i'r afael â'r pryderon hyn:

Mae angen i'r holl Gynlluniau Gweithredu gyd-fynd â'i gilydd, a chynnwys cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol — Cymru sy'n fwy cyfartal. Dylid cael dull gweithredu ar y cyd, a gallai cydweithio gynorthwyo hyn. Nid yw'n ymddangos bod yna gyfeiriad at Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn y Cynllun Gweithredu.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Mewn ychydig ymatebion, amlygwyd y potensial i Lywodraeth bresennol y DU ddiddymu neu ddiwygio Deddf Hawliau Dynol 1998. Roedd yr ymatebion hyn yn gofyn am ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ymgyrchu a phleidleisio yn erbyn unrhyw newidiadau posibl a allai effeithio ar hawliau sylfaenol pob unigolyn LHDTG+:

Rwy'n bryderus iawn am y sôn presennol yn San Steffan am ddiwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol. Rwy'n meddwl ei bod yn hynod bwysig bod unrhyw gamau posibl a allai beryglu hawliau unrhyw nodwedd lleiafrifol neu warchoddedig yn cael eu hymladd yn llawn egni, yn enwedig o ystyried nad oes gan y rhan fwyaf o'r cyhoedd yn gyffredinol ddiddordeb yn y pwnc, gan olygu bod lleiafrifoedd yn ofni'r canlyniadau.

Ymateb unigol

3 Nodau Cyffredinol

Mae nodau cyffredinol y Cynllun Gweithredu yn darparu llinyn strategol a chyffredin sy'n rhedeg drwy'r holl gynigion. Maent yn llywio natur a chyfeiriad y camau gweithredu penodol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu. Un o amcanion canolog y Cynllun Gweithredu yw cryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol i bobl LHDTG+. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth, polisi cyhoeddus, a gwasanaethau cyhoeddus yn ymgorffori ac yn amddiffyn pawb, gan gynnwys y rhai sy'n LHDTG+. Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn am eu barn ar y nodau sylweddol a amlinellwyd yn y Cynllun Gweithredu.³

3.1 Canfyddiadau Cyffredinol

Cyflwynodd yr ymatebwyr ystod amrywiol o sylwadau ac awgrymiadau'n ymwneud â'r nodau cyffredinol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys sylwadau'n ymwneud â nodau penodol, yn ogystal â sylwadau mwy cyffredinol am strwythur a chyfeiriad cyffredinol y Cynllun Gweithredu. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn croesawu teimlad cyffredinol y nodau, a oedd yn aml yn deillio o ddealltwriaeth o bwysigrwydd mynd i'r afael â materion y mae pobl LHDTG+ ledled Cymru yn eu hwynebu.

Roedd eraill wedyn yn cynnig cefnogaeth amodol, gan gydnabod pwysigrwydd a gwerth y nodau, tra'n cynnig barn a sylwadau ehangach. Teimlai rhai ymatebwyr, er enghraifft, y gellid cryfhau'r Cynllun Gweithredu mewn manau, gan gynnwys darparu cysylltiadau cliriach rhwng y nodau sy'n sail i'r Cynllun Gweithredu a themâu a chamau gweithredu penodol. Teimlai rhai fod yna orgyffwrdd rhwng rhai o'r nodau, y camau gweithredu a'r themâu yn y Cynllun Gweithredu. O'r safbwyntiau hyn, byddai cysylltiadau cliriach a mwy penodol yn werthfawr i sicrhau bod camau gweithredu yn gweithio'n gydlynol ac effeithiol tuag at y nodau:

Rydym yn cytuno bod y nodau cyffredinol yn sefydlu egwyddorion da ar gyfer y Cynllun [Gweithredu]. Gallai enwi'r rhain fel egwyddorion (yn hytrach na chamau gweithredu) osod naws gliriach drwy weddill y ddogfen sy'n gwahaniaethu rhwng syniadau ac egwyddorion da, a'r canlyniadau disgwylidig a'r camau gweithredu sy'n angenrheidiol i'w cyflawni.

Yr Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol

Teimlai eraill y gallai cysylltiadau cryfach rhwng nodau, camau gweithredu a themâu fod yn werthfawr er mwyn sefydlu ymrwymadau cliriach a pherchnogaeth gan randdeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrifoldeb am gamau gweithredu penodol ymhlith cyrff cyhoeddus ac adrannau llywodraethol perthnasol. Atgyfnerthwyd rhai o'r canfyddiadau hyn gan bwysigrwydd sicrhau newid ystyrion, y teimlai ymatebwyr y byddai'n cael ei hybu gan ymrwymadau cadarn a chllir gan yr holl randdeiliaid:

³ Cwestiwn 2: A ydych chi'n cytuno â'r nodau cyffredinol? Beth fydddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei ddileu mewn perthynas â'r nodau cyffredinol?

Yn gyffredinol, byddai'r Cynllun [Gweithredu] yn elwa o gael amlinelliad cychwynnol sy'n blaenoriaethu camau gweithredu yn gysylltiedig ag amserlen. Yn ogystal, nid yw'r camau gweithredu wedi'u gwasgaru'n gyfartal ar draws y gwahanol feysydd polisi, felly, er enghraifft, dim ond tri cham gweithredu sydd wedi'u rhestru o dan Gweithle, tra bo 18 o dan Cartrefi a Chymunedau (heb gynnwys camau gweithredu niferus wedi'u grwpio o fewn un weithred). Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru ystyried esbonio'r sail resymegol i'r camau gweithredu a sut y maent wedi'u dosbarthu [er mwyn] osgoi creu'r argraff bod rhai meysydd polisi yn llai pwysig nag eraill. Byddai cysylltiad clir rhwng y nodau cyffredinol ar ddechrau'r Cynllun [Gweithredu] a'r camau gweithredu a restrir o dan y gwahanol feysydd polisi yn helpu i sicrhau bod blaenoriaethau strategol y Cynllun [Gweithredu] yn glir.

Estyn

3.2 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Gwnaeth yr ymatebwyr hefyd sylwadau am agweddau a nodau penodol o fewn y Cynllun Gweithredu. O ran y dyletswyddau a'r disgwyliadau sy'n cael eu gosod ar gyrrff a sefydliadau cyhoeddus, roedd rhai ymatebwyr yn awyddus i archwilio sut y gallai'r Cynllun Gweithredu hyrwyddo a sicrhau ymgysylltiad ystyrlon ac effeithiol. O'r safbwyntiau hyn, roedd yr ymatebwyr am sicrhau yr eir i'r afael â'r dyletswyddau'n effeithio er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb, gan gynnwys ar gyfer pobl LHDTG+. Yn ymhlyg ac yn benodol, roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod sefydliadau a gwasanaethau'n rhoi dyletswyddau cydraddoldeb ar waith mewn ffyrdd sy'n gynhwysol ac yn feddylgar, ac nid fel ymarferion ticio blychau yn unig:

Byddem hefyd yn cefnogi dulliau sy'n annog newid trawsnewidiol (yn hytrach na thrafodol).

Chwaraeon Cymru

Ymarferion ticio blychau yw'r rhain; mae angen iddynt fod yn gadarn os ydym am fyw mewn Cymru gynhwysol.

Cyngor Sir Ddinbych

Soniodd yr ymatebwyr hefyd am bwysigrwydd gwella ac ymestyn hyfforddiant amrywiaeth o fewn sefydliadau'r sector cyhoeddus er mwyn annog ymgysylltiad mwy ystyrlon â Dyletswyddau Cydraddoldeb. Caiff y materion hyn eu harchwilio'n fanylach yn yr adran ar Addysg.

3.3 Cefnogaeth y Tu Hwnt i'r Sector Cyhoeddus

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr yn gadarnhaol at y ffocws ar y sector cyhoeddus yn y nodau cyffredinol. Er y caiff ei gydnabod bod hyn yn ganlyniad i'r hyn sy'n ymarferol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at y ffaith y gellid gwneud mwy i sicrhau bod busnesau preifat a sefydliadau eraill yn mynd ati mewn

ffordd ystyrllon i hyrwyddo cydraddoldeb i bawb, gan gynnwys pobl LHDTG+. Nododd ymatebwyr hefyd y cynnydd yn yr arfer o gomisiynu sefydliadau'r sector preifat i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig mewn lleoliadau gofal iechyd. O'r safbwyntiau hyn, gallai caffael fod yn sbardun arall i annog a sicrhau bod y sector preifat yn datblygu cydraddoldeb i bawb o fewn eu sefydliadau.

Fel y soniwyd o dan rôl Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, dylai hyn fynd y tu hwnt i gydymffurfiaeth i sicrhau bod hyn yn rhan annatod o arferion gweithio a rheoli. Gellid mynd i'r afael â hyn drwy ddarparu digon o hyfforddiant ac adnoddau i ddangos 'arferion gorau' yn y maes hwn neu gryfhau mynegeion cydraddoldeb yn y gweithle, fel Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle y DU. Ymdrinnir ag ymatebion pellach ar hyn yn y camau gweithredu penodol o dan thema 'Y Gweithle':

Cydnabyddir bod cyrff cyhoeddus yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a byddai unrhyw gynlluniau ychwanegol yn cael eu cysylltu'n glir ag arferion cyfredol. Fodd bynnag, mae gan fusnesau preifat a sefydliadau eraill eu rhan i'w chwarae wrth gyfrannu at gymdeithas gynhwysol a dylid cydnabod hyn yn y nodau cyffredinol.

Cyngor Casnewydd

Mae'r Cynllun Gweithredu yn cwmpasu'r gweithle; fodd bynnag, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i edrych ar ofynion eu proses gaffael i gynnwys busnesau sy'n cymryd camau i fod yn gynhwysol, [a fydd] yn annog cyflogwyr mwy i fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol tuag at gydraddoldeb a helpu i ddileu gwahaniaethu.

Y Sefydliad Adeiladu Siartredig

3.4 Casglu, Dadansoddi a Defnyddio Data

Mynegwyd y dylai ffocws yn y nodau cyffredinol ymestyn y tu hwnt i gasglu data a thuag at ddadansoddi a defnyddio data mewn ffordd ystyrllon. Yn hyn o beth, byddai cam gweithredu 53 ar ymchwil yn fwy defnyddiol o gael ei gyfuno â'r nodau cyffredinol, a dylai cam gweithredu 56 hefyd ofyn am 'ddadansoddi a defnyddio' fel rhan o'i gylch gwaith:

Ni ddylid rhoi pwyslais ar gasglu data yn unig — mae angen dadansoddi'r data a gasglwyd a gweithredu i fynd i'r afael â diffygion a nodir mewn perthynas ag amrywiaeth er mwyn sicrhau newid go iawn.

Cynghrair Cydraddoldebau a Hawliau Dynol

Ceir trafodaeth fanylach ar gasglu, dadansoddi a defnyddio data yn yr adran ar Adnoddau.

3.5 Datganoli a'r Berthynas â Llywodraeth y DU

Teimlai rhai y dylai'r Cynllun Gweithredu gynnwys mwy o eglurder ynghylch sut mae'n rhyngweithio â deddfwriaeth bresennol a phwerau datganoledig penodol. Roedd rhai ymatebwyr yn dymuno gweld iaith gryfach ynghylch ymrwymadau sy'n ymwneud â Llywodraeth y DU:

Lle nad yw meysydd polisi wedi'u datganoli i Gymru, bu'r gallu i ddylanwadu ar bolisi'r DU a'i siapiro yn anodd [...]. Nid yw hynny'n golygu na ddylai ymdrechion barhau, ond mae'n ymddangos yn debygol ein bod am wneud enillion cryfach mewn meysydd lle'r ydym yn 'feistri ar ein tynged ein hunain' — meysydd lle gallwn godi ymwybyddiaeth, e.e. hyfforddiant staff/gweithlu (gan gynnwys gwirfoddolwyr), gwasanaethau cyhoeddus, a chasglu data.

Grŵp Prif Swyddogion Ieuencid Cymru

3.6 Rôl y Panel Arbenigol Annibynnol

Roedd pryder ynghylch proses ddatblygu'r Cynllun Gweithredu, ac roedd angen manylion am rôl y Panel Arbenigol Annibynnol. Mynegwyd na ddylid gwneud hyn yn lle ymgysylltu'n barhaus â'r gymuned LHDTTC+ ehangach, a dylai hefyd adlewyrchu ei hamrywiaeth a'i chroestoriadedd. Roedd yno leiafrif bach, er yn llafar, a deimlai fod Stonewall wedi dylanwadu ar y Cynllun Gweithredu, gyda sylwadau ehangach ar y rôl fel sefydliad lloïo.

Barnodd llawer o ymatebwyr fod cyd-gynhyrchu a gwerthfawrogi profiad byw wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu yn bwysig mewn egwyddor; fodd bynnag, mynegwyd bod cyfle wedi'i gollu i ddefnyddio'r wybodaeth ehangach sy'n bodoli eisoes mewn meysydd penodol o'r sector cyhoeddus. Mynegodd llawer o sefydliadau'r trydydd sector sy'n cynrychioli meysydd polisi sylweddol awydd i fod yn rhan o waith ymgynghori pellach wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu yn barhaus:

Nodwn fod gwaith ymgynghori wedi dibynnu'n bennaf ar y cyfryngau cymdeithasol, sy'n gwbl ddealladwy yn ystod y pandemig [COVID-19]. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o bobl hŷn yng Nghymru fynediad i'r Rhynggrwyd, a bydd gan rai lythrennedd digidol cyfyngedig. O'r herwydd, mae eu lleisiau, eu barn a'u profiadau yn llai tebygol o fod wedi'u casglu [...]. Awgrymwn felly y dylid cryfhau camau gweithredu 6 ar ffurfioli'r Panel Arbenigol i ddweud y dylai'r Panel [Arbenigol] gynnwys lefel briodol o gynrychiolaeth gan bobl LHDTTC+ hŷn.

Age Cymru

Mae'n hollbwysig i gynnydd y Cynllun Gweithredu hwn bod ei fod yn amlwg wedi'i greu ar y cyd â rhai sydd â phrofiadau byw; ni fydd yn gweithio heb ei bobl. Mae angen casglu ystod eang o gyfranogiad ac ymgysylltiad amrywiol ar bob cam. Mae hyn yn golygu sicrhau 'lleisiau cudd' y rhai sy'n cael eu heithrio o wasanaethau, ac nid y lleisiau uchaf yn unig.

Grŵp Ieuencid Viva LHDT+

Roedd cwestiynau ynghylch rôl y Panel Arbenigol Annibynnol yn rhan o ymatebion ehangach ynghylch gweithredu, monitro a gwerthuso'r Cynllun Gweithredu (fel a drafodir yn yr adran yn nes ymlaen ar adnoddau a heriau). Cyfeiriodd rhai ymatebwyr technegol at brosesau llywodraethu a gweithdrefnau presennol ar gyfer craffu o fewn gwasanaethau cyhoeddus. Cyfeiriodd rhai hefyd at gyflwyno rôl comisiynydd/cynghorydd, fel yr awgrymwyd hefyd gan y Panel Arbenigol Annibynnol, fel ffordd i ddarparu arweiniad ac atebolrwydd i'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu. Gallai eglurder ynghylch rôl unrhyw banel, comisiwn neu unigolyn sy'n goruchwyllo'r Cynllun Gweithredu drafft helpu i liniaru'r cwestiynau a godwyd ynghylch ei weithredu:

Croesewir atebolrwydd a'r arfer o fonitro cynnydd ac mae'n hanfodol, ond ni fyddem yn gallu cefnogi'r Panel Arbenigol Annibynnol yn ei rôl o ddwyn llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus i gyfrif. Mae gan y Cyngor ei drefniadau llywodraethu ei hun, ei waith craffu a'i Gabinet, wedi'u hategu gan grwpiau mewnol/allanol lle y bo'n briodol, ynghyd â chyrff craffu allanol, er enghraifft, Estyn, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Arolygiaeth Gofal Cymru, ac ati, a fyddai mewn sefyllfa well i oruchwyllo.

Cyngor Casnewydd

Hefyd yn deillio o'n cyswllt ag aelodau a chefnogwyr awgrymodd rhai bod Llywodraeth Cymru yn archwilio'r posibilrwydd o greu Comisiynydd LHDT+ — yn yr un modd â'r Comisiynwyr presennol i Gymru ar gyfer Plant, Pobl Hŷn a Chenedlaethau'r Dyfodol — fel un swyddfa/endid ar gyfer bwrw ymlaen â'r Cynllun Gweithredu hwn a gwaith ehangach ar faterion LHDT+ yng Nghymru. Roedd hyn yn ymwneud yn benodol ag ymholiadau ynghylch sut y byddai camau gweithredu'n cael eu monitro, sut y byddent yn destun craffu, a sut y byddai Llywodraeth Cymru yn cael ei dwyn i gyfrif.

Tai Pawb

Un o argymhellion cyffredinol y Panel Arbenigol Annibynnol LHDT+ [...] oedd i Gynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Cydraddoldeb LHDT+ gael ei benodi i arwain, monitro a gwerthuso'r broses o weithredu'r Cynllun [Gweithredu]. Rydym yn cefnogi'r argymhelliad hwn ac yn argymhell y dylai rôl arfaethedig Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Cydraddoldeb LHDT+ yn benodol gynnwys mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd i adlewyrchu rôl Cynghorydd Iechyd LHDT Cenedlaethol Llywodraeth y DU, a fu'n ddefnyddiol o ran sbarduno newid ar draws y system iechyd yn Lloegr.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

4 Camau Gweithredu Arfaethedig

Gan ddefnyddio'r nodau datganedig, mae'r Cynllun Gweithredu'n cynnig amrywiaeth o gamau ymarferol. Mae'r camau gweithredu arfaethedig hyn yn ymwneud â materion penodol, gan gynnwys hyrwyddo hawliau dynol a chydabyddiaeth; sicrhau diogelwch pobl LHDTTC+; cartrefi a chymunedau; gwella iechyd; addysg; y gweithle; a'r ymateb i COVID-19. Gofynnwyd i'r ymatebwyr yn fras wedyn a oeddent yn cytuno â'r camau gweithredu arfaethedig.⁴

4.1 Hawliau Dynol a Chydabyddiaeth

Un o elfennau allweddol y cynigion yw camau gweithredu sy'n ceisio amddiffyn a hyrwyddo hawliau ac urddas pob person LHDTTC+, gan gynnwys ymgymryd â rôl lawn a chyfartal yng nghymdeithas Cymru.

Cydnabyddiaeth mewn Bywyd Bob Dydd

Un thema allweddol a godwyd gan rai ymatebwyr oedd pwysigrwydd cydnabod hawliau cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd mewn bywyd bob dydd:

Cytunaf â'r nodau. Alla i ddim siarad dros eraill yn y teulu LHDTTC, ond fel menyw hoyw, rydw i eisiau cymryd rhan weithredol yn fy nghymuned a chael mwynhau fy mywyd fel y mae eraill yn ei wneud. Nid yw'n anodd. Dydw i ddim yn gofyn am driniaeth arbennig. Nid wyf am orfod poeni na threulio fy mywyd ar bigau'r drain.

Ymateb unigol

Credaf ei bod yn bwysig iawn egluro i'r cyhoedd yn ehangach fod pobl draws yn benodol am fwrw ymlaen yn dawel â'u bywydau yn y ffordd y mae'r rhan fwyaf o bobl yn cymryd yn ganiataol — nid ydym yn chwilio am statws neu fuddion arbennig y tu hwnt i eraill, ac ni fyddem byth yn dymuno rywsut wanhau na dileu hawliau menywod nac unrhyw un arall.

Ymateb unigol

Gwahardd Therapi Trosi

Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth eang i wahardd therapi trosi, yn enwedig ymhlith ymatebion technegol gan sefydliadau. O'r safbwyntiau hyn, ystyrir bod therapi trosi yn arfer anfoesegol a niweidiol nad oes ganddo le mewn cymdeithas:

⁴ A ydych yn cytuno â'r camau gweithredu sy'n cael eu cynnig? Beth fydddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei ddileu mewn perthynas â'r camau gweithredu?

Mae'r Comisiwn yn cefnogi rhoi terfyn ar therapi trosi, arfer y mae tystiolaeth yn dangos ei fod niweidiol. Dylai polisïau sydd â'r bwriad o roi terfyn ar therapi trosi gynnwys arferion sy'n ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd, a chynnig amddiffyniad i bobl o bob oed. Mae'r diffiniad o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn therapi trosi, a'r hyn nad yw'n cael ei ystyried yn therapi trosi, yn hanfodol. Dylai polisïau sydd am roi terfyn ar therapi trosi dargedu arferion niweidiol sydd â'r bwriad o newid neu atal, mewn unrhyw ffordd, gyfeiriadedd rhywiol rhywun neu eu hunaniaeth rhywedd.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i weithio gyda phobl sy'n ceisio cymorth yng nghyd-destun amrywiaeth ryweddol. Mae o'r farn bod ymyriadau sy'n honni eu bod yn trosi pobl drawsryweddol a phobl rywedd-amrywiol i bobl cisryweddol, yn ddi-sail yn wyddonol ac, felly, yn anfoesegol ac yn annerbyniol. Mae'r Coleg felly'n cytuno â barn llawer o sefydliadau proffesiynol rhyngwladol, fel Cymdeithas Broffesiynol y Byd ar gyfer Iechyd Trawsryweddol (WPATH), American Academy of Child & Adolescent Psychiatry, a'r American Psychological Association, bod triniaethau seicolegol i atal neu 'gildroi' ymddygiadau rhywedd-amrywiol yn anwyddonol ac anfoesegol. Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yn ystyried y gallai defnyddio therapi trosi gyda phobl drawsryweddol a rhywedd-amrywiol (neu lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol) fod yn weithred o wahaniaethu o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru

Wrth gryfhau'r Cynllun Gweithredu, awgrymodd llawer o ymatebwyr y byddai diffiniad gweithredol o therapi trosi yn werthfawr. O fewn y thema hon, cyfeiriodd yr ymatebwyr at nifer o faterion. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau nad yw unrhyw waharddiad ar therapi trosi yn cwtogi ar unrhyw ryddid mynegiant crefyddol. Roedd eraill hefyd yn teimlo y byddai diffiniad cliriach yn werthfawr o ran sicrhau nad yw cymorth penodol, fel cadarnhau rhywedd i'r rhai sy'n byw gyda dysfforia rhywedd, yn dod o dan waharddiad cyffredinol. Gyda'i gilydd, teimlai'r ymatebwyr hyn y byddai mwy o fanwl gywirdeb o ran therapi trosi yn bwysig mewn unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol:

Byddai'n ddefnyddiol diffinio ystyr y "therapi trosi", sydd i'w wahardd.

Cyngor Rhyng-ffydd Cymru

Gall therapi trosi edrych yn wahanol iawn mewn cyd-destunau meddygol, therapiwtig, masnachol neu ffydd. O ystyried y niwed y gellir ei achosi, mae'n bwysig bod mesurau deddfwriaethol gan Lywodraeth y DU i wahardd therapi trosi yn seiliedig ar atebolrwydd llym ac wedi'u targedu at bob arfer o'r fath sy'n niweidiol i'r rhai sy'n eu derbyn, hyd yn oed os yw'r rhai sy'n eu cynnal neu'n eu derbyn yn credu eu bod er budd gorau'r sawl sy'n derbyn y therapi.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Nodwn fod pob arbenigwr meddygol a seicolegol sydd ag enw da yn cytuno bod 'therapi trosi' yn aneffeithiol, yn gynhenid homoffobig, yn niweidiol, ac yn anfoesegol. Dylai pob cymdeithas ledled y byd weithio tuag at ddod â'r arfer i ben.

Y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol

Nododd rhai ymatebwyr hefyd y dylai camau dilynol ar therapi trosi hefyd gynnwys strategaeth ar godi ymwybyddiaeth, allgymorth ac ymgysylltu mewn lleoliadau ffydd a chrefyddol. Byddai hyn hefyd yn helpu i sicrhau bod mesurau diogelu priodol ar waith i ddod â niwed i ben yn effeithiol. Nodwyd y dylai unrhyw ddeddfwriaeth ailasesu pa mor gymwys yw sefydliadau sy'n hyrwyddo therapi trosi i feddu ar statws elusennol a'r manteision sydd i hynny. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn gadarn eu barn na ddylid cael unrhyw eithriad crefyddol i unrhyw gyfraith.

Nododd ymatebion gan ddarparwyr gwasanaethau iechyd meddwl y dylai unrhyw ddeddfwriaeth ystyried camau i wneud iawn am gamweddau i ddiodefwyr a goroeswyr therapi trosi, yn ogystal â chyllid ar gyfer system adrodd ddiennw. Mae'n hanfodol bod cymorth arbenigol yn cael ei ddarparu sy'n cydnabod y profiadau hyn a sut y gallant groestorri â phrofiadau eraill o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac anghydraddoldebau strwythurol. Dylai fod yno gamau gweithredu clir i sicrhau cefnogaeth a diogelwch effeithiol i'r rhai yr effeithir arnynt. Dylai'r rhain gynnwys ariannu gwasanaethau arbenigol sydd ag arbenigedd mewn cam-drin ar sail anrhydedd, fel y'i gelwir, priodas dan orfod, rheolaeth drwy orfodaeth, a thrais rhywiol, er mwyn llywio ymatebion effeithiol. Er bod y ddeddfwriaeth bresennol eisoes yn ymdrin â'r arferion therapi trosi mwyaf treisgar, mae angen deddfwriaeth, adnoddau a chymorth pwrpasol i ymdrin â niweidiau penodol therapi trosi:

Hoffem i Lywodraeth Cymru sefydlu grŵp cyfeirio arbenigol a chanddo'r cylch gwaith o ddod â therapi trosi i ben.

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU2) Cynghrair yn erbyn Therapi Trosi

4.2 Diogelwch

Mae rhan sylweddol arall o'r Cynllun Gweithredu am ymgorffori ac ymestyn diogelwch i bobl LHDTTC+ o ran diogelwch cyhoeddus a phreifat. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â cham-drin a gwahaniaethu o bob math.

Troseddau Casineb a Phlisma

Roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod bod troseddau casineb yn aml yn gysyniad sydd heb ei ddiffinio'n dda, ac y dylid cael mwy o eglurder a diffiniad ynghylch troseddau casineb penodol y mae'r Cynllun Gweithredu yn ceisio mynd i'r afael â hwy. Gwnaeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru sylwadau ar gam gweithredu 14 yn benodol, gan ddweud bod tangofnodi troseddau casineb fel arfer yn ganlyniad i ddiffyg ymgysylltiad â diodefwyr, a diffyg cefnogaeth iddynt, ar ôl iddynt roi gwybod i'r heddlu. Yn bwysicach na hynny, dylid mynd i'r

afael â'r tebygolrwydd o gyfraddau euogfarnu isel a'r posibilrwydd o wynebu homoffobia, hiliaeth neu gasineb at fenywod mewn heddluoedd fel prif bryderon, a theimlai ymatebwyr mai dyma'r prif elfennau sy'n peri i gyfraddau adrodd fod yn isel.

Codwyd ymhellach nad â'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn unig y dylid ymgysylltu, ond hefyd â'r holl wasanaethau gorfodi'r gyfraith (gan gynnwys yr heddlu trafndiaeth). Mynegwyd bod dibynnu ar unigolion fel Prif Gwnstabiliaid neu Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yn annhebygol o arwain at newid ystyrlon, ac na fyddai'n mynd i'r afael â materion strwythurol mewn heddluoedd:

Nid lefel yr adrodd yw'r pwynt terfynol, ond [mae] yn fwy, ar ôl adrodd, bod [angen] gwell ymgysylltiad a chefnogaeth i ddiodefwyr. Dim ond wedyn y byddan nhw'n teimlo'n ddiogel. Os bydd mwy o adrodd ond nad oes dim yn digwydd neu ddim newidiadau ar ôl adrodd, yna'r tebygolrwydd yw y bydd pobl yn rhoi'r gorau i adrodd am ddiogyddiadau yn y dyfodol.

Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

Byddai'n dda gweld rhyw gyfeiriad penodol at weithio ledled Cymru gyda darparwyr trafndiaeth a Heddlu Trafndiaeth Prydain i sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn deall ble y gallant fynd os ydynt yn teimlo'n anniogel neu'n cael eu cam-drin gan deithwyr eraill.

Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

Teimlai rhai y gellid cryfhau'r Cynllun Gweithredu drwy gydnabod troseddau casineb neu grwpiau penodol. Nododd yr ymatebwyr, er enghraifft, y pryderon penodol ynghylch diogelwch ar gyfer pobl LHDTTC+ groenliw yn benodol, gan gynnwys cydnabod y profiadau anghymesur a negyddol o fewn y system cyfiawnder troseddol. Nododd rhai ymatebion y dylai'r cyfrifoldeb fod ar yr heddlu i ailadeiladu ymddiriedaeth ymysg grwpiau ethnig Du, Asiaidd a lleiafrifol, ond nad cynyddu presenoldeb cyfiawnder troseddol oedd yr ateb; dylid blaenoriaethu cyllid ar gyfer manau cymdeithasol, grwpiau cymunedol, a thrafnidiaeth fwy diogel yn ystod y nos:

Teimlwn fod y geiriad yng ngham gweithredu 13 yn awgrymu mai un grŵp homogenaidd yw pobl LHDTTC+, sydd â'r un profiadau mewn perthynas â digwyddiadau a throseddau casineb a diogelwch cymunedol.

Bi Cymru

Rwy'n anghytuno â'r pwyslais ar weithio gyda'r heddlu a defnyddio adrodd am droseddau casineb fel ateb i'r broblem gymdeithasol ehangach o gynnydd ideoleg casineb / y dde eithafol. Mae angen i'r heddlu yng Nghymru fod yn atebol am eu methiannau niferus. Mae llawer o bobl LHDTTC+ yng Nghymru, gan gynnwys y fi, sydd yn [Bobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig] a Mwslimiaid — rydym eisoes yn gwybod nad mwy o wylidwriaeth a throseddoli yw'r ateb. Byddwn yn dadlau'n gryf o blaid mwy o gyllid ar gyfer manau cymdeithasol, grwpiau cymunedol, [a] bysiau gwell neu am ddim — yn enwedig yn y nos. Mae angen buddsoddi yn ein cymunedau a'n diogelwch — nid yn y gwasanaeth [hynny] yr awn ato i adrodd am bethau pan fyddant eisoes wedi mynd o'i le, ac y mae'n amlwg nad yw'n cadw pawb ohonom yn ddiogel.

Ymateb unigol

Yn gysylltiedig â chymau gweithredu addysgol y Cynllun Gweithredu, nododd llawer bwysigrwydd pwynt gweithredu 16, sef sicrhau bod yr heddlu'n cael gwybod am y materion y mae unigolion LHDTTC+ yn eu hwynebu a sut i'w cefnogi. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod yr heddlu'n gynrychioladol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, gan gynnwys pobl LHDTTC+:

Bydd denu mwy o bobl LHDTTC+ ac unigolion eraill o gefndiroedd amrywiol i'r rolau rheng flaen hyn yn helpu i gryfhau dealltwriaeth a'r berthynas rhwng gorfodi'r gyfraith a grwpiau lleiafrifol.

Cynghrair Cydraddoldebau a Hawliau Dynol

Mynegwyd hefyd bod cyfle posibl wedi'i golli i gysylltu'r arfer o adrodd neu elfennau eraill â'r Ddyletswydd Trais Difrifol sy'n cael ei chyflwyno drwy Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd (sy'n mynd rhagddo drwy San Steffan). Yn yr un modd, teimlai rhai y dylai gweithredu ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol hefyd gynnwys ymrwymadau i fynd i'r afael â materion penodol, er enghraifft, drwy orfodi casineb at ffynwod fel trosedd casineb a rhoi terfyn ar droseddoli trosglwyddo HIV yn ddiogel:

Dylai'r adran hon gynnwys cam gweithredu i roi terfyn ar droseddoli trosglwyddo HIV yn ddiogel, y profwyd ei fod yn niweidiol i'r rhai sy'n gwneud cyhuddiadau yn ogystal â throseddwy'r honedig, ac sydd hefyd yn cynyddu stigma tuag at bawb sy'n byw gyda HIV.

Yr Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol

Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Ymhlith yr ymatebion ynghylch sut i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, roedd yr angen i ddarparu cymorth i ddioddefwyr sy'n ymateb i rywedd, sy'n seiliedig ar drawma ac sy'n cael ei arwain gan anghenion. Dylai hyn hefyd gydnabod nodweddion a deinameg unigryw trais gan bartneriaid agos mewn perthnasoedd lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bwysigrwydd dull ataliol o fynd

i'r afael ag achosion sylfaenol y trais anghymesur yn erbyn menywod, yn ogystal ag yn erbyn pobl LHDTTC+ yn ehangach:

Mae angen i ddarpariaeth gwasanaethau arbenigol feddu ar adnoddau digonol a chynaliadwy fel y gall ddarparu cymorth effeithiol sy'n ymateb i rywedd, sy'n seiliedig ar drawma ac sy'n seiliedig ar anghenion, ac sy'n fuddiol i bobl draws, pobl anneuaid a phobl cis [...]. Nid grŵp homogenaidd yw pobl LHDTTC+ [...] byddant yn profi pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn gwahanol gyd-destunau.

Cymorth i Ferched Cymru

Yr un yw'r [rheswm pam] fod adrodd am gam-drin domestig yn isel â'r rheswm [pam] nad ydym yn debygol o adrodd am droseddau casineb: mae'r system (sefydliadau, polisiâu, agweddau staff, ac ati) yn cis/heteronormadol. Rydym wedi clywed gan amrywiaeth o oroeswyr LHDTTC+ ac yn gwybod bod materion fel trawsffobia llwyr a deu-ddileu yn rhemp yng Nghymru.

Lloches Trais Domestig Calan

Cafwyd ymateb cryf gan grwpiau ac unigolion a oedd yn cefnogi'r angen parhaus i ddarparu gwasanaethau arbenigol sy'n cynnig manau i fenywod yn unig. Roedd yr ymatebion hyn yn ceisio ailddatgan hawliau menywod ar sail rhyw o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac tynnu sylw at yr ormes a'r trais y mae menywod lesbiaidd yn benodol yn eu profi yn y man y mae homoffobia a chasineb at fenywod yn croestorri.

Dylid deall hyn ochr yn ochr â'r ymatebion gan sefydliadau eraill sy'n mynnu bod yn rhaid i'r Cynllun Gweithredu fod yn glir a hyderus wrth ddatgan na ddylid ystyried bod ymatebion LHDTTC+-gynhwysol yn anghydnaws â dull o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac na ddylai amharu ar yr angen am gymorth, diogelwch a chyfiawnder i'r holl bobl LHDTTC+ sy'n oroeswyr camdriniaeth ddomestig. Dywedodd sefydliadau cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ehangach y dylai cymorth fod yn seiliedig ar ryw a rhywedd. Cyfeiriodd Calan DVS at eu Rhaglen Myriad ym maes adfer a chydnerthedd ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig sy'n amrywiol o ran rhywedd, perthynas a rhywioldeb fel enghraifft o arfer gorau yn y maes hwn.

Mynegwyd na fydd ymateb comisiynu niwtral o ran rhywedd o fudd i unrhyw ddiodefwr camdriniaeth, boed yn cis, yn draws neu'n anneuaid, gan y bydd yn methu â deall sut mae rhyw a rhywedd rhywun yn llywio profiadau o drais ac adferiad. Er enghraifft, credir bod trais domestig mewn perthnasoedd lesbiaidd yn dilyn patrymau gwahanol o ymddygiad gorfodi a/neu dreisgar, ac yn aml caiff ei annylsu a'i dangofnodi. Gall hynny effeithio ar y cymorth y mae menywod mewn perthynas o'r un rhyw yn ei dderbyn. Mae hyn yn galw am gefnogaeth ar ffurf deialog adeiladol barhaus a chanllawiau clir gan gomisiynwyr.

Tynnodd eraill sylw at y rôl bwysig sydd i addysg o ran codi ymwybyddiaeth a mynd i'r afael â materion sy'n sail i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys nodi a herio arferion, normau a stereoteipiau rhywiaethol a heteronormadol. Mae hyn yn

cynnwys addysgu plant a phobl ifanc am berthnasoedd parchus drwy'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at bwysigrwydd hyfforddiant a sy'n cael ei ddarparu mewn sefydliadau perthnasol, yn enwedig o ran deall ac ymateb i brofiadau penodol o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn cymunedau LHDTTC+:

Yn ogystal, teimlwn y dylai fod yn ofynnol i'r heddlu a sefydliadau eraill megis cymdeithasau tai, ysgolion, gofal cymdeithasol a gofal iechyd gael hyfforddiant orfodol ar ymwybyddiaeth LHDTTC+, troseddau casineb, cam-drin domestig, a thrais rhywiol [...] o safbwynt Cymorth i Ddiodefwyr. Ni fydd asiantaethau statudol yn gallu nodi anghenion a risgiau LHDTTC+ os nad ydynt yn ymwybodol o'r materion yn y lle cyntaf.

Cymorth i Ddiodefwyr

Wrth greu darlun o brofiadau pobl LHDTTC+ (neu, yn fwy cyffredinol, [o] brofiadau unrhyw un) o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, nid yw data'r heddlu yn rhoi darlun dilys. Nid yn unig y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol [...] wedi'i dangofnodi'n sylweddol, ond yn aml nid yw'n seiliedig ar ddigwyddiadau, er enghraifft, yn achos rheolaeth drwy orfodaeth. Nid yw llawer o oroeswyr yn adrodd neu ni allant adrodd am gamdriniaeth oherwydd anghydraddoldebau strwythurol a diwylliant o anghrediniaeth a beio diodefwyr sy'n parhau i fod yn dreiddiol. Mae'r rhwystrau hyn yn cael eu gwaethygu yn achos pobl Ddu a phobl leiafrifol, mudwyr, a'r rhai sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Yn achos pobl LHDTTC+, gall yr hunaniaethau neu'r profiadau hyn sy'n croestorri beri iddynt brofi gwahaniaethu pellach. Wrth gasglu data a chreu asesiad clir o anghenion i lywio'r cymorth a'r diogelwch a gaiff eu darparu, rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried sut y bydd yn ymgysylltu ac yn cynnwys anghenion y rhai y mae eu profiadau o wahaniaethu strwythurol yn golygu nad ydynt yn weladwy yn y data sy'n cael ei gasglu'n ffurfiol.

Cymorth i Ferched Cymru

Nid oes unrhyw gamau na sôn penodol am aflonyddu ar y stryd. Mae angen normaleiddio pobl a pherthnasoedd LHDTTC+ drwy bresenoldeb mewn hysbysebion neu ymgyrchoedd — er enghraifft, gyda dau berson o'r un rhyw yn gallu cerdded ar y stryd yn dal dwylo. Weithiau, mae dal dwylo gyda phartner yn peri risg o gam-drin, troseddau casineb, trais, ac yn aml, i fenywod yn enwedig, risg o gysylltiadau rhywiol dieisiau a chasineb at fenywod.

Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

Diogelwch Ar-lein a'r Cyfryngau Cymdeithasol

Daeth rheoleiddio cyfryngau cymdeithasol i'r amlwg yn aml mewn ymatebion yn ymwneud â diogelwch. O'r rhai a oedd yn tynnu sylw at bwysigrwydd diogelwch ar-lein, teimlai llawer y gallai'r Cynllun Gweithredu fod yn fwy penodol a darparu manylion mwy pendant. Cyfeiriodd llawer o unigolion a sefydliadau at faterion yn ymwneud â bwlio ar-lein i bobl ifanc, a'r angen am fodelau rôl mwy cadarnhaol yn y cyfryngau:

Byddwn i'n cryfhau'r ymrwymiad i [fynd i'r afael â] cham-drin yn y cyfryngau cymdeithasol. Nid cyfeirio at bobl unigol yn unig yw hyn, ond ein cymuned gyfan. Rwy'n gweld adrannau sylwadau yn y cyfryngau sy'n llawn o sylwadau cwrs, sarhaus, ac anghywir iawn yn aml. Nid yw'r rhain yn cael eu herio na'u dileu. Cyfeirir bob amser at ryddid i lefaru ond nid y cyfrifoldeb sy'n dod gyda'r rhyddid hwnnw.

Ymateb unigol

Mae'r NSPCC wedi arwain yr ymgyrch dros reoleiddiwr y cyfryngau cymdeithasol. Byddai hyn yn gwneud cwmnïau'n ddarostyngedig i ddyletswydd gofal, y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt nodi risgiau y gellir eu rhagweld yn rhesymol a mynd i'r afael â hwy drwy newidiadau systemig i'r ffordd y caiff eu gwasanaethau eu cynllunio a'u rhedeg. Rydym hefyd wedi dadlau y dylai fod gan y rheoleiddiwr ddyletswydd benodol i asesu'r risg o niwed i grwpiau penodol o ddefnyddwyr, sy'n ystyried effaith niwed o safbwynt croestoriadol, ac asesu sut y gallant brofi lefel anghymesur o niwed ar-lein.

NSPCC

Cyfeiriwyd yn aml hefyd at bryderon ynghylch gwybodaeth anghywir yn y cyfryngau ehangach a'r drafodaeth gyhoeddus o ran hawliau traws a chefnogaeth i grwpiau homoffobig a thrawsffobig:

Yn enwedig o ystyried y ffaith bod pobl draws yn cael eu difrio'n barhaus mewn trafodaethau cyhoeddus, mae'n hanfodol bod llywodraethau'n barod i wneud safiad ar ddiogelu hawliau pobl draws.

Yr Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol

Rhai o'r heriau allweddol ar gyfer y Cynllun [Gweithredu] yw'r cynnydd mewn camwybodaeth a throseddau casineb LHDTTC+ ledled y DU. Credwn fod angen cymryd rhywfaint o gamau difrifol ar y cyd â chwmnïau technoleg a Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn camwybodaeth am y gymuned drawsryweddol ac anneuaid.

Shelter Cymru

O ystyried yr hinsawdd wenwynig, a gwirioneddol frawychus, yn y newyddion / y cyfryngau cymdeithasol ar hyn o bryd, credaf ei bod yn eithriadol o bwysig bod Llywodraeth Cymru yn sefyll yn gadarn yn erbyn yr hyn sy'n teimlo fel llanw cynyddol o gamwybodaeth ac ymddygiad difaol sydd bellach yn ymddangos fel pe bai'n dylanwadu ar safbwyntiau gwleidyddol mewn ffyrdd sy'n fy mhoeni'n fawr fel menyw draws. Yn anffodus iawn, mae ar lawer ohonom bellach ormod o ofn cymryd rhan mewn ceisio gwrthsefyll y llanw hwn gan fod arnom ofn trais a chael ein targedu'n unigol — mae'n eithriadol o bwysig felly bod yna bobl a sefydliadau uchel eu parch sy'n gallu ac sy'n barod i'n cynrychioli a helpu i wrthsefyll y gamwybodaeth hon mewn ffordd gadarn a phroffesiynol.

Ymateb unigol

4.3 Cartrefi a Chymunedau

Mae'r Cynllun Gweithredu hefyd yn nodi ystod o gamau gweithredu a gynlluniwyd i sicrhau bod pobl LHDTG+ yn teimlo eu bod yn perthyn i'w cymuned ac i Gymru.

Canfyddiadau Cyffredinol

Mewn ymateb i'r cynigion ynghylch cartrefi a chymunedau, nododd rhai ymatebwyr fod yr adran hon o'r Cynllun Gweithredu yn cwmpasu nifer o feysydd polisi sylweddol. Roedd hyn yn cynnwys yr arsylwadau mai un pwynt gweithredu byr a roddir i rai materion sylweddol, tra bod is-gamau gweithredu manwl a niferus yn cael eu rhoi i eraill. Roedd rhai ymatebion yn cefnogi rhannu camau gweithredu o dan y thema hon yn grwpiau gwahanol, gan gydnabod bod hwn yn faes hollbwysig ar gyfer croestoriadedd gyda chamau gweithredu ar ddirgartrefedd, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gwahaniaethau rhanbarthol, a'r Gymraeg yn ogystal â diwylliant a chwaraeon:

Mae'r camau gweithredu wedi'u grwpio mewn ffordd eang iawn a gallai elwa o roi eglurhad pellach ynghylch pam mae'r camau gweithredu wedi'u grwpio fel hyn. Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru ystyried rannu'r grŵp hwn o gamau gweithredu yn themâu cliriach a mwy cryno, neu, fel arall, symud camau gweithredu i grwpiau llai datblygedig.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Byddai'r Cynllun Gweithredu yn gliriach pe gellid rhannu'r pedwar cam gweithredu ar ddiwylliant o'r adran hon a'u gosod mewn adran ar wahân ar y Gymraeg, diwylliant a chwaraeon.

Cyngor Ceredigion

Gwahaniaethau Rhanbarthol o ran Cymorth

Cyfeiriodd sefydliadau yng ngogledd a chanolbarth Cymru yn aml at fylchau yn y gwasanaethau presennol a olygai fod mynediad cymunedau LHDT+ at gymorth yn anghyson. Nododd llawer o'r ymatebion fod rhannau mwy gwledig o Gymru yn byw gyda mwy o ragfarn yn eu cymunedau ac y dylai polisi fod yn sensitif i hyn. Yn yr ardaloedd hyn, roedd y gwaith sylfaenol i ddileu gwahaniaethu, hyfforddiant i weithwyr gofal iechyd proffesiynol, a chanllawiau i ysgolion ac athrawon, yn flaenoriaethau:

Blaenoriaethau eraill yw cefnogi'r cymunedau yng nghanolbarth a gogledd Cymru nad oes ganddynt yr adnoddau a'r canolfannau cymunedol sydd ar gael yn y de i hyrwyddo cymorth iechyd meddwl, yn enwedig i oroeswyr therapi trosi, gwneud gwybodaeth atal HIV yn weladwy mewn meddygfeydd yng ngogledd Cymru, a [...] chefnogi ceiswyr lloches LHDT+.

Rustic Rainbow

Mae awdurdodau hefyd wedi nodi nad yw goblygiadau economaidd-gymdeithasol y Cynllun [Gweithredu] yn cael eu harchwilio'n ddigonol. O'r herwydd, nid yw profiadau pobl LHDT+ mewn cymunedau gwledig ar y cyfan wedi'u datblygu'n ddigonol.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Amlygodd rhai ymatebion, er bod natur wledig a'r Gymraeg yn rhwystrau posibl i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus neu grwpiau cymorth LHDT+, y mae modd i'r naill fod yn berthnasol heb y llall, a dylai pwynt gweithredu 18 ddaduno'r pwyntiau hyn:

Nid yn unig y mae daearyddiaeth Cymru yn rhwystr wrth gael mynediad at wasanaethau fel clinigau iechyd rhywiol, ond mae hefyd yn cyflwyno ei heriau cymdeithasol ei hun. Yng Nghymru ar hyn o bryd mae yna ardaloedd marw o ran clinigau iechyd rhywiol – heb wasanaethau wyneb yn wyneb am filltiroedd mewn rhai ardaloedd. Nid oes gan Bowys glinig iechyd rhywiol yn ardal ei Bwrdd Iechyd.

Ymddiriedolaeth Terrence Higgins

Soniodd pobl hŷn LHDT+ am bryderon ychwanegol y gallant eu profi mewn ardaloedd gwledig a sut y gall eu natur anghysbell fod yn ynysig iawn yn gymdeithasol. Gall natur wledig a phellter o wasanaethau olygu y bydd gofynion adnoddau uwch i'r holl wasanaethau a grwpiau er mwyn bod o fewn cyrraedd i [...] bobl LHDT+ hŷn mewn ardaloedd gwledig o gymharu â rhai trefol.

Age Cymru

Efallai edrych ar y rhwystrau mewn cymunedau gwledig Cymreig hefyd, yn enwedig mapio os ydi pobl ifanc dal yn teimlo eu bod yn gorfod symud o'u cymunedau traddodiadol Gymreig i gael eu derbyn.

Prif Swyddog Ieuentid Cyngor Sir Ynys Môn

O ran digwyddiadau Pride a gwelededd, roedd pryderon ynghylch canoli digwyddiadau Pride a'r diffyg cefnogaeth i ddigwyddiadau Pride rhanbarthol neu lawr gwlad, lle gellir dadlau bod gwelededd yn fwy hanfodol:

Teimlai undebau fod Pride Cymru yn fater yr oedd angen ei ystyried yn ofalus. Roedd teimlad cryf y caniatwyd i Pride Cymru ddatblygu i fod y prif ddigwyddiad i bobl LHDTTC+, ond wrth wneud hynny mae wedi cymryd cyfleoedd ariannu oddi ar ddigwyddiadau llai yn y gymuned y gellid dadlau bod llawer mwy o angen cyllid arnynt. Mae teimlad cryf mai Pride Caerdydd mewn gwirionedd yw Pride Cymru bellach a bydd bob amser yn denu cyllid corfforaethol/hysbysebu, ond nid yw manau llai, lle mae gwir angen Pride, yn cael unrhyw arian ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gadael ar ôl / eu hanwybyddu a'u heithrio.

TUC Cymru

Digartrefedd

Er bod y Cynllun Gweithredu wedi cyfeirio at brosiect tai penodol (Tŷ Pride), dywedodd llawer o sefydliadau fod angen mwy o fanylion am ddigartrefedd, gan y gall llawer o bobl LHDTTC+ ifanc gael eu herlid o'u teuluoedd, yn enwedig rhai â chefnidir ffydd, os ydynt yn datgan eu rhywioldeb. Roedd nifer o ymatebion technegol yn ailadrodd neu'n cyfeirio at argymhellion adroddiad 'Out On The Streets', gan ymgyrch Dileu Digartrefedd Ieuentid Llamau, gan nodi eu bod yn dangos arferion gorau yn y maes hwn.

Cyfeiriodd llawer o awdurdodau lleol at y lefel anghymesur o ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc LHDTTC+, ac roedd elusennau tai hefyd yn mynegi'r angen i ystyried y gwahaniaethu a brofir gan bobl hŷn mewn llety gwarchod neu gyda darparwyr gofal cymdeithasol. Nododd Tai Pawb eu bod wedi cyhoeddi canllawiau i ddarparwyr llety ar gyfer pobl hŷn ar ddod yn LHDTTC+-gyfeillgar, a bod cam gweithredu 30 ar rannu arferion gorau i'w groesawu:

Bydd angen buddsoddi mewn darparu cartrefi digonol i bobl ifanc sydd wedi'u gorgynrychioli yn y categori mewn perygl (rhai sy'n gadael gofal a phobl ifanc LHDTTC+). Beth bynnag yw'r adnoddau, mae angen dull cydgysylltiedig. Nid yw'r un o'r mentrau/byrddau hyn yn cael eu crybwyll yn y Cynllun Gweithredu a bydd yn bwysig sicrhau eu bod fel nad oes neb yn ailddyfeisio'r olwyn nac yn dyblygu ymdrechion.

Ymateb unigol

Angen gweithio mwy ar gefnogaeth i rieni hefyd oherwydd dyna sut mae lefel uchel o bobl ifanc LHDTTC+ yn diweddu'n ddigartref am fod y rhieni yn methu derbyn eu rhywedd.

Prif Swyddog Ieuencid Cyngor Sir Ynys Môn

Nododd Shelter ac End Youth Homelessness Now fod angen casglu a chyhoeddi data digartrefedd LHDTTC+, yn ogystal â data iechyd meddwl, er mwyn deall y ffyrdd y gallai gwasanaethau tai a digartrefedd waethygu anghydraddoldebau cymdeithasol.

Roedd yr ymatebion yn dangos y cyfoeth o wybodaeth sy'n bodoli yn y sector tai ar faterion yn ymwneud yn benodol â LHDTTC+, gydag argymhellion penodol ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd ac anghydraddoldeb tai mewn ffordd ystyrlon. Cyfeiriodd llawer o ymatebion unigol at achosion anecdotaidd o wahaniaethu yn y sector rhentu preifat, er bod yno ddiogelwch amlwg o dan gyfraith cydraddoldeb. Amlygodd hyn yr angen i ymgysylltu â'r sector tai ac am ragor o bwytiau gweithredu i fynd i'r afael â hyn:

Rydym am weld Llywodraeth Cymru yn casglu a chyhoeddi mwy o ddata ar ddigartrefedd LHDTTC+. Rydym yn cytuno bod ystadegau iechyd meddwl yn bwysig, ond credwn hefyd y byddai cyfraddau digartrefedd hefyd yn hanfodol i'n sefydliad ac eraill er mwyn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau tai a digartrefedd i sicrhau nad dynt yn gwaethygu'r anghydraddoldebau cymdeithasol a welwn ar hyn o bryd.

Shelter Cymru

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried adroddiad ac argymhellion Llamau wrth ailddrafftio'r Cynllun Gweithredu fel bod y bwriadau'n gliriach ac wedi'u diffinio, gan fynd y tu hwnt i'r unig ddiben o ystyried gwerthusiadau; sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i ddeall ac ymateb i'r nifer anghymesur o bobl LHDT sy'n ddigartref yng Nghymru; [a] darparu arweiniad a chefnogaeth i awdurdodau lleol gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth nodi ac ymateb i anghenion tai eu poblogaethau amrywiol.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Gwasanaethau Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Er bod yr ystod o bwytiau gweithredu sy'n ymwneud yn benodol â ffoaduriaid a cheiswyr lloches LHDTTC+ wedi'u croesawu gan ymatebwyr technegol, mynegodd llawer bryderon ynghylch gallu Llywodraeth Cymru i weithredu'n bendant yn y meysydd hyn heb ddatganoli briffiau perthnasol. Mae Camau Gweithredu 31 a 32 yn canolbwyntio ar 'anogaeth', a gellid ailysgrifennu cam gweithredu 31 yn benodol i roi eglurder ynghylch a oedd yng ngrym Llywodraeth Cymru i wneud diwygiadau i'r ffurflen ASF1.

Yn yr un modd, nodwyd bod cam gweithredu 33 yn rhywbeth y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi'i wneud eisoes er mwyn nodi gwelliannau i'r Cynllun Gweithredu fel polisi copa yn y

maes hwn, ac nid oedd yn glir pa 'sefydliadau' yr oeddent yn ymrwymo i'w cefnogi a sut y gellid darparu'r cymorth hwn:

[Ar gam gweithredu 33] *Mae llawer o'r camau gweithredu sy'n cael eu 'hystyried' yn gamau gweithredu a ddylai fod yn rhan o'r Cynllun [Gweithredu], a dylai ymchwilio ac adolygu polisi i geisio ei wella fod yn arferol.*

Platfform

4.4 Gwella Canlyniadau Iechyd

Mewn ymateb i'r anghydraddoldebau sylweddol o ran cael mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol, mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi ystod o gamau gweithredu sydd wedi'u cynllunio i wella mynediad a chanlyniadau i bobl LHDTc+.

Canfyddiadau Cyffredinol

Ymatebodd darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn gryf wrth awgrymu mai 'iechyd a gofal cymdeithasol' ddylai'r thema hon fod. Byddai hyn yn cryfhau'r dull 'cwrs bywyd llawn' ar draws y Cynllun Gweithredu ac yn gwella thema drawsbynciol croestoriadedd. Byddai ystyriaeth benodol o bobl LHDTc+ hŷn, yn ogystal â phobl sy'n byw gydag anabledau, yn gwella cynrychiolaeth pob grŵp LHDTc+ ymhellach a'r pryderon iechyd y gallant fod yn eu hwynebu. Cyfeiriwyd hefyd at waith iechyd cyhoeddus wedi'i dargedu fel ffordd i leihau'r anghydraddoldebau iechyd a brofir gan gymunedau LHDTc+ yn gyffredinol.

Ymatebodd llawer yn gadarnhaol i'r ffocws ar ofal iechyd traws, yn enwedig sefydlu Gwasanaeth Rhywedd Cymru. Gellid rhoi mwy o fanylion am feysydd gofal iechyd penodol eraill sy'n arbennig o berthnasol i'r rhai mewn cymunedau LHDTc+. Gellid cynnwys mynediad i fabwysiadu, ochr yn ochr â'r cam gweithredu ar driniaethau mamolaeth a ffrwythlondeb, yn ogystal â rhoi mwy o fanylion am ddarpariaeth iechyd meddwl (o ystyried y defnydd a wneir o ystadegau mewn mannau eraill yn y Cynllun Gweithredu).

Heneiddio a Gofal Cymdeithasol

Cafwyd ymateb sylweddol gan sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector a oedd yn tynnu sylw at yr angen i fynd i'r afael â phoblogaeth o bobl LHDTc+ sy'n heneiddio, ac am werthfawrogiad o gwrs bywyd llawn unigolyn. Nododd llawer o'r ymatebion sefyllfaedd mewn lleoliadau gofal cymdeithasol sydd weithiau'n achosi stigma ac y dylai'r rhain fynd y tu hwnt i 'gydymffurfiaeth'. Yn benodol, nodwyd bod nifer cynyddol o sefydliadau preifat yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol hanfodol o fewn economi gofal gymysg ac, o'r herwydd, dylai unrhyw hyfforddiant yn y sector cyhoeddus fod yr un mor berthnasol i unrhyw wasanaethau a gomisiynir yn gyhoeddus.

Tynnodd Cymdeithas Alzheimer's Cymru sylw at yr angen i gasglu data mewn ffordd sensitif yn hyn o beth, gan gydnabod yr angen i ystyried anghenion LHDTc+-benodol wrth fynd i'r afael â chynllunio gofal uwch:

Mae ein hymchwil wedi amlygu, er bod staff iechyd a gofal cymdeithasol a'u rheolwyr wedi ymrwymo i gynnal hawliau pobl hŷn LHDTTC+ yng Nghymru, yn aml mae ganddynt fylchau gwybodaeth sylweddol am fywydau LHDTTC+ a phrofiadau o ymyleiddio (hanesyddol a chyfredol) a diffyg hyder o ran hwyluso sgysiau ystyrllon am berthnasedd hunaniaeth rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol i anghenion gofal a chymorth unigolyn [...]. Mae angen i gyfranogiad fod yn orfodol i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac mae angen iddo fod wedi'i wreiddio mewn addysg barhaus o lefel cyn-gymhwyso ymlaen.

Academaidd ym Mhrifysgol Bryste

Wrth i'r boblogaeth sy'n byw gyda HIV heneiddio, mae niferoedd cynyddol yn dibynnu ar ofal preswyl a gofal cartref. Dywedodd pobl sy'n byw gyda HIV wrth yr Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol iddynt gael eu trin â stigma yn y sefyllfaoedd hyn, a rhaid cynnwys yr angen am hyfforddiant digonol, gan gynnwys ar faterion sy'n ymwneud â HIV ac ar hawliau mwy cyffredinol pobl mewn gofal cymdeithasol, yn yr hyfforddiant hwn.

Yr Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol

Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen ymchwil ar brofiadau o unigrwydd ac arwahanrwydd, yn ogystal â chefnogaeth i anghenion iechyd meddwl pobl LHDTTC+ hŷn, gan gydnabod bod llawer o bobl LHDTTC+ hŷn yn byw ar eu pennau eu hunain ac efallai nad oes ganddynt rwydwaith estynedig o deulu iddynt ddibynnu arnynt. Dylai pwynt gweithredu 40 gyfeirio'n benodol at anghenion pobl hŷn, yn ogystal â rhai pobl iau:

Mae Cymdeithas Alzheimer's Cymru yn ymwybodol bod cyfran anghymesur o bobl LHDTTC+ yn byw ar eu pennau eu hunain ac yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan arwahanrwydd cymdeithasol, cyflyrau iechyd meddwl, a defnydd o alcohol — tri ffactor risg allweddol ar gyfer dementia. Rydym hefyd yn ymwybodol y gall rhai o symptomau dementia fod â goblygiadau penodol i bobl LHDTTC+, yn enwedig o ran bod 'allan' yn ogystal â stigma sy'n cael ei brofi mewn cyfleusterau gofal.

Cymdeithas Alzheimer's Cymru

Clinigau Rhywedd a Chydnabod Rhywedd

I'r rhai sy'n cefnogi blaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu, cafwyd ymateb cadarnhaol ysgubol i gyflwyno Clinig Rhywedd Cymru a'r ymrwymadau i adolygu'r llwybr hunaniaeth rhywedd. Mae mynediad at ofal amserol ac empathetig yn parhau i fod yn anodd iawn i bobl yn y gymuned draws. Nodwyd y gallai gwthio gofal traws sylfaenol (hormonau) i faes gofal sylfaenol / meddygon teulu ryddhau Clinigau Hunaniaeth Rhywedd y GIG i ddarparu ar gyfer achosion mwy cymhleth. Cyfeiriodd llawer o'r ymatebion at y ffaith bod yna amseroedd aros eithriadol o hir i gael mynediad at wasanaethau priodol:

Er mwyn gweithredu o safbwynt hawliau plant, rwy'n croesawu'r Cynllun [Gweithredu] i adolygu'r llwybr hunaniaeth rhywedd ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru yn dilyn yr adolygiad yn GIG Lloegr [...] . Mae hyn yn sicrhau bod Erthygl 24 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cael ei bodloni, a byddwn yn croesawu adolygiad tebyg yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys pobl ifanc yn yr adolygiad hwn [...]. Yn ystod trafodaethau gyda'n Panel Ieuencid, dywedodd rhai eu bod yn ymwybodol drwy ffrindiau, teulu ac unigolion eraill sy'n arddel hunaniaeth drawsryweddol bod yr amser y mae unigolion ar restr aros y GIG yn hir iawn, a bod hyn yn broblem wirioneddol gydag iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn benodol.

Comisiynydd Plant Cymru

Hyd nes i Wasanaeth Rhywedd Cymru gael ei greu yng Nghaerdydd yn 2019, gellid dadlau nad oedd yna lwybr hunaniaeth rhywedd ar gyfer pobl draws ac anneauidd yng Nghymru. Roedd hyn, yn hytrach, yn cael ei allanoli i Loegr, ac mae'n parhau felly ar gyfer rhai o dan 17.5 [oed]. Gellid dadlau na all y Senedd ymrwymo i [adolygu] yr hyn nad oes ganddynt, ac y dylai, yn hytrach, ymrwymo i dwf parhaus Gwasanaeth Rhywedd Cymru i leihau'r amser aros o'r 2+ flynedd presennol i'r targed o 18 wythnos drwy ehangu'r gwasanaeth drwy hyfforddi a recriwtio mwy o arbenigwyr yn y tîm yn ogystal â'r Timau Rhywedd Canolradd Lleol. Gellir ymestyn hyn i lawr wedyn i ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc.

Cyngor Sir Ddinbych

Mae angen rhoi mwy o sylw i ddatblygu gwasanaethau gofal iechyd rhanbarthol ar gyfer dinasyddion traws sy'n darparu mynediad i driniaethau cadarnhau rhywedd yn nes at gartrefi pobl, ac i sicrhau bod gan feddygon teulu'r wybodaeth a'r hyder i ddarparu mwy o gymorth a thriniaethau drwy wasanaethau gofal sylfaenol.

Ymateb unigol

Credaf ei bod yn siomedig nad yw'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth fanwl am gyflwyno gwasanaethau iechyd traws i blant a phobl ifanc traws yng Nghymru.

Ymateb Unigol

Ystyriwyd bod mynd i'r afael ag anghenion pobl anneauidd yn hanfodol fan yma, er bod rhai'n cwestiynu pam mai mynd i'r afael â 'chanfyddiad' oedd canolbwynt pwynt gweithredu 45, yn hytrach nag ymrwymo i adolygu'r gwasanaethau eu hunain:

Mae'n ymddangos bod iaith y pwynt gweithredu hwn yn awgrymu mai "canfyddiad y cyhoedd" sydd angen ei addasu, yn hytrach na'r gwahaniaeth sy'n bodoli o ran mynediad at wasanaethau. Os eir i'r afael â'r gwahaniaeth hwnnw, bydd canfyddiad y cyhoedd yn dilyn.

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae prosesau iechyd, cronfeydd data, strwythurau gweinyddol ac ati a sefydlwyd yn seiliedig ar normau cisgender yn rheolaidd yn gwneud cam â phobl drawsryweddol (y mae fel arfer arnynt angen cymysgedd pwrpasol o ofal iechyd gwrywaidd, benywaidd a thraws-benodol). Byddai'r rhain yn syml i'w datrys: er enghraifft, disodli defnydd o "fenyw/gwryw" yn y gronfa ddata ag anghenion iechyd penodol ([e.e.] "mae/nid oes ganddynt geg y groth" [...]) fel bod llythyrau atgoffa yn cael eu hanfon i'r garfan gywir.

Ymateb unigol

Roedd rhai o'r ymatebion hyn yn pryderu bod grwpiau homoffobig a thrawsffobig yn awgrymu bod pobl ag anableddau dysgu yn agored i berswâd tuag at drawsnewid, a allai effeithio'n negyddol ar sut mae pobl niwroamrywiol yn derbyn gofal iechyd. Ymatebodd elusennau anabledd dysgu yn gryf fod hyn yn fygythiad i ymreolaeth ac asiantaeth pobl niwroamrywiol, yn hytrach na'i fod yn cyflwyno risg diogelu:

Mae hyn yn arbennig o bwysig, gan fod grwpiau trawsffobig a homoffobig wedi dadlau bod pobl awtistig yn benodol yn agored i ddylanwad ac yn cael eu hargyhoeddi eu bod yn drawsryweddol pan nad ydynt. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth o gwbl bod yr honiadau hyn yn ddilys. Ond rydym yn pryderu y gallai credoau fel y rhain effeithio ar y ffordd y mae pobl ag anableddau dysgu a phobl niwroamrywiol yn cael cymorth.

Anabledd Dysgu Cymru

Mae'r sector yn aml yn gweithredu'n adweithiol, gan drin materion LHDTTC+ fel 'problemau' y mae angen mynd i'r afael â hwy o safbwynt diogelu. Mae hyn yn anwybyddu hawliau'r person anabl i dderbyn gwybodaeth gywir ac i gael lle i ddarganfod a phenderfynu sut y maent am fyw eu bywydau.

Rhwydwaith Supported Loving Cymru

[O ran] gweithredwyr gwrth-drawsryweddol yn dadlau na ddylid caniatáu i bobl ag anableddau drawsnewid, eu ffocws yn arbennig yw awtistiaeth ac ADHD, ond yn ddiweddar mi glywais stori hurt am rywun yn cael eu gwrthod am eu bod yn defnyddio cadair olwyn. Fel rhan o ystyried diwygio gofal iechyd i bobl drawsryweddol, dylid rhoi cyfarwyddyd penodol na ddylid defnyddio anabledd fel unrhyw fath o rwystr o gwbl i drawsnewid. Mae hyn yn cynnwys ar gyfer pobl ifanc.

Ymateb unigol

HIV ac Iechyd Rhywiol

Nodwyd yn aml y dylid diwygio Rhagair y Gweinidogion er mwyn osgoi'r ystyr bod HIV yn 'glefyd hoyw':

Nid yw pob person LHDTc+ mewn mwy o berygl o HIV ac, ymhellach, mae'n bwysig peidio â chyfateb iechyd LHDTc+ â HIV [a pheidio â chyfateb] HIV â phobl LHDTc+. Fodd bynnag, mae baich HIV yn disgyn yn arbennig ar grwpiau penodol, gan gynnwys dynion sy'n cael rhyw gyda dynion (MSM) a phobl draws. Felly, mae rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud â HIV yn rhan hanfodol o Gynllun Gweithredu LHDTc+.

Yr Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol

Gellid gwneud mwy i fynd i'r afael ag iechyd rhywiol yn fwy cyffredinol ledled Cymru, gan gynnwys mynd i'r afael â bylchau rhanbarthol yn narpariaeth gwasanaeth iechyd rhywiol a sicrhau gwasanaethau Cymraeg. O ystyried bod rhywfaint o waith iechyd cyhoeddus eisoes wedi'i dargedu at fynd i'r afael â materion lle mae pobl LHDTc+ mewn perygl anghymesur, mae angen mwy o fanylder ynglŷn â sut y bydd cam 36 ar dargedu gweithgarwch iechyd y cyhoedd yn arwain at unrhyw beth gwahanol i'r ddarpariaeth bresennol a pha waith iechyd cyhoeddus a wneir. Dylai hyn gyfeirio'n benodol at HIV hefyd. Cymru oedd y genedl gyntaf yn y DU i ymrwymo i roi terfyn ar achosion newydd o HIV erbyn 2030, a rhaid iddi weithredu i sicrhau bod hyn yn cael ei wireddu. Gallai hyn gynnwys ymrwymo i Gynllun Gweithredu HIV Cymru fel yr argymhellwyd gan y Panel Arbenigol Annibynnol, a chyllid penodol ar gyfer Wythnos Brofi Genedlaethol a Diwrnod AIDS y Byd. Fodd bynnag, dylid cydnabod nad yw Cynllun Gweithredu HIV Cymru yr un fath â Chynllun Gweithredu ar Iechyd Rhywiol ac HIV, a dylid cywiro hyn:

Mae [Cam Gweithredu 41: Cynllun Gweithredu ar Iechyd Rhywiol ac HIV] angen ei ddiwygio, gan nad oes neb wedi gofyn am Gynllun Gweithredu sy'n cyfuno'r ddau faes hyn. Mae'r Cynllun Gweithredu ar HIV yn addewid presennol gan Lywodraeth Cymru ac mae ar y gweill; byddai Cynllun [Gweithredu] sydd hefyd yn cynnwys meysydd iechyd rhywiol llawer ehangach yn ymgymeriad gwahanol iawn. Gofynnwn i chi ddiwygio'r cam hwn i adlewyrchu'r hyn y gofynnodd y gymuned amdano a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i ni.

Fast Track Caerdydd a'r Fro

Cymru sydd â'r cyfraddau gwaethaf o ddiagnosis HIV hwyr unrhyw le yn y DU ac, o'r herwydd, dylai sicrhau profion optio allan mewn adrannau damweiniau ac achosion brys a meddygfeydd teulu fod yn flaenoriaeth, yn ogystal â mynd i'r afael â'r stigma parhaus sy'n gysylltiedig â HIV ymysg rhai gweithwyr iechyd proffesiynol. Cefnogwyd hyn gan y symudiad at apwyntiadau telefeddygaeth:

Gallai'r arfer diweddar o gynnal apwyntiadau rhithwir â meddygon teulu a'r cymorth ychwanegol ar gyfer e-bresgripsiynau gael eu teilwra i greu gwasanaeth iechyd a chymorth rhywiol o'r radd flaenaf. Pe baent yn dewis gwneud hynny, gallai ymgeisydd, o'r dechrau i'r diwedd, ddewis eu profiad i fod yn gwbl bersonol iddynt hwy heb fod angen ciwio mewn clinig iechyd rhywiol am oriau os [nad] oeddent yn dymuno neu wynebu unrhyw stigma a allai fod yn bresennol mewn practis meddyg teulu. Mae manteision hefyd i gynnal profion iechyd rhywiol o bell i'r rhai o gefndiroedd lle mae mwy o stigma, fel cymunedau LHDTTC+ a Phobl Dduon, Asiaidd a [llefriifoedd ethnig], a'r rhai ag anableddau.

Ymddiriedolaeth Terrence Higgins

Dylai cam gweithredu 36 hefyd gyfeirio'n benodol at HIV a dylai fod camau pellach i sicrhau amrywio mynediad i PrEP, profion HIV optio allan, ym mhob lleoliad gofal iechyd, a gwella ymwybyddiaeth o gyflyrau sy'n ddangosyddion HIV ymhlith darparwyr gofal iechyd.

Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol

Ffrwythlondeb, Mamolaeth, Mabwysiadu a Geni Plant ar Ran Pobl Eraill

Dywedodd un Bwrdd Iechyd Prifysgol nad oedd 'parhau' i gynorthwyo ffrwythlondeb a mamolaeth yn briodol; yn hytrach, yr oedd yn ymwneud yn fwy â mynediad teg a gofal a chymorth priodol. Cododd rhai ymatebion gwestiynau hefyd ynghylch prosesau mabwysiadu a geni plant ar ran pobl eraill, gan gydnabod bod y rhain yn bwysig i lawer o rieni LHDTTC+:

Mae adborth gan ein staff yn awgrymu nad yw'r gwasanaethau sy'n cael eu disgrifio fan yma eto'n "hygyrch ac yn syml [...i'w...] defnyddio" ar gyfer pobl LHDTTC+, felly mae'r "parhau i [sicrhau]" yn ymddangos yn gynamserol. Awgrymwyd y dylid cynnwys geni plant ar ran pobl eraill yn y pwynt hwn hefyd.

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Soniwyd am driniaeth ffrwythlondeb ar gyfer rhieni LHDTTC+ ond nid prosesau mabwysiadu, sy'n aml yn anodd i rieni LHDTTC+.

Ymateb unigol

Cyfeirir at barhad rhai arferion presennol drwy gydol y Cynllun Gweithredu. A yw'n cael ei ragdybio bod yr arferion presennol hyn yn effeithiol neu a yw eu heffeithiolrwydd yn seiliedig ar adolygiad ac asesiad strwythuredig, gan felly gyfiawnhau eu parhad? Nid yw'n glir yn y Cynllun [Gweithredu].

Cynghrair Cydraddoldebau a Hawliau Dynol

Iechyd Meddwl

Teimlai rhai ymatebwyr y gallai'r Cynllun Gweithredu ddarparu camau mwy penodol a manylach ar iechyd meddwl. O'r safbwyntiau hyn, roedd iechyd meddwl yn arbennig o bwysig wrth ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd drwy gydol y ddogfen o'r lefel uchel o broblemau iechyd meddwl ymhlith pobl LHDT+. Soniodd rhai ymatebwyr hefyd am effaith andwyol therapi trosi ar iechyd meddwl. Cyfeiriodd eraill hefyd at effaith negyddol pandemig COVID-19, yn enwedig ar gyfer grwpiau oedran hŷn a allai fod wedi profi unigrwydd ac arwahanrwydd, ac i bobl ifanc a brofodd aflonyddwch sylweddol i'w haddysg a'u bywydau cymdeithasol:

O ystyried natur hirsefydlog yr her [iechyd meddwl] hon a difrifoldeb yr effaith a achoswyd gan y pandemig [COVID-19], hoffem weld nod penodol yn cael ei gynnwys i fynd i'r afael â'r anghyfiawnder hirsefydlog hwn sy'n ceisio diwallu anghenion iechyd meddwl hirsefydlog y gymuned LHDT+.

Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain

Mae angen mwy o fanylion fan yma am yr hyn a olygir wrth wasanaethau iechyd meddwl, a yw'r Cynllun [Gweithredu] yn cyfeirio at wasanaethau haen 0/1 neu wasanaethau mwy arbenigol, ac a yw hyn hefyd yn cyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl sylfaenol, cymunedol ac eilaidd. Mae angen gweithredu hefyd ynghylch cynnal asesiad cadarn o angen, fel y gellir cynllunio gwasanaethau'n briodol a darparu adnoddau priodol ar eu cyfer.

Coleg Brenhinol y Seiciatryddion

Yn y gymuned LHDT+, mae'r rhai yr effeithir arnynt gan [afiechyd meddwl] mor uchel â 70 y cant, ac mae pobl ifanc draws yn arbennig o agored i niwed. Bydd llawer o bobl LHDT+ yn osgoi lleoliadau gofal iechyd gan nad ydynt yn teimlo'n ddiogel.

Unsain

4.5 Addysg

Wrth adeiladu ar ddiwygiadau diweddar i'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ysgolion, mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi ystod o gamau gweithredu a gynlluniwyd i gynorthwyo ymarferwyr i ymwneud â chwricwlwm LHDT+-gynhwysol.

Canfyddiadau Cyffredinol

Mae llawer o'r ymatebion sy'n trafod addysg (unwaith eto) yn amlygu pwysigrwydd pwyntiau gweithredu manwl a phenodol. Roedd yr ymatebwyr yn aml yn teimlo y gellid cryfhau'r Cynllun Gweithredu gyda chamau gweithredu mwy penodol a mwy manwl. Teimlai rhai y gallai cam gweithredu 47 egluro ar gyfer pwy yn union y bwriedir y dysgu a'r hyfforddiant proffesiynol. O ran cam gweithredu 48, sy'n ceisio sicrhau bod yr hyfforddiant yn grymuso gweithwyr proffesiynol i gefnogi pobl LHDT+, nodwyd y gallai hyn fod yn fwy priodol yn adran

'Y Gweithle'. Ymatebodd eraill y dylai'r rhaglenni atal troseddau casineb y cyfeirir atynt ym mhwynt gweithredu 51 naill ai ddod o dan yr adran 'Diogelwch' neu egluro ymhellach ei fod yn ymwneud yn benodol â lleoliadau addysgol:

Nid yw'n glir sut y mae cam gweithredu 51 yn ymwneud yn uniongyrchol ag addysg. Byddai'n ddefnyddiol bod yn fwy eglur ynghylch pa elfennau o'r rhaglenni atal troseddau casineb y gellid eu hymgorffori orau yn narpariaeth ysgolion a cholegau.

Estyn

Cwricwlwm Newydd i Gymru

Roedd pwysigrwydd addysg yn llinyn cyson drwy'r ymatebion. Roedd llawer o sefydliadau wedi ymrwymo i gefnogi pobl ifanc ac addysg, ac yn amlygu'r angen am arweiniad clir ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y Cwricwlwm newydd i Gymru mewn ysgolion. Gyda'r cwricwlwm newydd yn symud i ffwrdd o fodel rhagnodol, teimlai llawer ei bod yn hanfodol darparu canllawiau i ysgolion er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg LHDTc+-gynhwysol sy'n briodol i'w hoedran. Nodwyd hefyd y dylai'r cwricwlwm bennu gofynion hyfforddi; fodd bynnag, nid oedd pwynt gweithredu 47 yn glir o ran pwy y bwriadwyd yr hyfforddiant hwn ar ei gyfer:

Er ein bod yn croesawu cam gweithredu 47, hoffem weld manylion mwy penodol fan yma am yr hyn y bydd y buddsoddiad hwn yn ei gynnwys. Hoffem gael eglurder ynghylch faint fydd yn cael ei fuddsoddi mewn dysgu proffesiynol o ran dylunio cwricwlwm cwbl LHDTc+-gynhwysol, dros ba gyfnod o amser, a beth fydd yr hyfforddiant hwn yn ei gynnwys. Teimlwn y gellid cryfhau'r camau hyn hefyd drwy ychwanegu ymrwymiad i fuddsoddi mewn adnoddau LHDTc+ sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gynorthwyo â'r gwaith o ddylunio cwricwlwm cynhwysol [...] . Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn faes cymhleth ac arbenigol yn y cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar faterion a all fod yn sensitif ac sy'n gallu arwain weithiau at beri i athrawon, disgyblion a rhieni deimlo gorbyrder ac embaras, ac yn agored i niwed. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gynhwysol o ansawdd uchel yn dibynnu ar gael gweithlu sydd wedi'i hyfforddi'n dda ac sydd â'r hyder i lunio cynnwys perthnasol ar y cyd â phlant a phobl ifanc.

NSPCC Cymru

Rydym yn cefnogi'n gryf gynlluniau Llywodraeth Cymru i wneud Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ysgolion yn fwy LHDTc+-gynhwysol, ond hoffem bwysleisio'r angen i sicrhau nad yw ysgolion arbennig yn cael eu hepgor o'r newidiadau hyn. Yn aml, mae'n anoddach fyth i blant ag anabledau dysgu nag i blant eraill gael gafael ar wybodaeth ddibynadwy a chadarnhaol, felly gofynnwn i Lywodraeth Cymru sicrhau nad ydynt o dan anfantais bellach drwy'r polisiau hyn.

Anabledd Dysgu Cymru

Rydym hefyd yn cydnabod y gall camwybodaeth achosi mwy o niwed na lles, felly byddem yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod addysg briodol ar gyfer perthynas iach i bobl ifanc yn cael ei chynnal gan bobl gymwysedig.

Platfform

Cyfeiriodd rhai ymatebion at yr angen i edrych y tu hwnt i gwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb am addysg LHDTTC+-gynhwysol, yng nghwricwlwm ehangach yr ysgol, y tu hwnt i'r amser sydd wedi'i neilltuo ar gyfer dysgu ac addysgu. Yn yr un modd, dylai hyn ymestyn y tu hwnt i ysgolion ac i golegau a chanolfannau hyfforddi galwedigaethol:

Roedd llawer ar ein Panel Ieuenctid yn teimlo bod cynnwys ac integreiddio LHDTTC+ [nid yn unig] o fewn cynnwys a darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ond hefyd drwy amlygu bywydau a phrofiadau LHDTTC+ ar draws y cwricwlwm, megis hanes neu fathemateg.

Comisiynydd Plant Cymru

Mae cyfle i feddwl am gwricwlwm cynhwysol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, lle gall iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant fod yn arbennig o berthnasol. Efallai y bydd rôl i Gymwysterau Cymru fel rhan o hyn. Yn yr un modd, mae hyfforddiant i diwtoriaid a'r rhai sy'n darparu goruchwyliaeth fugeiliol i ddysgwyr a phrentisiaid yn hanfodol.

ColegauCymru

[Dylid] darparu'n llawn ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb orfodol a'i hymgorffori'n ystyriol fel rhan o'r cwricwlwm newydd, ac eirioli dros 'ddull ysgol gyfan' ar gyfer atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Cymorth i Ferched Cymru

Roedd tystiolaeth o betruso ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd gan rai ymatebwyr yn seiliedig ar y lle canolog sydd i ddewis rhieni. Yn yr un modd, roedd rhywfaint o bryder bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn dal i gael ei addysgu o safbwynt crefyddol mewn lleoliadau ysgol, gan lesteirio gallu plant a phobl ifanc i ddysgu am bob agwedd ar rhywioldeb. Roedd rhai hefyd yn credu y bydd rhai ysgolion gwladol yn teimlo pwysau gan ysgolion ffydd i addysgu o'r un safbwynt ffydd:

Mae'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) a basiwyd yn ddiweddar yn caniatáu i ysgolion [seiliedig ar ffydd] barhau i addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o safbwynt ffydd. Mae hyn yn golygu y bydd plant yn parhau i gael eu trwytho â'r syniad bod cydberthnasau o'r un rhyw yn anghywir — os cânt eu haddysgu amdanynt o gwbl, yn wir.

Y Gymdeithas Seciwlwr Genedlaethol

Dull System Gyfan

Amlygodd llawer o'r ymatebion fod angen mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan neu sefydliad cyfan at addysg a phobl ifanc. Mae hyn yn ystyried nid yn unig y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ond hefyd y cwricwlwm ehangach, yn ogystal â gweithgareddau y tu allan i'r ysgol gan gynnwys chwaraeon, ac yn awgrymu hyfforddiant i athrawon, llywodraethwyr, a staff cymorth ac arweiniad ar y ffordd orau i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n cyflwyno dysfforia rhywedd. Dylai'r adran 'Addysg' hefyd gynnwys addysg bellach ac addysg uwch yn fwy sylweddol:

Gan ganolbwyntio ar y camau gweithredu sy'n ymwneud ag addysg, mae angen dull o ymdrin ag addysg sy'n rhoi llawer mwy o ystyriaeth i'r system gyfan, ond gyda manylion ar gyfer meysydd addysg unigol. Mae'r holl ragymadrodd i'r camau gweithredu ar addysg yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ysgolion, y Cwricwlwm newydd i Gymru, ac addysg orfodol. Mae hyn yn fethiant difrifol. Nid oes un sôn am addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau, addysg uwch, na dysgu oedolion yn y rhagymadrodd hwn i'r camau gweithredu, a dim ond un ohonynt sy'n sôn yn benodol am AB ac AU.

ColegauCymru

Sicrhau polisïau cryf 'Ysgol Gyfan', hyfforddi staff ysgolion/athrawon, grŵp LHDTG+ ym mhob ysgol i fagu hyder mewn pobl ifanc i fedru derbyn eu rhywedd.

Prif Swyddog Ieuenctid Cyngor Sir Ynys Môn

Amlygodd rhai ymatebion y dylai unrhyw hyfforddiant ymestyn i lywodraethwyr ysgol a staff cymorth:

Mae'n bwysig bod ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i hyfforddiant i lywodraethwyr. Byddai unrhyw gŵyn neu bryder ynghylch arferion ysgol yn cael eu hystyried gan y corff llywodraethu, felly dylai unrhyw hyfforddiant/adnoddau adlewyrchu'r gofyniad hwn.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Mae hyfforddiant i ysgolion i'w groesawu. Byddai'n ddefnyddiol pe bai hyn yn cael ei roi ar waith ar gyfer llywodraethwyr hefyd a bod llywodraethwr ar gyfer LHDTG+ yn cael ei benodi. Mae angen cadarnhau a fydd hyn yn hyfforddiant am ddim neu a fydd athrawon cyflenwi yn cael eu darparu. Croesewir y buddsoddiad strategol mewn dysgu a hyfforddiant proffesiynol ar ddylunio cwricwlwm cwbl LHDTG+-gynhwysol. Fodd bynnag, er mwyn i hyn fod yn llwyddiannus, rhaid iddo gael ei ddatblygu a'i ddarparu gan weithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau uchel. Bydd angen eglurder pellach ynghylch sut y bydd ysgolion yn cael mynediad i'r hyfforddiant hwn. Yn ogystal, bydd angen digon o amser ar weithwyr proffesiynol mewn ysgolion i ddatblygu'r adnoddau a gweithredu'r dysgu proffesiynol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Roedd llawer o awdurdodau lleol yn gofyn am arweiniad gan Lywodraeth Cymru yn ogystal â chanllawiau ar sut i gefnogi plant a phobl ifanc trawsryweddol sy'n cyflwyno dysfforia rhywedd. Ystyriwyd bod adnoddau a hyfforddiant yn allweddol i lwyddiant y cwricwlwm newydd:

Mae cael canllawiau Cymru gyfan ar gyfer trawsrywedd mewn ysgolion yn eithriadol o bwysig. Mae angen canllawiau y gellir eu defnyddio ledled Cymru gyfan, sy'n cynnwys deddfwriaeth a therminoleg gywir i sicrhau cysondeb. Mae hyn yn bwysig iawn i ni ac yn rhywbeth sy'n bendant yn ofynnol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Mae cydweithwyr yn nhimau Addysg a Gwasanaethau Plant wedi nodi eu cefnogaeth glir i'r canllawiau arfaethedig i ysgolion, ac yn gofyn a fydd hyn yn mynegi'n glir sut mae [ysgol] yn cefnogi plentyn o dan 16 [oed] i gyflwyno yn eu dewis rywedd pan fydd y rhieni'n gwrthwynebu a sut y gallant gysoni'r canllawiau hyn gyda'r fframwaith deddfwriaethol bresennol sy'n gorwedd yn San Steffan. Rydym yn awr yn ymdrin â chwestiynau a cheisiadau am gymorth gan ysgolion ledled Sir Gaerfyrddin, ac yng ngoleuni heriau diweddar i awdurdodau lleol, gofynnwn yn garedig i'r gwaith hwn gael ei flaenoriaethu fel y gallwn gefnogi ein dysgwyr yn y ffordd orau bosibl.

Cyngor Sir Caerfyrddin

Nodwyd hefyd bod dulliau gweithredu presennol yn eu lle mewn ysgolion ar gyfer mynd i'r afael â bwlio a bywyd ysgol ehangach y dylid eu cydnabod a'u cefnogi drwy'r Cynllun Gweithredu:

Mae gwasanaethau Barnardo's sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc LHDTG+ yn eirioli dros ddull ysgol/sefydliad cyfan o [fynd i'r afael â] bwlio homoffobig, deuffobig neu drawsffobig a byddem yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod hyn yn rhan ganolog o'r Cynllun Gweithredu LHDTG+ (fel y mae'n berthnasol i addysg). Dylai fod ymagwedd glir, ysgol gyfan o beidio â dangos unrhyw oddefgarwch tuag at fwlio

mewn ysgolion, a dylai athrawon ac ymarferwyr fod wedi'u grymuso i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc hynny y mae hyn yn effeithio arnynt.

Barnardo's

[Dylai fod] camau gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru a GIG Cymru i sicrhau bod pob ysgol yn darparu hyfforddiant staff priodol a bod ganddynt bolisiau clir sy'n cefnogi plant trawsryweddol. Mae'r rhain yn cynnwys mynd i'r afael â bwlio, diogelu effeithiol, pryderon rhieni, ac ystyriaethau ymarferol (fel iaith briodol, defnyddio toiledau ac ystafelloedd newid, a gwisgoedd ysgol).

Coleg Brenhinol y Seiciatryddion

Nid oes cyfeiriad [at] yr angen i sicrhau bod y dulliau cyfranogi presennol mewn ysgolion yn gwbl gynhwysol ac yn galluogi i lais disgyblion LHDTC+ gael ei glywed. Rhaid i gynghorau ysgol a phrosesau eraill ar gyfer cynnwys disgyblion ar faterion sy'n ymwneud â'u haddysg a'u bywyd ysgol sicrhau eu bod yn gwbl gynrychioliadol o gymuned yr ysgol gyfan.

Plant yng Nghymru

[Rhaid sicrhau bod] awdurdodau lleol yn dadansoddi data bwlio a gesglir gan ysgolion, i nodi tueddiadau a helpu i sefydlu atebion yn unol â'u cyfrifoldebau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Eiriolaeth a Modelau Rôl

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bwysigrwydd modelau rôl cadarnhaol mewn ysgolion, ac roeddent yn cefnogi hyn fel ffordd i fynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion:

Gallem wneud cymaint mwy gydag eiriolaeth hoyw — pobl sydd allan, yn byw bywydau da, yn cyfrannu at gymdeithas, fel modelau rôl yn gymaint â dangos pa mor bwysig yw pobl hoyw mewn cymdeithas a sut y maent am fyw'n hapus ac yn ddiogel.

Ymateb unigol

Rydym hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i hyrwyddo modelau rôl a hyrwyddwyr LHDTC+ o bob rhan o'r trydydd sector, gan gynnwys cynifer o sectorau â phosibl, nid o fyd diwylliant a chwaraeon yn unig.

Shelter Cymru

4.6 Y Gweithle

Mae'r Cynllun Gweithredu hefyd yn nodi ystod o ddarpariaethau sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwahaniaethu y mae pobl LHDTG+ yn eu hwynebu yn y gweithle.

Canfyddiadau Cyffredinol

Teimlai rhai ymatebwyr y gellid cryfhau'r adran hon drwy gynnwys pwyntiau gweithredu penodol pellach sydd fel arall wedi'u gwasgaru drwy'r Cynllun Gweithredu:

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cefnogi'r camau a restrir yn yr adran hon o'r Cynllun [Gweithredu], ond yn nodi hefyd bod y nifer cyfyngedig o gamau gweithredu yn yr adran hon yn celu'r goblygiadau cronol ehangach ar "y gweithlu", yn enwedig o fewn awdurdodau lleol, gan fod y camau hyn wedi'u gwasgaru drwy'r Cynllun [Gweithredu].

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Roedd llawer o'r ymatebion yn tynnu sylw at rôl y sector preifat a'r trydydd sector o ran sicrhau newid ochr yn ochr â'r sector cyhoeddus (yr ymdriniwyd ag ef yn flaenorol o dan 'rôl y sector preifat' yn y Nodau Cyffredinol). Dylai hyfforddiant amrywiaeth fod ar gael i bawb, nid yn unig o fewn y sector cyhoeddus ac nid dim ond 'pan fo angen'; ni ddylid cymryd yn ganiataol bod gan y rhai sydd eisoes mewn swyddi yn sefydliadau'r sector cyhoeddus ddealltwriaeth flaenorol o'r materion hyn.

Roedd ymatebion gan undebau llafur yn ymwneud â'r diffyg ymgynghori ar y Cynllun Gweithredu drafft ymlaen llaw, a'r diffyg pwyslais ar waith teg a rôl undebau llafur yn y Cynllun Gweithredu yn fwy cyffredinol. Tynnwyd sylw at rôl cynrychiolwyr cydraddoldeb yn y gweithle i nodi materion cydraddoldeb penodol, craffu ar bolisiau a gweithdrefnau yn y gweithle, a chynrychioli unigolion. Dylai'r rolau hyn fod yn rhai wedi'u hariannu i sicrhau nad ydynt yn disgyn i waelod y rhestr o flaenoriaethau. Dylid ategu hyn drwy gasglu, dadansoddi a defnyddio data:

Byddai'n ddefnyddiol darparu canllawiau i sefydliadau a busnesau ynghylch sut y dylent feincnodi eu sefyllfa bresennol, gydag awgrymiadau o gynigion ynghylch sut y gallent wneud gwelliannau. Bydd hyn yn cefnogi atebolrwydd a thryloywder, yn ogystal â chryfhau cyfleoedd i rannu dysg a lledaenu arferion da.

Cynghrair Cydraddoldebau a Hawliau Dynol

Roedd cryn bryder ymhlith yr ymatebion o ran sefydliadau mawr yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys y posibilrwydd y gallai Prifysgol Caerdydd dynnu'n ôl o gynllun Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall. Roedd llawer yn gweld hyn fel rhan o ymdrech ehangach ar y cyd i ddifriö Stonewall. Cyfeiriodd un Bwrdd Iechyd Prifysgol a'r Coleg Nyrsgo Brenhinol at bwysigrwydd Bathodyn Enfys GIG Cymru, gan nodi mai Cymru oedd un o wledydd olaf Prydain i'w gyflwyno. Ystyriwyd bod hwn yn gynllun pwysig arall i godi ymwybyddiaeth ac yn fenter

wedi'i theilwra ar gyfer y gweithle sy'n cefnogi arferion cynhwysol mewn gweithleoedd y gellid eu defnyddio ar draws sectorau:

Yn ogystal â chasglu data'n well, mae'r Siarter hefyd yn gofyn am ymrwymiad i ymgorffori diwylliant cynhwysol drwy fentrau wedi'u teilwra sy'n addas i'w hamgylchedd yn y gweithle.

Y Sefydliad Adeiladu Siartredig

Rydym yn cefnogi'n gryf y cam o gyflwyno Cynllun Bathodyn Enfys, gan ei fod yn helpu i greu amgylchedd cynhwysol i unigolion LHDT+ drwy gynyddu gwelededd ac ymwybyddiaeth, gan ganolbwyntio ar yr addysg a'r ymwybyddiaeth sydd ei angen cyn rhoi'r bathodyn i staff ei wisgo.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Gwahaniaethu yn y Gweithle

Nododd unigolion ac undebau llafur fod profiadau o fwlio, gwahaniaethu ac aflonyddu (rhywiol) yn y gweithle yn bryder allweddol, gan amlygu ei bod (yn anffodus) yn debygol y bydd gweithwyr LHDT+ mewn perygl o gael eu targedu'n annheg i gael eu diswyddo yn ystod pandemig COVID-19.

Mynegwyd bod mynediad i gyfleusterau toiled priodol a manau preifat diogel yn y gweithle yn hanfodol i ddiwylliant gwaith cynhwysol. Mae hyn yn rhwystr penodol i bobl draws a phobl anneuaidd, ond mae hefyd yn parhau i fod yn fater croestoriadol i bobl sy'n byw gydag anabledau neu bobl grefyddol:

Mae cyfleusterau toiled priodol yn parhau i fod yn broblem enfawr mewn gweithleoedd, er y ffaith bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu rhag gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol.

TUC Cymru

Hyrwyddo pwysigrwydd bod cyflogwyr yn cymryd camau ataliol, a lliniaru yn erbyn bwlio ac aflonyddu drwy ddatblygu polisiau, hyfforddiant a chymorth mewn ffordd gynhwysol sy'n adlewyrchu profiadau penodol gweithwyr LHDT, fel camau dros dro hyd nes y cyhoeddir y Cod Ymarfer statudol ar aflonyddu yn y gweithle.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Recriwtio a Chadw Staff

Cyfeiriwyd yn aml at recriwtio fel maes allweddol i weithredu ynddo sy'n ymwneud â'r gweithle. Nodwyd bod bylchau yn y Ddeddf Cydraddoldeb yn golygu bod cyfleoedd posibl i wahaniaethu o ran cyflogaeth mewn lleoliadau crefyddol:

Hoffem hefyd weld argymhelliad ynghylch recriwtio. Dylai hysbysebion nodi'n benodol bod y swydd yn agored i bobl [waeth beth fo'u] rhywioldeb neu rywedd. Dylid eu rhoi hefyd mewn cyhoeddiadau a manau eraill lle maent yn debygol o gael eu gweld gan bobl LHDTC+. Dylid cofio hefyd bod rhai sefydliadau'n defnyddio asiantaethau allanol ar gyfer recriwtio staff.

Prifysgol De Cymru

Er ein bod yn croesawu strategaethau i fynd i'r afael â gwahaniaethu gwrth-LHDT+ yn y gweithle, rydym yn pryderu bod bylchau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn hawdd i rai cyflogwyr wahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr LHDT+ wrth recriwtio. Pan fo cyflogaeth at ddibenion crefydd gyfundrefnol, gall cyflogwyr wahaniaethu nid yn unig ar sail crefydd neu gred ond hefyd ar sail rhyw, ailbennu rywedd, priodas / partneriaeth sifil, a chyfeiriadedd rhywiol er mwyn cydymffurfio ag athrawiaeth y grefydd.

Y Gymdeithas Seciular Genedlaethol

Er mwyn gwella amrywiaeth mewn gweithluoedd, nodwyd hefyd y dylid canolbwyntio ar gadw staff a diwylliant gwaith, ochr yn ochr â phrosesau recriwtio cynhwysol:

Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gallant weithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol i sicrhau bod yr adnoddau sy'n cael eu dyrannu i wella'r ddarpariaeth hyfforddiant yn aros yn y sector. Yn ogystal, efallai y byddant hefyd am ystyried sut mae camau gweithredu'r Cynllun [Gweithredu] yn cyfrannu at ddatblygu diwylliant sector cyhoeddus mwy cynhwysol a chadarnhaol sy'n croesawu ac yn cadw staff amrywiol.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

4.7 Ymateb i COVID-19

Gan gydnabod effeithiau negyddol pandemig COVID-19, yn enwedig o ran lles ac iechyd meddwl, mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi dau gam gweithredu sydd â'r nod o sicrhau bod ymatebion a chymorth dilynol yn rhoi ystyriaeth i brofiadau ac anghenion pobl LHDTC+.

Canfyddiadau Cyffredinol

O'r ymatebwyr hynny a oedd yn cynnig sylwadau ar y cynigion, roeddent yn cyfeirio'n aml at effaith anghymesur pandemig COVID-19 ar bobl LHDTC+ fel croestoriad allweddol rhwng anfantais iechyd, cymdeithasol ac economaidd. Roedd yn cael ei gydnabod bod y sectorau sy'n cael eu heffeithio gan newidiadau yn y farchnad lafur yn debygol o effeithio'n anghymesur ar bobl LHDTC+ sy'n cael eu gorgynrychioli yn y sectorau hyn:

Mae pandemig [COVID-19] wedi cynyddu'r anfanteision economaidd-gymdeithasol sy'n wynebu ein cymunedau, ac mae'r effaith y mae tlodi yn ei chael ar bobl wedi tyfu ac yn parhau i dyfu. Bydd hyn yn effeithio ar ofynion tai, a gellid cynnwys pwyslais ar y materion hyn yn y Cynllun [Gweithredu].

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y dirywiad economaidd a achoswyd gan bandemig [COVID-19] yn effeithio ar sectorau'r celfyddydau a diwylliant, teithio a thwristiaeth, a lletygarwch. Mae'r rhain yn sectorau lle mae gweithwyr LHDTG+ (yn hanesyddol) wedi'u gorgynrychioli am eu bod yn haws bod yn agored LHDTG+ ynddynt. Ac wrth i'r dirwasgiad ddyfnhau, mae'n debygol y bydd gweithwyr LHDTG+ yn y sectorau hynny mewn perygl o gael eu diswyddo.

TUC Cymru

5 Heriau Allweddol ac Adnoddau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried yr heriau allweddol neu'r rhwystrau posibl i wireddu nodau'r Cynllun Gweithredu.⁵ Er mwyn deall y Cynllun Gweithredu ymhellach yn ymarferol, gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn am eu barn ar yr adnoddau y byddai eu hangen er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â'r nodau a'r camau gweithredu a'u cyflawni.⁶ Mae'r cwestiynau ymgynghori hyn wedi'u cyfuno mewn un adran i adlewyrchu'r gorgyffwrdd sydd yn yr ymatebion rhwng yr heriau ar gyfer gweithrediad y Cynllun Gweithredu a'r adnoddau penodol sydd eu hangen er mwyn gwneud hynny.

5.1 Gweithrediad

Cafwyd ymatebion helaeth gan sefydliadau a oedd yn teimlo mai gweithrediad oedd yr her fwyaf i'r Cynllun Gweithredu. Roedd rhai o'r farn mai cysylltiadau cydlynol rhwng nodau, camau gweithredu a chanlyniadau fyddai'r allwedd i weithrediad llwyddiannus y Cynllun Gweithredu. O ran themâu neu gamau gweithredu penodol, nododd yr ymatebwyr yn aml y byddai mwy o fanylion neu wybodaeth benodol yn cryfhau'r Cynllun Gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys rhagor o wybodaeth am sut beth allai fod yn llwyddiant ar gyfer pob pwynt gweithredu, sut y gellid cyflawni hyn yn ymarferol, a'r gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso:

Mae llawer o achosion yn y Cynllun [Gweithredu] lle mae'r camau gweithredu yw 'ystyried', 'archwilio' neu 'geisio'. Heb fod canlyniadau penodol ynghlwm wrth y rhan fwyaf o'r camau gweithredu, mae'r Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol yn pryderu nad oes digon o ysgogiad yn y Cynllun [Gweithredu] i wneud cynnydd yn y meysydd allweddol ac, ymhellach, nad oes targedau clir i anelu atynt neu ffyrdd i fesur a yw'r canlyniadau dymunol wedi'u cyflawni.

Yr Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol

O ran blaenoriaethau, credaf fod angen sicrhau bod y camau gweithredu yn cael eu cyflwyno a'u gweithredu i eithaf eu potensial, mae peryg oherwydd geiriad rhai o'r argymhellion a'r gweithrediadau iddynt gael eu gweithredu i'r safon neu fan lleiaf posib, hynny yw, geiriau megis 'ystyried' sydd ddim yn ymrwymidau pendant a llawn.

Ymateb Unigol

At hynny, teimlai rhai ymatebwyr y byddai pennu'r sawl sy'n gyfrifol am gyflawni camau gweithredu penodol o fewn y Cynllun Gweithredu yn werthfawr o ran sicrhau ymgysylltiad perthnasol. Roedd ymatebwyr hefyd yn ystyried bod cynnwys amserlenni arfaethedig ar gyfer

⁵ Beth yw'r prif heriau a allai atal y nodau a'r camau rhag cael eu cyflawni?

⁶ Pa adnoddau (gallai hyn gynnwys cyllid, amser staff, hyfforddiant, mynediad at wasanaethau cymorth neu wasanaethau eiriolaeth ymhlith pethau eraill) a fydd yn angenrheidiol yn eich barn chi wrth gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu a amlinellir?

pob cam gweithredu yn werthfawr, gan helpu rhanddeiliaid i flaenoriaethu camau gweithredu:

Er mwyn sicrhau bod y Cynllun [Gweithredu] yn effeithiol, mae angen mwy o eglurder ynghylch yr amserlenni disgwylidig ar gyfer cyflawni camau gweithredu a'u perchnogaeth. At hynny, byddai effeithiolrwydd cyffredinol y Cynllun [Gweithredu] yn debygol o gael ei wella drwy ystyriaeth fwy cadarn o'r modd y mae'r camau gweithredu a restrir yn y Cynllun [Gweithredu] yn croestorri â'r blaenoriaethau sydd eisoes wedi'u sefydlu ac a nodwyd gan Lywodraeth Cymru mewn dogfennau perthnasol eraill.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cafwyd amrywiaeth o ymatebion gan sefydliadau yn gofyn am fanylion am weithrediad y Cynllun Gweithredu, gan gynnwys y gweithdrefnau monitro. Teimlai rhai y dylai hyn fod y tu hwnt i oruchwyliaeth y Panel Arbenigol Annibynnol ac y dylai gael ei werthuso'n ffurfiol gan ddefnyddio dangosyddion a chan gyfeirio at weithdrefnau presennol neu gyrff cyhoeddus sydd eisoes yn eu lle i gyflawni'r rôl oruchwyllo hon. Ar gyfer hyn, dylid pennu canlyniadau a thargedau – soniwyd yn aml am ddefnyddio targedau CAMPUS. Er mwyn mynd i'r afael â gofynion croestoriadedd, dylid cyd-fynd â chynlluniau cydraddoldeb strategol eraill:

O'n profiad ni, teimlwn y dylai unrhyw waith a wneir yn y maes hwn gael ei arwain gan weithwyr proffesiynol a/neu sefydliadau annibynnol, diduedd ac y dylai'r canlyniadau gynrychioli ystod eang a chytbwys o safbwyntiau a nodweddion gwarchoddedig. Yn ein profiad ni, mae unrhyw waith nad yw'n dod o'r cefndir hwn yn debygol o gael ei herio'n helaeth a gallai atal y nodau a'r camau gweithredu sy'n cael eu cyflawni.

Cyngor Sir Ddinbych

Hefyd yn deillio o'n cyswllt ag aelodau a chefnogwyr awgrymodd rhai bod Llywodraeth Cymru yn archwilio'r posibilrwydd o greu Comisiynydd LHDTc+ — yn yr un modd â'r Comisiynwyr presennol i Gymru ar gyfer Plant, Pobl Hŷn a Chenedlaethau'r Dyfodol — fel un swyddfa/endid ar gyfer bwrw ymlaen â'r Cynllun Gweithredu hwn a gwaith ehangach ar faterion LHDTc+ yng Nghymru. Roedd hyn yn ymwneud yn benodol ag ymholiadau ynghylch sut y byddai camau gweithredu'n cael eu monitro, sut y byddent yn destun craffu, a sut y byddai Llywodraeth Cymru yn cael ei dwyn i gyfrif.

Tai Pawb

[Dylai] gyd-fynd yn glir â rhaglenni cydraddoldeb strategol a Chynlluniau Gweithredu eraill i sicrhau bod dulliau cyflawni systematig a chydgyssylltiedig yn cael eu defnyddio i gydnabod croestoriadedd a blaenoriaethau cydraddoldeb trawsbynciol a chydberthynol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

5.2 Cyllid wedi'i Neilltuo

I amryw ymatebwyr, roedd cyllid ymhlith yr adnoddau allweddol. Er mwyn i gyllid fod yn effeithiol wrth fynd i'r afael â nodau'r Cynllun Gweithredu, teimlai rhai y dylid ei neilltuo ar gyfer cefnogi camau gweithredu neu wasanaethau penodol:

Dylid dyrannu cyllid craidd hirdymor wedi'i neilltuo i ddarparu'r gwasanaethau.

Grŵp Pobl

Mae heriau ariannu yn y trydydd sector yn parhau i fod yn fgythyad mawr; fodd bynnag, mae'r sector hwn yn aml yn cael ei gomisiynu i ddarparu gwasanaethau ledled Cymru. Hoffai Age Connects Morgannwg weld mwy o arian craidd hirdymor wedi'i neilltuo i ddarparu gwasanaethau.

Age Connects Morgannwg

Efallai y bydd angen i [adnoddau] gael eu dyrannu'n ganolog, gan na all staff ymrwymo fel arall i weithredu'r gwaith pwysig iawn hwn.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Cyfeiriodd llawer o awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus at yr angen am arian ychwanegol er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau ychwanegol sy'n cael eu rhoi arnynt o ganlyniad i'r Cynllun Gweithredu:

Mae awdurdodau lleol wedi tynnu sylw'n gyson at fater capasiti ac adnoddau cyfyngedig wrth gyflawni strategaethau sy'n gysylltiedig â chydarddoldeb. Yn gynyddol, mae awdurdodau lleol hefyd yn tynnu sylw at [...] angen cynyddol am wybodaeth arbenigol yn wyneb diddordeb cynyddol y cyhoedd mewn agweddau ar yr agenda cydraddoldeb. Mae'n bwysig, felly, bod Llywodraeth Cymru yn darparu adnoddau digonol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu, neu'n cydlynu neu'n comisiynu canllawiau, adnoddau a chymorth penodol i hwyluso'r gwaith o gyflawni.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

5.3 Casglu, Dadansoddi a Defnyddio Data

Ystyriwyd hefyd bod y gallu i gasglu, dadansoddi a lledaenu gwybodaeth a data cyson yn adnodd pwysig er mwyn cefnogi'r Cynllun Gweithredu. Roedd llawer o sefydliadau'r sector cyhoeddus, yn enwedig cyrrff cyhoeddus ac awdurdodau lleol, yn nodi, er bod data penodol eisoes yn cael ei gasglu mewn perthynas â darparu gwasanaethau, bod angen dull gweithredu cyson ledled Cymru ar frys. Mae hyn yn hanfodol er mwyn creu llinell sylfaen ystyrion ar gyfer ymyriadau yn y dyfodol, gan ystyried sensitifrwydd ynghylch casglu data yn y maes hwn. Ym marn rhai, gellid defnyddio hyn i greu sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Gweithredu ei hun.

Cyfeiriwyd yn rheolaidd at gasglu data yn y Cynllun Gweithredu mewn perthynas â nifer o themâu yn ogystal â'r nodau cyffredinol. Er enghraifft, mewn ymateb i adran 'Y Gweithle':

Nid oes gan nifer o gamau gweithredu ddigon o fanylion ynghylch cwmpas, er enghraifft, camau gweithredu sy'n ymwneud â chasglu data. Nid yw'n glir a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r pwynt hwn ymwneud yn benodol ag arferion recriwtio neu a yw'n berthnasol yn ehangach.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Yn yr adran 'Addysg' wedyn:

[Rhaid sicrhau bod] awdurdodau lleol yn dadansoddi data bwlio sy'n cael ei gasglu gan ysgolion, i nodi tueddiadau a helpu i greu atebion yn unol â'u cyfrifoldebau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Awgrymwyd y dylai'r ymrwymiad ym mhwynt gweithredu 4 i ddadansoddi ar lefel y boblogaeth gynnwys ymrwymadau penodol i gynorthwyo'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ganfyddiadau Cyfrifiad 2021, sy'n cynnwys cwestiynau am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd am y tro cyntaf. Mae'r rhain hefyd yn cynnwys cynorthwyo'r sector cyhoeddus i'w ddefnyddio nid yn unig wrth lunio polisïau a gwasanaethau ond hefyd wrth fonitro:

Mae hyn yn sôn am ddadansoddi ar lefel y boblogaeth, ond mae un arolwg yng Nghymru sy'n meddu ar y wybodaeth hon, sy'n caniatáu dadansoddiad manwl (y Cyfrifiad). Nid oes ychwaith ddata digonol sy'n mesur hyn ar lefel y boblogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Sut gallwn ni gefnogi pobl ifanc pan nad ydyn ni'n gwybod ble maen nhw na nifer y plant a'r bobl ifanc yn y gymuned?

PRISM

Cyfeiriodd llawer o'r ymatebion at yr angen nid yn unig am gasglu data ond hefyd am ei ddadansoddi a'i ddefnyddio mewn ffordd ystyrlon. Yn yr un modd, wrth ystyried materion sensitif a nodweddion gwarchoddedig niferus, roedd gwendid ac annibynadwyedd y mathau presennol o ddata sy'n cael ei gasglu yn gwaethygu'r anghydraddoldebau strwythurol presennol:

Ni ddylid rhoi pwyslais ar gasglu data yn unig — mae angen dadansoddi'r data a gasglwyd ac mae angen camau gweithredu i fynd i'r afael â diffygion a nodwyd o ran amrywiaeth er mwyn sicrhau newid gwirioneddol. Byddai'n ddefnyddiol rhoi arweiniad i sefydliadau a busnesau ynghylch sut y dylent feincnodi eu sefyllfa bresennol, gydag awgrymiadau o gynigion ynghylch sut y gallent wneud gwelliannau. Bydd hyn o gymorth i atebolrwydd a thryloywder, yn ogystal â chryfhau cyfleoedd i rannu dysg a lledaenu arfer da.

Cynghrair Cydraddoldebau a Hawliau Dynol

Wrth greu darlun o brofiadau pobl LHDTTC+ (neu, yn fwy cyffredinol, [o] brofiadau unrhyw un) o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, nid yw data'r heddlu yn rhoi darlun dilys. Nid yn unig y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol [...] wedi'u tangofnodi'n sylweddol, ond yn aml nid yw'n seiliedig ar ddigwyddiadau, er enghraifft, yn achos rheolaeth drwy orfodaeth. Nid yw llawer o oroeswyr yn adrodd neu ni allant adrodd am gamdriniaeth oherwydd anghydraddoldebau strwythurol a diwylliant o anghrediniaeth a beio dioddefwyr sy'n parhau i fod yn dreiddiol. Mae'r rhwystrau hyn yn cael eu gwaethygu yn achos pobl Ddu a phobl leiafrifol, mudwyr, a'r rhai sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Yn achos pobl LHDTTC+, gall yr hunaniaethau neu'r profiadau hyn sy'n croestorri beri iddynt brofi gwahaniaethu pellach. Wrth gasglu data a chreu asesiad clir o anghenion i lywio'r cymorth a'r diogelwch a gaiff eu darparu, rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried sut y bydd yn ymgysylltu ac yn cynnwys anghenion y rhai y mae eu profiadau o wahaniaethu strwythurol yn golygu nad ydynt yn weladwy yn y data sy'n cael ei gasglu'n ffurfiol.

Cymorth i Ferched Cymru

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at faterion yn ymwneud â datgelu gwybodaeth bersonol (GDPR) a'r potensial ar gyfer nodi bod pobl yn LHDTTC+ heb eu caniatâd os nad yw'n cael ei thrin yn ofalus. Cyfeiriodd eraill at anghysondebau posibl yn achos camau gweithredu penodol yn y Cynllun Gweithredu; dylai camau gweithredu ar gasglu data roi ystyriaeth benodol i bobl ifanc sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n byw gydag anabledau a phobl hŷn o ran ymreolaeth, gofal cymdeithasol ac iechyd, a chyfleusterau byw â chymorth, a'r rhai sy'n byw gyda dementia. Dylai'r data hyn hefyd fod yn 'ddeinamig' wrth gydnabod hunaniaethau sy'n newid ac yn esblygu:

Os na chaiff ei weithredu mewn ffordd sensitif a doeth, rydym yn pryderu y gallai hyn roi pwysau ar bobl i ddatgelu eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth rhywedd, hyd yn oed os ydynt yn dymuno i hyn aros yn breifat iddynt hwy neu os ydynt yn dal yn ansicr ynghylch eu cyfeiriadedd neu hunaniaeth. Ni ddylai unrhyw un deimlo dan bwysau na chael eu gorfodi i ddatgelu eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth rhywedd oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol.

Y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol

Mae cam gweithredu 5, cam gweithredu 29 a cham gweithredu 31 [yn cyfeirio] at wahanol fathau o gasglu data, ond mae cam gweithredu 11 yn cyfeirio at ddileu dynodwyr personol o ddogfennaeth. Mae'n ymddangos bod y camau hyn yn anghyson. Mae Cam Gweithredu 11 yn cyfeirio'n benodol at ddata recriwtio, ond dylid gwella'r broses o gasglu data ar draws y sefydliad.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Dylai hyn hefyd sicrhau ein bod yn cefnogi 'cynnig gweithredol' nad yw'n seiliedig ar wneud rhagdybiaethau am statws LHDTG+ pobl, sy'n ystyried hunaniaeth unigol ac nad yw'n ei gwneud yn ofynnol i unigolion hunan-nodi bob tro y maent yn ymwneud â gwasanaethau iechyd.

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

5.4 Hyfforddiant, Eiriolaeth a Modelau Rôl

Dylid cael hyfforddiant ac ymwybyddiaeth gynhwysol ar draws y sector cyhoeddus gyda'r disgwyliad y bydd gweithwyr proffesiynol yn cymryd rhan ac yn darparu gwasanaeth gwybodus, a'i fod yn cael ei ddarparu i bob contractwr a phartner trydydd parti. Roedd llawer o'r ymatebion yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgorffori'r rhain yng ngofynion eu prosesau caffael.

Dyweddodd yr ymatebwyr y dylai'r hyfforddiant gynnwys athrawon, gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr ieuentid, a'r rhai sy'n gweithio gyda gofalwyr, yn ogystal â gwasanaethau a gomisiynir i gyflawni contractau'r sector cyhoeddus. Dylai hyfforddiant o'r fath fod yn wrthrychol a chytbwys, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â dysfforia rhywedd a dealltwriaeth o'r holl rywioldebau. Ni ddylai hyfforddiant effeithiol yn y maes hwn awgrymu bod cydraddoldeb yn gyfystyr â 'thrin pawb yr un fath', a allai olygu parhau ag anghydraddoldebau (yn hytrach na mynd i'r afael â hwy), ond yn hytrach dylai geisio deall cyd-destun, hanes bywyd, ac amgylchiadau cymdeithasol:

Byddai rhoi'r dasg i arweinwyr ddod o hyd i'r hyfforddiant priodol o fudd yn hyn o beth. Yn ein hadroddiad 'Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant' (Estyn, 2020) canfuwyd yr eir i'r afael yn effeithiol â bwlio LHDTG+ pan fo arweinwyr yn sefydlu ethos yn eu sefydliad sy'n gadarnhaol ynghylch hawliau LHDTG+. Yn ogystal, mae ein hadroddiad yn cydnabod yr angen i sefydlu systemau cadarn i nodi a mynd i'r afael â materion bwlio wrth iddynt godi. Byddai'r cam hwn yn cael ei wella o gael ei gysylltu'n benodol ag arweinyddiaeth.

Estyn

Byddem yn argymhell rhoi mwy o bwys ar hyfforddi staff er mwyn osgoi addysgu a gorfodi cwricwlwm ar sail rhyweddau. Dylai athrawon a staff deimlo'n gyfforddus wrth gynnig cymorth i fyfyrwyr nad ydynt yn cydymffurfio â stereoteipiau rhywedd.

Pobl

Yn arbennig o ystyried pryderon presennol ynghylch camwybodaeth, dylai myfyrwyr, disgyblion, athrawon a staff cymorth allu cael gafael ar gymorth arbenigol yn ddiogel i ddod o hyd i ystod gyfredol o gynrychiolaeth a gwybodaeth LHDTTC+ o ansawdd. Mae llyfrgelloedd yn darparu lleoedd ac adnoddau i ddisgyblion a myfyrwyr y tu allan i ystafelloedd dosbarth a rhestrau darllen ffurfiol ac maent yn gwneud hynny drwy staff sydd wedi'u hyfforddi i'w cynorthwyo i chwilio am wybodaeth eu hunain. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn annog ysgolion, colegau a phrifysgolion i werthfawrogi a datblygu'r gwasanaethau hyn.

Y proffesiwn llyfrgelloedd a gwybodaeth yng Nghymru

[Dylai fod yno] hyfforddiant ar gyflwyno a goruchwylio camau diogelu ac ymwybyddiaeth LHDTTC+ penodol yn y gwasanaethau iechyd cyhoeddus a gofal cymdeithasol, fel defnyddio rolau Gwarcheidwad LHDTTC+ annibynnol, ac ar gyfer pob darparwr iechyd a gofal cymdeithasol preifat, gan gynnwys cwnselwyr a seicotherapyddion a phawb sy'n cynnig gwasanaethau bugeiliol a gwasanaethau lles emosiynol, ysbrydol a seicolegol tebyg, er mwyn iddynt gael mynediad i'r hyfforddiant hwn, a dylai fod yn ofynnol fel rhan o'u cofrestrriad parhaus [...].

Ymateb unigol

Nid yw'n glir fan yma a fyddai'r hyfforddiant sy'n cael ei ddisgrifio fan yma ar wahân / yn ychwanegol i'r hyfforddiant statudol "Fy Nhrin yn Deg" presennol ar gyfer staff y GIG.

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Roedd gwaith pellach ar fodolau rôl a delweddau cadarnhaol yn allweddol i hyn, yn ogystal ag eiriolaeth:

O ran pob sector, byddai'n gadarnhaol gweld mwy o symudiad tuag at ddelweddau ac iaith LHDTTC+-gadarnhaol – mae hyn wedi dechrau ond mae angen iddo barhau.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Rydym hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i hyrwyddo modelau rôl a hyrwyddwyr LHDTTC+ o bob rhan o'r trydydd sector, gan gynnwys cynifer o sectorau â phosibl, nid yn unig o fyd diwylliant a chwaraeon.

Shelter Cymru

Gellid rhannu mentrau fel gwasanaeth eiriolaeth, gan na fydd unrhyw un sefydliad yn gallu ymrwymo iddo, ond byddai'n ddefnyddiol iawn cael ei ddefnyddio pan fo angen.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

5.5 Cysondeb

Nodwyd yn aml bod cysondeb yn rhwystr i lwyddiant y Cynllun Gweithredu, yn enwedig o ran hyfforddiant, addysg a chasglu data:

Mae diffyg arweiniad gan [Lywodraeth Cymru] o ran unrhyw hyfforddiant i sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau lleol. Byddai angen canoli hyn, yn hytrach na'i fod yn disgyn ar ysgwyddau swyddogion cydraddoldeb [awdurdodau lleol]. Mae angen bod yno ddull cenedlaethol.

Cyngor Sir Ddinbych

Fel sy'n cael ei grybwyll yn y Cynllun Gweithredu, mae'n bwysig sicrhau cysondeb deilliant ar draws y wlad. Er enghraifft, mae'r nod o sicrhau diogelwch yn bwysig gan fod nifer o unigolion LHDTG+ yn teimlo'n fregus mewn cymdeithas, ond credwn fod hyn yn benodol bwysig mewn ardaloedd fel Gwynedd gan fod y gymuned yn debygol o fod yn fwy gwasgaredig nag y byddai, e.e. yng Nghaerdydd. Bydd felly angen mwy o warchodaeth yn erbyn aflonyddu ac ati a rhaid sicrhau cefnogaeth addas ym mhob ardal.

Cyngor Gwynedd

5.6 Gwrthwynebiad

Nododd llawer o'r ymatebwyr fod canfyddiadau'r cyhoedd a'r stigma y mae bobl LHDTG+ yn eu hwynebu yn rhwystr posibl i ymwneud â'r Cynllun Gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys gwrthwynebiad penodol ac ymhlyg i'r Cynllun Gweithredu gan unigolion a sefydliadau. Cyfeiriodd rhai at ddigwyddiadau dadleuol diwedd mewn gwleidyddiaeth ac yn y cyfryngau, gan gynnwys tuag at bobl draws, fel tystiolaeth bod gwrthwynebiad sylweddol i rai agweddau ar y Cynllun Gweithredu. O'r safbwyntiau hyn, gallai gwrthwynebiad tuag at bobl LHDTG+ a'r Cynllun Gweithredu ei hun lunio neu gyfyngu ar ymatebion sefydliadol:

Mae hwn yn faes polisi cyhoeddus sy'n destun dadl genedlaethol a rhyngwladol. Weithiau, gall y ddadl gyhoeddus am gydbwyso hawliau menywod a merched sy'n seiliedig ar ryw a hawliau pobl draws fod yn ymrannol; gall hefyd fod yn fygythiol, gall frifo a gall weithiau fod yn beryglus i unigolion sy'n ymgyrchu ar y mater. Gall hyn atal cyrff cyhoeddus a llywodraethau fel ei gilydd rhag datblygu polisiau a'u gweithredu. Gall heriau cyfreithiol hefyd ohirio polisiau a chanllawiau newydd yn y maes hwn yn sylweddol rhag cael eu gweithredu [...]. Her allweddol arall a allai atal y nodau a'r camau gweithredu rhag cael eu cyflawni yw'r agweddau a'r credoau a allai fod gan rai yn y gymuned ehangach ynglŷn â'r gymuned LHDTG+. Nid yw pawb yn gefnogol i'r gymuned LHDTG+, ac er y gallai'r Cynllun Gweithredu addysgu rhai unigolion a rhoi cymorth pellach i'r rhai sy'n LHDTG+, ni fydd yn eu hatal rhag wynebu casineb gan unigolion penodol. I liniaru'r [...] risg hon, mae angen i hawliau dynol fod wrth wraidd y ddogfen hon, ac mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn feiddgar wrth sefyll dros

hawliau dynol pawb, yn enwedig pobl â hunaniaeth LHDTG+ (y mae eu hawliau'n aml dan fygythiad).

Comisiynydd Plant Cymru

Efallai y bydd angen i'r Cynllun Gweithredu ystyried yn well yr heriau a'r llais rhywedd-feirniadol sy'n cael eu codi. Mae rhai grwpiau'n llafar iawn ac mae angen arweiniad ar fynd i'r afael â hyn.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

O ystyried ymgyrchoedd diweddar, mae'n anochel y gwneir ymdrech i gyfleu gwelliannau i bobl draws fel rhai sy'n gwrthgyferbynnu â hawliau i fenywod. Nid ymdriniwyd â hyn o gwbl yn y Cynllun [Gweithredu], ond mae'n hanfodol i [Llywodraeth Cymru] fynd i'r afael â'r cwestiwn a datblygu ffordd ymlaen sydd wedi'i hystyried yn llawn rhag i'r gwaith da arfaethedig yn y Cynllun [Gweithredu] gael ei ddifetha.

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Her allweddol arall a allai effeithio ar gyflawni'r Cynllun [Gweithredu] yw'r cymhlethdod, yr her a'r sensitifrwydd cyfreithiol a gwleidyddol cynyddol o ran ymgynghori ac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol sy'n gysylltiedig â'r agenda hon (yr ydym yn deall sydd yn awr [yn cynnwys] sefydliadau rhywedd-feirniadol).

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

6 Croestoriadedd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn am eu barn ynghylch a yw'r Cynllun Gweithredu yn cydnabod croestoriad LHDTTC+ â nodweddion gwarchoddedig eraill. Mae'r rhain yn cynnwys hil, crefydd/cred, anabledd, oedran, rhyw, a phriodas a phartneriaeth sifil.⁷

6.1 Cyd-fynd â Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol Eraill

Mynegwyd yn aml yn yr ymatebion y dylid mynd i'r afael â'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ ochr yn ochr â Chynlluniau Gweithredu strategol perthnasol eraill er mwyn sicrhau croestoriadedd ystyrion. Byddai'r rhain yn cynnwys Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches, a Gweithredu ar Anabledd. Gallai hyn olygu bod angen monitro a amserlenni ar y cyd:

[Dylai] gyd-fynd yn glir â rhaglenni cydraddoldeb strategol a Chynlluniau Gweithredu eraill i sicrhau bod dulliau cyflawni systematig a chydgyssylltiedig yn cael eu defnyddio i gydnabod croestoriadedd a blaenoriaethau cydraddoldeb trawsbynciol a chydbberthynol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Yn dilyn hynny, nid ydym yn siŵr a yw croestoriadedd wedi'i leoli'n ddigonol yn y Cynllun Gweithredu, gan nad yw'n mynd i'r afael yn sylweddol â sut mae homoffobia, deuffobia a thrawsffobia yn rhyngweithio â rhywiaeth, hiliaeth neu ablediaeth, er enghraifft.

Chwarae Teg

Byddai'n ddoeth i'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ a Strategaeth Genedlaethol a Chynllun Cyflawni Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gydnabod sut mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn rhyngweithio ag 'arferion trosi' fel y'u gelwir, gan gynnwys trais rhywiol ac ymosodiadau rhywiol ar lesbiaid, priodas dan orfod fel dull o reoli rhywioldeb, a'r defnydd o orfodaeth a rheolaeth gan y sawl sy'n cam-drin sy'n ymwneud â rhywioldeb neu hunaniaeth rhywedd rhywun.

Cymorth i Ferched Cymru

⁷ A ydych chi'n teimlo bod y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ yn ymdrin yn ddigonol â chroestoriadedd LHDTTC+ â nodweddion gwarchoddedig eraill, megis hil, crefydd neu gred, anabledd, oedran, rhywedd, a phriodas a phartneriaeth sifil? Os nad ydych yn teimlo ei fod yn gwneud hynny, sut y gallwn wella hyn?

Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth bod y Cynllun Gweithredu hwn yn rhan o ddull ehangach o gryfhau camau diogelu cydraddoldeb a hawliau dynol, a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, Fframwaith Gweithredu ar Anabledd, a'r Cynllun Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau er mwyn diwallu anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig lluosog.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae hefyd yr her o sicrhau bod gwahanol Gynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru yn ategu ei gilydd lle bo hynny'n bosibl (er enghraifft, ar gasglu a dadansoddi data, hyfforddiant [posibl], ac ati) ac nad ydynt yn dyblygu neu, yn waeth, yn gwrth-ddweud ei gilydd. Dylid hefyd ystyried y posibilrwydd o flinder ac ymddieithrio, pe bai gormod o fentrau cydraddoldeb yn cael eu cyflwyno'n agos at ei gilydd (a fyddai'n galw am waith ychwanegol gan wasanaethau cyhoeddus neu'r sector preifat).

ColegauCymru

6.2 Hil

Amlygodd yr ymatebion y ddau bwynt gweithredu penodol sy'n cydnabod profiadau pobl groenliw sy'n arddel hunaniaeth LHDTc+ yn ogystal â sut i integreiddio ystyriaethau hil ac ethnigrwydd yn fwy cyffredinol ar draws y Cynllun Gweithredu. Teimlai rhai y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r Uned Gwahaniaethau ar sail Hil a'r Uned Data a Thystiolaeth Cydraddoldeb arfaethedig a sut y gallent gefnogi'r gwaith o gyflawni a dadansoddi'r Cynllun Gweithredu. Dylai hyn gael ei adlewyrchu nid yn unig yn y pwyntiau gweithredu ar ddiogelwch a chasglu data ond hefyd drwy gydol y Cynllun Gweithredu. Er enghraifft, dylai pwynt gweithredu 56 nodi'r hyn y mae'n ei olygu wrth 'ddata ar amrywiaeth', a dylai (unwaith eto) awgrymu dadansoddi a defnyddio data (nid casglu yn unig).

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu nad yw'r Cynllun Gweithredu yn cydnabod yn ddigonol y pryderon diogelwch penodol ar gyfer pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig LHDTc+. Roeddent yn teimlo y gallai'r Cynllun Gweithredu fynd ymhellach i gydnabod a mynd i'r afael â phrofiadau negyddol ac anghymesur o ran rhyngweithio â'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol yn ehangach. O'r safbwyntiau hyn, i raddau penodol yn unig yr oedd yr ymatebion a geisiodd gyd-lunio atebion gyda sefydliadau perthnasol yn mynd i'r afael â hyn. Teimlai rhai y dylid blaenoriaethu cyllid ar gyfer manau cymdeithasol, grwpiau cymunedol, a thrafnidiaeth fwy diogel yn ystod y nos:

Teimlaf fod adran y Cynllun [Gweithredu] ar yr heddlu yn gwbl sarhaus. Mae'n ymhyg nad oes gan bobl LHDTc groenliw reswm i ddrwgdybio'r heddlu y tu hwnt i'w teimladau. Nid oes cydnabyddiaeth bod gan heddlu Cymru broblem gyda hiliaeth sefydliadol a chwiarffobia. Er mwyn mynd i'r afael â phroblem, rhaid i chi ei henwi.

Ymateb unigol

6.3 Rhyw

Fel y trafodwyd eisoes, mynegwyd pryder cryf ynghylch effaith y Cynllun Gweithredu ar hawliau ar sail rhyw i fenywod, merched a lesbiaid yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod hawliau menywod cis a menywod traws yn anghydnaws. Roedd rhai yn anfodlon â chanfyddiadau'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn hyn o beth.

6.4 Ffydd

Roedd yr ymatebion yn galw am ddaduno crefyddau a chredoau o dan bwyntiau gweithredu sy'n cyfeirio at 'ffydd', ac am ddefnyddio ymagwedd fwy cynnil. Dylai hyn ystyried y berthynas bresennol rhwng mannau eglwysig a grwpiau LHDTTC+, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac atgyfnerthu nad yw crefydd a hawliau LHDTTC+ o reidrwydd yn gwrthdaro. Roedd rhai'n pryderu am y diffyg ystyriaeth o wahanu rhywiau ar sail ffydd, a bod y dull yn rhagdybio gwrthwynebiad crefyddol i'r Cynllun Gweithredu, gan arwain at ymagwedd naif:

Yn y ddogfen 'hawdd ei darllen', awgrymwn ddefnyddio, yn sensitif, symbolau ychwanegol (e.e. Seren Dafydd, y Corân Sanctaidd) sy'n dynodi ffydd, at y darlun o eglwys Gristnogol sydd wedi'i gynnwys ar hyn o bryd.

Tîm Rhywedd Cymru (Caerdydd)

6.5 Oedran

Fel a drafodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn, nododd sefydliadau fod angen dull bywyd llawn o ymdrin ag unrhyw bolisi penodol sy'n ymwneud â'r Cynllun Gweithredu. Mae cydfynd â Chymru o Blaid Pobl Hŷn, yn ogystal â Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol eraill, yn allweddol i gydnabod profiadau pobl LHDTTC+ hŷn, y mae llawer ohonynt wedi byw drwy gyfnod pan oedd eu hunaniaeth wedi'i throddoli, ac wedi profi stigma, gwahaniaethu ac (o bosibl) trawma sylweddol.

Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cefnogi argymhellion y Panel Arbenigol Annibynnol a oedd yn argymhell cod ymarfer newydd o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sy'n archwilio anghenion pobl LHDTTC+ hŷn yn benodol.

Cyfeiriwyd hefyd at enghreifftiau o waith ymchwil ac adnoddau sydd eisoes yn bodoli yn y maes hwn, fel 'Gofal o dan yr Enfys', ymchwil ar Heneiddio a Gofal Traws, a'r Ymddiriedolaeth Amrywiaeth. Yn ôl gwaith ymchwil, yn aml ni fydd staff yn ymwybodol o gwbl bod ganddynt breswylwyr a staff LHDTTC+ yn eu cartrefi neu'n ystyried bod cydraddoldeb yn golygu 'trin pawb yr un fath'. Mae angen i brosesau casglu data ar ddefnydd gwasanaethau ac anghenion gofal a chymorth defnyddwyr ddangos bod gan wahanol grwpiau lleiafrifol anghenion gwahanol yn ddiweddarach mewn bywyd, yn dibynnu ar hanes eu bywyd a'u hamgylchiadau cymdeithasol, ac y gallai 'trin pawb yr un fath' olygu parhau ag anghydraddoldebau (yn hytrach na mynd i'r afael â hwy):

Mae Age Connects Morgannwg yn credu bod angen mwy o gamau i gefnogi pobl hŷn. Er y bydd y camau arfaethedig yn cael effaith ar bobl hŷn heddiw, mae mwy o ffocws ar genedlaethau dilynol. Mae pobl hŷn heddiw wedi byw drwy adegau o wahaniaethu eithafol a phan oedd eu hunaniaeth wedi'i throreddoli. Rhaid cydnabod a pharchu'r elfen sensitif hon.

Age Connects Morgannwg

Mae'n sefyllfa amhosibl o ran adnabod a chofnodi hunaniaethau LHDTTC+. Yn enwedig ymysg aelodau hŷn y boblogaeth honno, mae ofn yn parhau o hyd ynghylch nodi eu hunain i awdurdodau, yn enwedig ym maes iechyd neu'r heddlu.

Rustic Rainbow

Cyfeiriodd llawer o ymatebion hefyd at anghenion penodol pobl ifanc, ac ymdrinnir â rhai ohonynt yn yr adran 'Addysg'. Fodd bynnag, er mwyn mynd i'r afael yn llawn ag anghenion ieuencid LHDTTC+, yn enwedig o ran iechyd meddwl, dylid cryfhau camau gweithredu ar draws y Cynllun Gweithredu:

Wrth gyfeirio'n benodol at sector gwaith ieuencid (cam gweithredu 19), er y caiff y sector gwirfoddol ei grybwyll fan yma, nid yw awdurdodau lleol (sydd â'r ddyletswydd statudol i ymwneud â gwaith ieuencid a gwasanaethau cymorth ieuencid, i'w cydlynu a'u darparu) yn cael eu crybwyll. Mae hwn yn ddiffyg y mae angen ei gywiro.

Grŵp Prif Swyddogion Ieuencid Cymru

6.6 Anabledd

Roedd ymatebion gan sefydliadau'r trydydd sector yn atgyfnerthu'r angen i ymgynghori ymhellach â grwpiau rhanddeiliaid yn y maes hwn. Dylai hyn nid yn unig gydnabod nad yw 'anabledd' ynddo'i hun yn rhywbeth unigol ond dylai hefyd roi lle canolog i brofiadau unigolion sy'n byw gyda gwahanol anabledau ac sydd ag anghenion cymorth gwahanol.

Yn fwyaf arwyddocaol, mae ehangu ffocws y Cynllun Gweithredu i gynnwys gofal cymdeithasol yn ogystal ag iechyd yn hollbwysig er mwyn mynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n byw gydag anabledau. Mae hyn yn cyfrannu at y stigma a'r gwahaniaethu penodol y mae rhai unigolion sydd ag anabledau dysgu yn benodol yn eu profi:

Mae'r sector yn aml yn gweithredu'n adweithiol, gan drin materion LHDTTC+ fel 'problemau' y mae angen mynd i'r afael â hwy o safbwynt diogelu. Mae hyn yn anwybyddu hawliau'r person anabl i dderbyn gwybodaeth gywir ac i gael lle i ddarganfod a phenderfynu sut y maent am fyw eu bywydau.

Rhwydwaith Supported Loving Cymru

O ran addysg, pwysleisiodd rhai ymatebwyr fod angen sicrhau nad yw ysgolion arbennig yn cael eu hepgor o'r newidiadau hyn, gan nodi ei bod yn aml yn anoddach fyth i blant ag anableddau dysgu nag i blant eraill gael gafael ar wybodaeth ddibynadwy a chadarnhaol. Er mwyn i bobl LHDTTC+ sydd ag anabledd dysgu gael gwybodaeth gytbwys, rhaid i'r holl ganllawiau mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu fod yn hygyrch/hawdd eu darllen yn Gymraeg a Saesneg, a dylai cyllid fod yn ei le i gynorthwyo hyn:

Rydym yn cefnogi'n gryf gynlluniau Llywodraeth Cymru i wneud Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ysgolion yn fwy LHDTTC+-gynhwysol, ond hoffem bwysleisio'r angen i sicrhau nad yw ysgolion arbennig yn cael eu hepgor o'r newidiadau hyn. Yn aml, mae'n anoddach fyth i blant ag anableddau dysgu nag i blant eraill gael gafael ar wybodaeth ddibynadwy a chadarnhaol, felly gofynnwn i Lywodraeth Cymru sicrhau nad ydynt o dan anfantais bellach drwy'r polisiau hyn.

Anabledd Dysgu Cymru

Ymhlith yr heriau niferus y mae ein sector yn eu hwynebu, mae grymuso unigolion, teuluoedd a staff i gefnogi perthnasoedd heteronormadol eisoes yn frwydr. Rhaid inni gefnogi unigolion LHDTTC+ yn well. Er mwyn gwneud hyn, mae angen herio'r farn nad yw pobl ag anabledd dysgu yn rhywiol, ac na allent byth fod yn rhan o'r gymuned LHDTTC+ am nad oes ganddynt ddealltwriaeth/gallu.

Mencap

6.7 Anfantais Economaidd-gymdeithasol

Cyfeiriodd llawer o'r ymatebion at yr angen i ystyried anfantais economaidd-gymdeithasol fel nodwedd o ddull croestoriadol. Mae cydnabod anfanteision sy'n dwysáu (o brofiadau bwlio yn yr ysgol i wahaniaethu yn y gweithle ochr yn ochr ag anghydraddoldebau iechyd) yn debygol o atgyfnerthu anfantais economaidd-gymdeithasol.

Cyfeiriwyd yn aml at anghydraddoldeb digidol fel pryder yn y maes hwn. Er bod hyfforddiant a chanllawiau ar-lein yn ddefnyddiol, dylai fod digon o le a chyllid ar gyfer dulliau darparu eraill. Mae allgáu digidol yn arbennig o bwys i gymunedau hŷn a mwy gwledig, sy'n dwysáu anghydraddoldebau eraill a godwyd yn yr ymatebion ynghylch oedran a rhanbarthau. Gallai pobl iau heb fynediad i ddyfeisiau'r rhyngwrwyd fod yn gyfyngedig o ran eu gallu i ddod o hyd i grwpiau cymorth ac ymuno â grwpiau o'r fath neu geisio gwybodaeth ac arweiniad. Felly, rhaid canolbwyntio nid yn unig ar adnoddau a chymorth ar-lein, ond hefyd ar sicrhau bod systemau cryf ar waith mewn lleoliadau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysgol i gefnogi pob person LHDTTC+:

Byddwn yn ychwanegu rhywbeth am gynhwysiant digidol, gan nad yw pob person LHDTTC+ ar-lein ac mewn ardaloedd gwledig / yn y cyfnod clo, ar-lein yw'r unig ffordd ymarferol i gynnig cymorth.

Rustic Rainbow

7 Y Gymraeg

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn am eu barn ar effaith y Cynllun Gweithredu ar y Gymraeg.⁸

7.1 Darpariaeth Gwasanaethau Cymraeg

Y prif bryder ynghylch y Gymraeg oedd sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddwyieithog ledled Cymru:

Un o elfennau hanfodol gwasanaethau iechedd meddwl yw'r cyfathrebu rhwng unigolion, ac un o elfennau sylfaenol cyfathrebu yw iaith. Os nad yw gwasanaethau iechedd meddwl ar gael yn y Gymraeg i bobl LHDTC+ mae'n bryder mawr gennym nad yw pobl yn derbyn y gefnogaeth sy'n addas iddynt.

Comisiynydd y Gymraeg

Unwaith yn unig y mae'r ymadrodd "drwy gyfrwng y Gymraeg" yn ymddangos yn y ddogfen, er gwaethaf y ffaith bod yn rhaid i bron i bob gweithred, ac yn sicr pob cam gweithredu sy'n cynnwys cyfathrebu uniongyrchol (boed un ffordd neu ddwy ffordd) â phobl LHDTC+, gefnogi cyfathrebu dwyieithog. Mae hyn yn arbennig o wir o ran iechedd a gofal cymdeithasol.

Y Coleg Nyrsio Brenhinol

7.2 Grwpiau Cymorth: Partneriaethau a Chyllid

Un ffordd i gefnogi'r Gymraeg fyddai adeiladu partneriaethau gyda sefydliadau a rhanddeiliaid Cymraeg presennol. Yn ogystal, rhywfaint o gymorth ar ffurf adnoddau i grwpiau LHDTC+ i gefnogi dwyieithrwydd ar gyfer eu haelodau:

Rydym yn cydnabod y gall fod heriau gwahanol i bobl LHDTC+ yn ein cymunedau mwy gwledig, Cymraeg eu hiaith, ond mae cyfle hefyd drwy sefydliadau ac unigolion allweddol i herio rhai o'r canfyddiadau a'r heriau lleol iawn hynny.

Cyngor Sir Caerfyrddin

⁸ Hoffem gael eich barn ar unrhyw effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

Dylai comisiynu gwasanaethau neu sefydliadau sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru gynnwys gofyniad i ddarparu gwasanaethau cynhwysol drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn sicrhau bod eiriolaeth a chymorth ar gael i bobl LHDTc+ sy'n siarad Cymraeg a gwell adnoddau i grwpiau LHDTc+ i annog a hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog.

Ymateb unigol

7.3 Y Gymraeg a Therminoleg LHDTc+

Gan fod iaith a hunaniaeth yn hanfodol i gymunedau LHDTc+ a chymunedau Cymraeg eu hiaith, mae darparu rhestr glir o eirfa yn y Cynllun Gweithredu a datgan yn glir y bydd hyfforddiant ar gael yn Gymraeg yn arbennig o bwysig i ysgolion a'r cwricwlwm mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg:

Rydym yn ymwybodol bod ansicrwydd ynghylch y termau sy'n addas i'w defnyddio yn y Gymraeg ym maes LHDTc+ ac mae'r cwestiwn hwn ynnddo'i hun yn tanlinellu'r ansicrwydd hwnnw yn y Gymraeg a'r Saesneg. Hoffem awgrymu felly y dylid sefydlu grŵp terminoleg a fyddai'n cytuno ar dermau sy'n ymwneud â hunaniaeth LHDTc+ yn y Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer Cymru ac sy'n ymgysylltu â chynrychiolwyr o'r maes ar lun y grŵp sydd wedi'i sefydlu i drafod cydraddoldeb hiliol.

Comisiynydd y Gymraeg

Rwy'n credu pe byddai [...] grwpiau cymorth LHDTc+ yn cael eu ffurfio, byddai hefyd yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ymarfer eu Cymraeg yn ogystal â gwneud ffrindiau LHDTc+ newydd.

Ymateb unigol

Bydd angen cynnwys rhwydweithiau Cymraeg (y wasg, swyddfa'r Comisiynydd, Cymdeithas yr Iaith, ac yn y blaen) i sicrhau eu bod yn rhoi cyhoeddusrwydd i bob neges mewn perthynas ag unrhyw gamau sy'n deillio o'r gwaith hwn. Y cyngor cryf fan yma yw ymgysylltu ar gam cynnar.

PRISM

8 Y Term LHDTTC+

Yn olaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ar yr iaith a ddefnyddir yn y Cynllun Gweithredu, gan gynnwys yr acronym 'LHDTTC+'.⁹

8.1 Terminoleg drwy gydol y Cynllun Gweithredu

Yn debyg i'r hyn a nodwyd yn flaenorol, mae galw am ddiffiniadau mwy clir o'r termau sydd wedi'u cynnwys yn yr acronym. Yn y dadansoddiad, cyfeiriwyd hefyd at ystyriaeth o ddatblygiad termau yn y Gymraeg ac awgrymwyd y dylid sefydlu grŵp terminoleg:

Nid oes gan lawer o'r termau a ddefnyddir yn yr acronym hwn ddiffiniad ystyrlon. Beth mae 'cwiar' yn ei olygu yn y cyd-destun hwn? Beth yw'r hunaniaethau eraill hyn? Ni allwch gefnogi pobl oni bai bod gennych syniad clir o bwy ydynt.

Ymateb unigol

Rydym yn ymwybodol bod ansicrwydd ynghylch y termau sy'n addas i'w defnyddio yn y Gymraeg ym maes LHDTTC+ ac mae'r cwestiwn hwn ynnddo'i hun yn tanlinellu'r ansicrwydd hwnnw yn y Gymraeg a'r Saesneg. Hoffem awgrymu felly y dylid sefydlu grŵp terminoleg a fyddai'n cytuno ar dermau sy'n ymwneud â hunaniaeth LHDTTC+ yn y Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer Cymru ac sy'n ymgysylltu â chynrychiolwyr o'r maes ar lun y grŵp sydd wedi'i sefydlu i drafod cydraddoldeb hiliol.

Comisiynydd y Gymraeg

Credwn y dylai'r derminoleg a ddefnyddir yn y Cynllun [Gweithredu] gael ei harwain gan farn arbenigol a phrofiad byw unigolion a chymunedau. Rydym yn cydnabod y gallai'r derminoleg hon newid dros amser. Rydym am i'r Gymraeg ffynnu ac ni welwn unrhyw effaith negyddol o weithredu'r Cynllun [Gweithredu] ar y Gymraeg. Rydym hefyd yn cefnogi gwaith sy'n ategu gwaith Comisiynydd y Gymraeg ac yn cyd-fynd ag ef.

Chwaraeon Cymru

⁹ Datblygwyd y cynllun hwn ar y cyd, ac mae trafodaethau ynghylch iaith a hunaniaeth wedi dangos y dylid defnyddio'r acronym LHDTTC+. Mae hyn yn sefyll am bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a chwiar/cwestiynu, gyda'r + yn cynrychioli hunaniaethau rhywiol eraill. O ganlyniad, rydym yn cyfeirio at bobl LHDTTC+ yn y Cynllun. Beth yw eich barn am y term hwn ac a oes dewis amgen y byddai'n well gennych? Efallai y bydd siaradwyr Cymraeg am ystyried terminoleg addas yn y ddwy iaith.

8.2 Mae LHDTTC+ yn Gynhwysol

Mae llawer o grwpiau'n croesawu'r defnydd o'r acronym 'LHDTTC+' ac yn teimlo ei fod yn ddigon cynhwysol, gyda'r '+' yn caniatáu ar gyfer terminoleg sy'n newid ac yn esblygu. Roedd llawer yn yr ystyr hwn yn teimlo nad oedd yn briodol dewis acronym 'diffiniol' ac y dylid adolygu'r acronym, fel polisi, yn gyson ac ymgynghori arno wrth i gymdeithas ddatblygu. Teimlai rhai fod yr acronym yn ddigonol ond y dylid cyfeirio'n benodol at hunaniaethau eraill sydd wedi'u cynnwys o dan '+' a'u diffinio pan gaiff ei esbonio:

Mae'n ymddangos mai dyma'r term mwyaf priodol i gwmpasu amrywiaeth y rhan fwyaf o'r gymuned; mae'n ymddangos y deillir bellach bod y + yn gyffredinol yn cwmpasu popeth arall. Gyda hyn mewn golwg, mae cyfeirio at 'cwiar / pobl sy'n cwestiynu' fel un fel hyn yn rhoi'r argraff eu bod yn gyfnewidiol, pan maen nhw mewn gwirionedd yn hunaniaethau gwahanol iawn. Gallai 'pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, cwiar, a phobl sy'n cwestiynu' fod yn fwy priodol os yw'r C i gael ei ddefnyddio ar gyfer y ddau, ac nid yn dod o dan y +.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Mae 'LHDTTC+' yn iawn fel acronym – cyhyd â bod termau ychwanegol, gan gynnwys anneauidd, anrhywiol, rhyngrywiol hefyd yn cael eu nodi mewn dogfennau manylach.

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU2) Cynghair yn erbyn Therapi Trosti

Roedd ymatebion eraill yn awgrymu defnyddio 'amrywiaeth rhywedd, rhywiol a pherthynas' (GSRD yn Saesneg) fel dewis amgen posibl. O'r safbwyntiau hyn, roedd 'GSRD' yn amlygu amrywiaeth heb allgáu pobl benodol o anghenraid:

Mae 'GSRD' yn ddefnyddiol. Er bod yr ymgynghoriad hwn, a'r rhan fwyaf o bobl, yn defnyddio'r term 'LHDTTC+', rwy'n ffafrio [...] y safbwynt a amlinellir yn adnodd BACP, Good Practice gan Meg-John Barker, sy'n hyrwyddo'r term mwy defnyddiol ond llai cyfarwydd 'amrywiaeth rhywedd, rhywiol a pherthynas' (GSRD).

Lloches Trais Domestig Calan

8.3 Eithrio Hunaniaethau Rhyngrywiol ac Anrhywiol

Roedd llawer yn pryderu am eithrio hunaniaethau rhyngrywiol ac anrhywiol o'r acronym ac o'r Cynllun Gweithredu yn fwy cyffredinol:

Rydym yn cydnabod mai 'LHDT+' yw'r term mwyaf priodol sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredin yn bresennol. Fodd bynnag, teimlwn fod yr acronym hwn yn hepgor pobl ryngrywiol a phobl anrhywiol ac anrhamantaidd, y dylid eu cynnwys, fel a nodwyd yn flaenorol yn yr ymateb hwn. Yn yr achos hwn, 'LHDT+RhA+' yw'r acronym ehangach sy'n cael ei ddefnyddio gan sefydliadau sy'n cynnwys pobl ryngrywiol, anrhywiol ac anrhamantaidd yn eu gwaith.

Cyngor Casnewydd

Roeddem o'r farn ei fod yn dweud llawer nad oedd "Rh" wedi'i gynnwys yn yr acronym, gan fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith nad oedd cyfeiriad at bobl ryngrywiol yn unrhyw le yn y Cynllun [Gweithredu]. Nid oes dealltwriaeth eang o'r term ei hun na'r amrywiadau mewn bioleg ddynol sydd gyda'i gilydd yn dod o dan ymbarél "rhyngrywiol", felly byddai'n dda gweld mwy o ffocws ar ymchwil ac addysg bellach ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Iechyd Cyhoeddus Cymru

8.4 Defnyddio'r Term 'Cwiar'

Roedd llawer yn anghyfforddus ynglŷn â chynnwys y term 'cwiar'. Mae llawer o unigolion hŷn yn ystyried y term yn sarhaus ac, felly, ni fyddent yn hoffi iddo gael ei gynnwys yn yr acronym.

Ar y llaw arall, mae llawer o unigolion yn arddel hunaniaeth gwiar mewn ffordd gadarnhaol ac yn ei gydnabod fel term ymbarél sy'n caniatáu ar gyfer hunaniaethau sy'n esblygu ac yn newid ac yn golygu nad oes angen rhoi manylion penodol am fywyd personol unigolyn mewn lleoliadau lle nad yw hyn yn briodol. Yn hyn o beth, nid oedd llawer a oedd yn arddel y term yn defnyddio'r term hwn yn unig; yn hytrach, roeddent yn aml yn ei ddefnyddio ochr yn ochr â hunaniaethau eraill:

Efallai ei bod yn werth nodi bod llawer o bobl, LHDT+ a heterorywiol, yn anghyfforddus ynglŷn â'r gair 'cwiar', oherwydd tan yn gymharol ddiweddar fe'i defnyddiwyd bron yn gyfan gwbl fel sarhad.

Y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol

Rwy'n ddigon hen i ddal i ystyried y gair 'cwiar' yn sarhad. Wedi dweud hynny, mae bellach yn derm ymbarél cynhwysol ODDI MEWN i'r gymuned. Mae clywed pobl heterorywiol yn ei ddefnyddio yn dal i fod yn broblemus iawn, gan ei fod yn dal i fod yn sarhad cyffredin. Ar y cyfan, mae'n well gennyf i 'LHDT+', gan ei fod eisoes yn cwmpasu pob hunaniaeth o dan yr arwydd '+'.

Ymateb unigol

Atodiad 1: Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 1

A ydych chi'n meddwl y bydd y Cynllun Gweithredu yn gwella cydraddoldeb i bobl LHDTG+ a beth ddylai'r blaenoriaethau fod yn eich barn chi?

Cwestiwn 2

A ydych chi'n cytuno â'r nodau cyffredinol? Beth fydddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei ddileu mewn perthynas â'r nodau cyffredinol?

Cwestiwn 3

A ydych yn cytuno â'r camau gweithredu sy'n cael eu cynnig? Beth fydddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei ddileu mewn perthynas â'r camau gweithredu?

Cwestiwn 4

Beth yw'r prif heriau a allai atal y nodau a'r camau rhag cael eu cyflawni?

Cwestiwn 5

Pa adnoddau (gallai hyn gynnwys cyllid, amser staff, hyfforddiant, mynediad at wasanaethau cymorth neu wasanaethau eiriolaeth ymhlith pethau eraill) a fydd yn angenrheidiol yn eich barn chi wrth gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu a amlinellir?

Cwestiwn 6

A ydych chi'n teimlo bod y Cynllun Gweithredu LHDTG+ yn ymdrin yn ddigonol â chroestoriadedd LHDTG+ â nodweddion gwarchoddedig eraill, megis hil, crefydd neu gred, anabled, oedran, rhywedd, a phriodas a phartneriaeth sifil? Os nad ydych yn teimlo ei fod yn gwneud hynny, sut y gallwn wella hyn?

Cwestiwn 7

Hoffem gael eich barn ar unrhyw effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

Cwestiwn 8

Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r dull polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwn sicrhau na fydd effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 9

Datblygwyd y cynllun hwn ar y cyd, ac mae trafodaethau ynghylch iaith a hunaniaeth wedi dangos y dylid defnyddio'r acronym LHDTG+. Mae hyn yn sefyll am bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a chwiar/cwestiynu, gyda'r + yn cynrychioli hunaniaethau rhywiol eraill. O ganlyniad, rydym yn cyfeirio at bobl LHDTG+ yn y Cynllun. Beth yw eich barn am y term hwn ac a oes dewis amgen y byddai'n well gennych? Efallai y bydd siaradwyr Cymraeg am ystyried terminoleg addas yn y ddwy iaith.

Cwestiwn 10

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi ymdrin yn benodol â nhw, gallwch eu nodi isod:

Atodiad 2: Rhestr o'r Sefydliadau a Ymatebodd

Gyda'i gilydd, cymerodd 151 o sefydliadau'r amser i ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys rhai yn y trydydd sector, y sector preifat a'r sector cyhoeddus:

Llywodraeth Leol

Prif Swyddog Ieuencid Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Tref Penarth
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Rhondda Cynon Taf
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Abertawe
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Casnewydd
Cyngor Gwynedd

Byrddau Iechyd Prifysgol neu Grwpiau sy'n Gysylltiedig â'r GIG

Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Gwasanaeth Seicoleg a Therapi Seicolegol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Tîm Rhywedd Cymru, GIG (Caerdydd)
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Gofal Cymdeithasol Cymru
Addysg a Gwellu Iechyd Cymru
Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru

Sefydliadau Llywodraethol

Comisiynydd Plant Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Estyn
Arolygiaeth Gofal Cymru
Chwaraeon Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Cymdeithasau Proffesiynol

Sefydliad y Peirianwyr Sifil: Cymru
Y Sefydliad Adeiladu Siartredig
Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith yng Nghymru
Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, Cymru
Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain
Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain, Cymru
Coleg Brenhinol y Meddygon, Cymru
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Sefydliadau'r Trydydd Sector

Y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol
Safespace Pen-y-bont ar Ogwr
Trans Aid Cymru
United Welsh
Cymdeithas Syndrom Klinefelter y DU
Y Groes Goch Brydeinig
Cymorth i Ddiodefwrwr
Fast Track Caerdydd a'r Fro
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU2) Cyngrhair yn erbyn Therapi Trosi Pobl
Grŵp Prif Swyddogion Ieuencid Cymru
Seicolegwyr dros Newid Cymdeithasol Cymru
Cyngrhair Cydraddoldebau a Hawliau Dynol
Llamau
NSPCC Cymru
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Platform
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
ColegauCymru
Anableded Dysgu Cymru

Age Cymru
GoodVibes @YMCA Abertawe
End Youth Homelessness Cymru
Samariaid Cymru
Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
Cyngor ar Bopeth yng Nghymru
Pobl yn Gyntaf Cymru
Mencap Cymru
Rhwydwaith Supported Loving Cymru
Shelter Cymru
Barnardo's Cymru
Y proffesiwn llyfrgelloedd a gwybodaeth yng Nghymru
Tai Pawb
Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
Plant yng Nghymru
Yr Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Age Connects Morgannwg
Cymdeithas Alzheimer's Cymru
Ymddiriedolaeth Terrence Higgins
Gofalwyr Cymru

Undebau

Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
NASUWT Cymru – Undeb yr Athrawon
UNSAIN
Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU Cymru)
Unite Cymru
TUC Cymru

Grwpiau LHDTC+

Glitter
LGBA Cymru
Queer Writers Cardiff
Rustic Rainbow
LGB Alliance
Viva LHDTC+
Paned o Gê
Pride Cymru
The Queer Emporium
Unique Transgender Network
PRISM
Rhwydwaith LHDT+ a Chyfeillion, Cymdeithas Adeiladu'r Principality
Aelodau grŵp ieuencid Viva LHDTC+
Calon, Rhwydwaith Staff LHDT+ a Chynghreiriaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Stonewall Cymru

Grŵp anffurfiol o fyfyrwyr a staff LHDTTC+ yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd

Diverse Cymru

Bi Cymru, Bi Abertawe, a Bi Caerdydd

Grwpiau Menywod

Irish Women's Foundation

Ludlow Women's Rights Group

Merched Cymru

Chwarae Teg i Fenywod

ReSisters Abertawe a Gŵyr

Cymorth i Ferched Cymru

Welsh Women Speak Out

Lloches Trais Domestig Calan

Chwarae Teg

Grwpiau Crefyddol

Strong Support

Emmaus Christian Fellowship

Eglwys Highfields

St Mary Magdalene's

Eglwys Gymunedol New Hope, Abertawe

Ymddiriedolaeth Addysg Teuluoedd

Y Gynghrair Efengylaidd yng Nghymru

Y Sefydliad Cristnogol

Christian Doctrine

Cyngor Rhyng-ffydd Cymru

Christian Concern

Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig

Cysylltiadau Gwleidyddol

Aelod Seneddol

Lesbian Labour

Plaid Ifanc

Plaid Lafur Etholaeth Delyn

Gweithgor Labour Women's Declaration

Cynghorydd

Cynghorydd

Cynghorwyr

Arall

Cwmni Buddiannau Cymunedol SpokesPerson

Capital Law

Academaidd ym Mhrifysgol Bryste
Prifysgol Caerdydd
Ysgol Coedcae
Safe Schools Alliance

wavehill™

social and economic research

01545 571711
wavehill@wavehill.com
wavehill.com



